

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a P Gareth Williams
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 25 Ebrill 2022 0300 200 6565
Amser: 13.30 SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
13.30

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan
Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

13.30–13.40

(Tudalennau 1 – 7)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–12–22 – Papur 1 – Adroddiad drafft

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

2.1 SL(6)184 – Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
(Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

2.2 SL(6)189 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr Ôl–raddedig) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2022

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)



2.3 SL(6)192 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

2.4 SL(6)193 – Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

2.5 SL(6)187 – Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
13.40–13.50

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

- 3.1 SL(6)181 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr etc.) (Cymru) (Dirymu) 2022**

(Tudalennau 8 – 10)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 2 – Adroddiad drafft

- 3.2 SL(6)183 – Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 11 – 14)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 3 – Adroddiad drafft

- 3.3 SL(6)188 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 15 – 18)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 4 – Adroddiad drafft

LJC(6)-12-22 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Llywydd, 30 Mawrth 2022

- 3.4 SL(6)195 – Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 19 – 22)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 6 – Adroddiad drafft

LJC(6)-12-22 – Papur 7 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd i'r Llywydd, 8 Ebrill 2022

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

3.5 SL(6)194 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) 2022

(Tudalennau 23 – 27)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) [Saesneg yn unig]

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 8 – Adroddiad drafft

LJC(6)-12-22 – Papur 9 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 8 Ebrill 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 10 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 8 Ebrill 2022

Offeryn y Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

3.6 SL(6)196 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2022

(Tudalennau 28 – 30)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 11 – Adroddiad drafft

LJC(6)-12-22 – Papur 12 – Llythyr gan y Prif Weinidog i'r Llywydd, 13 Ebrill 2022

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

13.50–14.00

4.1 SL(6)130 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

(Tudalennau 31 – 36)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 28 Mawrth 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 14 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 28 Chwefror 2022

4.2 SL(6)131 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

(Tudalennau 37 – 42)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 15 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 28 Mawrth 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 16 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 28 Chwefror 2022

5 Fframweithiau cyffredin

14.00–14.05

5.1 Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Fframweithiau Cyffredin – Crynodeb o'r Cynnydd Diweddar

(Tudalennau 43 – 44)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 17 – Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 30 Mawrth 2022

5.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Fframwaith Cyffredin dros dro ar Iechyd planhigion

(Tudalennau 45 – 48)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 18 – Llythyr gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 6 Ebrill 2022 [Saesneg yn unig]

5.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Fframwaith Cyffredin dros dro ar Gwrteithwyr

(Tudalennau 49 – 52)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 19 – Llythyr gan y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 6 Ebrill 2022 [Saesneg yn unig]

6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

14.05–14.15

6.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Cyfarfod Grŵp Rhyngweinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalennau 53 – 55)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 20 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 28 Mawrth 2022

6.2 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a

Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol: Tryloywder cyfarfodydd cysylltiadau rhynglywodraethol

(Tudalennau 56 – 57)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 21 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, 29 Mawrth 2022 [Saesneg yn unig]

6.3 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

(Tudalennau 58 – 61)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 22 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 31 Mawrth 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 23 – Datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 31 Mawrth 2022

6.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol Cyllid

(Tudalennau 62 – 63)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 24 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 5 Ebrill 2022

6.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2022

(Tudalen 64)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 25 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 6 Ebrill 2022

6.6 Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a phwerau cydredol sydd wedi'u cynnwys o fewn biliau Llywodraeth y DU

(Tudalennau 65 – 69)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 26 – Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, 7 Ebrill 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-12-22 – Papur 27 – Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, 28 Ionawr 2022 [Saesneg yn unig]

6.7 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Cytundeb Masnach a Chydweithredu

(Tudalen 70)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 28 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 11 Ebrill 2022

6.8 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad:

Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol, Deddf y Farchnad Fewnol, a Chonfensiwn Sewel

(Tudalennau 71 – 84)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 29 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 20 Ebrill 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 30 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 25 Mawrth 2022

6.9 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru

(Tudalennau 85 – 86)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 31 – Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 21 Ebrill 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 32 – Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 21 Ebrill 2022

7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

14.15–14.25

7.1 WS-30C(6)007 – Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2022

(Tudalennau 87 – 88)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 33 – Datganiad ysgrifenedig, 31 Mawrth 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 34 – Sylwadau

7.2 WS-30C(6)008 – Rheoliadau Mewnforio Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid a Gwledydd Cymeradwy (Diwygio) 2022

(Tudalennau 89 – 94)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 35 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 31 Mawrth 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 36 – Datganiad ysgrifenedig, 31 Mawrth 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 37 – Sylwadau

8 Papurau i'w nodi

14.25-14.35

8.1 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau Cyfnod 1 ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

(Tudalennau 95 – 117)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 38 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Mawrth 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 39 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 29 Mawrth 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 40 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Mawrth 2022

8.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelwch Adeiladau

(Tudalennau 118 – 119)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 41 – Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Mawrth 2022

8.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Profiadau o'r system cyfiawnder troseddol

(Tudalen 120)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 42 – Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 7 Ebrill 2022

8.4 Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru, UKHospitality Cymru a PASC UK i Orchymyn drafft Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022

(Tudalennau 121 – 138)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 43 – Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru, UKHospitality Cymru a PASC UK i Orchymyn drafft Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022, 8 Ebrill 2022 [Saesneg yn unig]

8.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Ymgysylltu

(Tudalennau 139 – 141)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 44 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, 11 Ebrill 2022

8.6 Adroddiad Llywodraeth Cymru: Ymateb deddfwriaethol Gweinidogion Cymru i bandemig y coronafeirws

(Tudalennau 142 – 165)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 45 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 11 Ebrill 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 46 – Adroddiad Llywodraeth Cymru: Ymateb deddfwriaethol Gweinidogion Cymru i bandemig y coronafeirws

8.7 Gohebiaeth gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder: Gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor

(Tudalennau 166 – 168)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 47 – Llythyr gan yr Arglwydd Ganghellor a'r

Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, 12 Ebrill 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-12-22 – Papur 48 – Llythyr at yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, 17 Mawrth 2022

**8.8 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder
Cymdeithasol: Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol**

(Tudalen 169)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 49 – gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 13 Ebrill 2022

8.9 Datganiad ysgrifenedig: Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

(Tudalennau 170 – 171)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 50 – Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 13 Ebrill 2022

**8.10 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad:
Memorandwm Cysyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Etholiadau**

(Tudalennau 172 – 176)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 51 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Ebrill 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 52 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Mawrth 2022

8.11 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Gwelliannau i Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

(Tudalennau 177 – 181)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 53 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 20 Ebrill 2022

LJC(6)-12-22 – Papur 54 – Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog
Cyfiawnder Cymdeithasol, 20 Ebrill 2022

**9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

14.35

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Iaith Arwyddion
Prydain – trafod yr adroddiad drafft**

14.35-14.45

(Tudalennau 182 – 185)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 55 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm
Rhif 4) y Bil Iechyd a Gofal – trafod y nodyn cyngor cyfreithiol a'r
adroddiad drafft**

14.45-15.00

(Tudalennau 186 – 199)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-12-22 – Papur 56 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol
(Memorandwm Rhif 4) y Bil Iechyd a Gofal

LJC(6)-12-22 – Papur 57 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-12-22 – Papur 58 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

12 Blaenraglen waith

15.00-15.20

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 25 Ebrill 2022

SL(6)184 – Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Drosiannol) (Prif Weithredwyr) 2022

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau, sef cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, benodi prif weithredwr. Mae'r gofyniad hwn yn disodli'r gofyniad ar brif gynghorau i ddynodi un o'u swyddogion yn bennaeth eu gwasanaeth taledig o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Mae Atodlen 5 i Ddeddf 2021 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i adran 54, fodd bynnag, nid yw diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth wedi'u cynnwys yn yr Atodlen honno. Mae'r Rheoliadau hyn, felly, yn gwneud diwygiadau canlyniadol o'r fath i is-ddeddfwriaeth. Maent hefyd yn rhoi darpariaeth drosiannol ar waith fel y bydd y swyddogion hynny a ddynodwyd yn benaethiaid ar wasanaethau taledig yn union cyn 5 Mai 2022 (y dyddiad y bydd adran 54 o Ddeddf 2021 ac Atodlen 5 iddi, ynghyd â'r Rheoliadau hyn, yn dod i rym) yn cael eu trin fel y prif weithredwr o dan adran 54 o Ddeddf 2021.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989

Fe'u gwnaed ar: 22 Mawrth 2022

Fe'u gosodwyd ar: 25 Mawrth 2022

Yn dod i rym ar: 05 Mai 2022



Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

25 Ebrill 2022

SL(6)189 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr Ôl-raddedig) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig a ganlyn:

- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Dyma effaith y diwygiadau hyn:

- Cynyddu swm y cymorth sy'n daladwy i fyfyrwyr gradd Feistr ôl-raddedig yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir, drwy gynyddu swm y benthyciad. Ni fydd y cymorth grant yn cynyddu. Bydd cyfanswm y cymorth yn codi o £18,025 i £18,430 ar gyfer pob cwrs;
- Cynyddu swm y cymorth i fyfyrwyr doethuriaeth yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir. Benthyciad yn unig yw'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr doethuriaeth, a bydd hwn yn cynyddu o £27,265 i £27,880 ar gyfer pob cwrs;
- Dileu unrhyw gyfeiriad at y 'cyfnod gras' mewn perthynas â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan fod y cyfnod hwnnw wedi dod i ben yn awr;
- Sicrhau bod unigolion, sy'n cael caniatâd i ddod i'r Deyrnas Unedig, neu i aros yn y wlad fel ddinasyddion perthnasol o Affganistan o dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganïaid (ARAP) a'r Cynllun Adsefydlu Ddinasyddion Affganistan (ACRS), yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr; Mae'r trefniadau hyn yn ymestyn i'r priod, y partner sifil neu unrhyw blant dibynnol. Nid ydynt yn ymestyn i bartner nad yw'n briod neu'n bartner sifil i ddinasydd perthnasol o Affganistan;
- Sicrhau bod myfyrwyr sy'n cael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol yn gymwys i gael cymorth i astudio Gradd Feistr Ôl-raddedig ar ffurf benthyciad. Ar hyn bryd, nid yw myfyrwyr sy'n astudio Gradd Feistr Ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol ac sy'n cael bwrsariaeth gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr. O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, bydd y myfyrwyr hyn yn gymwys i wneud cais am fenthyciad atodol; ac
- Ni fydd rhai myfyrwyr yn gymwys i gael benthyciad doethuriaeth os byddant yn cael bwrsariaeth gan Lywodraeth Cymru. Sail resymegol y Llywodraeth yw osgoi ariannu myfyrwyr ddwywaith.



Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Awst 2022 neu wedyn.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

Fe'u gwnaed ar: 29 Mawrth 2022

Fe'u gosodwyd ar: 30 Mawrth 2022

Yn dod i rym ar: 06 Mai 2022



Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

25 Ebrill 2022

SL(6)192 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022 ("y Gorchymyn") yn cael ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan y darpariaethau perthnasol yn adrannau 95, 96 a 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Mae'r Gorchymyn yn awdurdodi awdurdodau perthnasol i wneud at ddiben masnachol unrhyw beth y maent wedi'i awdurdodi i'w wneud at ddiben cyflawni unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau cyffredin ac yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag arfer y pŵer i fasnachu gan awdurdod perthnasol.

Cyn y gall arfer y pŵer, mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol baratoi a chymeradwyo achos busnes i gefnogi'r bwriad i arfer y pŵer, a rhaid cyhoeddi'r achos busnes cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod perthnasol adennill, oddi wrth y cwmni y mae'n arfer y pŵer i fasnachu drwyddo, gostau unrhyw lety, nwyddau, gwasanaethau, staff neu unrhyw beth arall y mae'n ei gyflenwi i'r cwmni.

At ddibenion y Gorchymyn hwn, yr awdurdodau perthnasol sydd wedi'u hawdurdodi i arfer y pŵer i fasnachu yw'r awdurdodau perthnasol hynny yng Nghymru sef: (a) cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol (b) cynghorau cymuned cymwys (hynny yw, y cynghorau cymuned hynny sy'n bodloni'r amodau i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol o dan adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) ("Deddf 2021") (c) awdurdodau Parciau Cenedlaethol (d) awdurdodau tân ac achub, a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo (e) cydbwyllgorau corfforedig a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf 2021.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Llywodraeth Leol 2003

Fe'u gwnaed ar: 04 Ebrill 2022

Fe'u gosodwyd ar: 06 Ebrill 2022

Yn dod i rym ar: 05 Mai 2022



Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

25 Ebrill 2022

SL(6)193 – Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys. Yn benodol, mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhoi i'r awdurdodau hynny bŵer i wneud pethau penodol at ddiben masnachol.

Mae'r pŵer i wneud pethau at ddiben masnachol yn ddarostyngedig i amodau a nodir yn adran 27 o'r Ddeddf. Mae adran 28(4) o'r Ddeddf yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu, drwy reoliadau, y bydd arfer y pŵer cyffredinol yn ddarostyngedig i amodau ychwanegol.

Mae Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn rhagnodi'r amodau sydd i'w bodloni gan brif gyngor cyn arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2021 i gynnwys cynghorau cymuned cymwys o fewn ystyr "awdurdod" yn Rheoliadau 2021. Effaith hyn yw estyn cymhwysiad yr amodau yn Rheoliadau 2021 i gynghorau cymuned cymwys o 5 Mai 2022, sef y dyddiad y caniateir iddynt ddechrau arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, gan gynnwys at ddiben masnachol.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Fe'u gwnaed ar: 04 Ebrill 2022

Fe'u gosodwyd ar: 06 Ebrill 2022

Yn dod i rym ar: 05 Mai 2022



Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

25 Ebrill 2022

SL(6)187 – Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i adrannau 57 a 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac Atodlen 7 iddi. Mae adran 57 yn ymwneud â phenodi cynorthwywyr gweithrediaeth awdurdod lleol, ac mae adran 58 ac Atodlen 7 yn ymwneud â rhannu swydd ar weithrediaeth awdurdod lleol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i ddarparu y caniateir i ddau neu ragor o aelodau awdurdod lleol sy'n rhannu swydd ar y weithrediaeth gael eu penodi i bwyllgor gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol, neu bwyllgor llywodraethu ac archwilio awdurdod lleol, ond nad yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod at y dibenion a bennir mewn cysylltiad â phob pwyllgor (aelodaeth, pleidleisio a hawlio cyfarfod).

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") i ddarparu na chaiff pwyllgor safonau awdurdod lleol ond cynnwys naill ai un aelod gweithrediaeth neu un cynorthwydd gweithrediaeth, o'r awdurdod lleol hwnnw. At hynny, pan fo dau neu ragor o awdurdodau lleol yn sefydlu cydbwyllgor safonau, ni chaiff y pwyllgor hwnnw ond cynnwys naill ai un aelod gweithrediaeth neu un cynorthwydd gweithrediaeth, o bob awdurdod lleol cyfansoddol.

Mae rheoliad 3 hefyd yn diwygio Rheoliadau 2001 i ddarparu y caniateir i ddau neu ragor o aelodau gweithrediaeth awdurdod lleol sy'n rhannu swydd gael eu penodi i bwyllgor safonau awdurdod lleol, ond nad yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod at y dibenion a bennir (maint a chyfansoddiad y pwyllgor, pleidleisio a chworwm).

Mae rheoliad 4 yn diwygio Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002 i ddarparu nad yw maer dros dro nac aelodau gweithrediaeth dros dro i'w trin fel aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol at ddiben y terfyn statudol a osodwyd ar nifer aelodau'r weithrediaeth a nodir yn adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Fe'u gwnaed ar:



Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Fe'u gosodwyd ar: 29 Mawrth 2022

Yn dod i rym ar: 13 Mai 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 7

Eitem 3.1

SL(6)181 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr etc.) (Cymru) (Dirymu) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr"), a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020, ("Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd") (gyda'i gilydd "y Prif Reoliadau").

Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu nifer o offerynnau statudol sy'n diwygio'r Prif Reoliadau yn ogystal â'r fersiwn flaenorol o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod wedi'i dorri (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad



y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r confensiwn a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 16 Mawrth 2022.

Yn benodol, nodwn yr hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch cadw'r dull pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol:

Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, gall y Rheoliadau hyn ddod i rym ar y cyfle cynharaf ac maent yn parhau i gynnal y dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol oherwydd bydd y gwledydd eraill hefyd yn dirymu eu Rheoliadau ar yr adeg hon; o ganlyniad i'r dystiolaeth sy'n newid bod y risgiau a achosir gan deithio rhyngwladol wedi newid ac nid yw'n gymesur mwyach felly i gynnal mesurau'r cyfyngiadau

Ymhellach, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd newidiadau Llywodraeth y DU yn golygu na fydd modd gweithredu ddeddfwriaeth gyfatebol Cymru:

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu dirymu ei rheoliadau o 04:00 ar 18 Mawrth sy'n golygu y bydd y ffurflen lleoli teithwyr yn dod i ben o'r adeg honno. Nid oes modd gweithredu rheoliadau Cymru heb y ffurflen lleoli teithwyr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu dirymu yn y gwledydd eraill felly ceir cysondeb ar draws y DU.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn nodi effaith y Rheoliadau ar hawliau dynol:

Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y modd y cyffyrddir o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol oherwydd caiff y cyfyngiadau presennol eu dileu; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau oherwydd bod trosglwyddiadau domestig Omicron yn rhagori'n sylweddol yn awr ar y rheini yn sgil achosion a fewnforiwyd felly nid yw'n gymesur mwyach i gynnal mesurau'r cyfyngiadau.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru yn weithredol.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi rhesymeg debyg i'r hyn a nodwyd uchod, mewn perthynas ag ymgynghori:

Ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru yn weithredol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

14 Ebrill 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 10

Legislation, Justice and Constitution Committee

SL(6)183 – Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau a roddir gan adrannau 1(1) a (2)(f), 2(1), a 3(1), (2)(c) a (3)(a) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf, sy'n dilyn y dyfarniad yn achos *Sargeant ac eraill v Comisiynydd Tân Llundain ac eraill*, yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oed o'r prif gynlluniau pensiwn gwasanaethu cyhoeddus a ddigwyddodd wrth gyflwyno cynlluniau pensiwn 2015 ledled y DU. Mae'n cau'r cynlluniau etifeddiaeth i groniad pellach o 1 Ebrill 2022.

Mae'r Rheoliadau yn darparu trefniadau i drosglwyddo pob "aelod gwarchodedig" gweithredol o'r cynlluniau etifeddiaeth - y cynllun a sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân 1992 ("Cynllun 1992") a'r cynllun a sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 - i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun 2015"), a lywodraethir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 o 1 Ebrill 2022.

Maent hefyd yn darparu "sylfaen" afiechyd drwy wneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodau o Gynllun 1992 sy'n trosglwyddo i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2022, pan oedd awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi penderfynu cyn trosglwyddo i gael barn ysgrifenedig ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol mewn perthynas â dyfarniad afiechyd posibl. Os penderfynir wedyn bod dyfarniad afiechyd yn daladwy, yna gwneir darpariaeth i'r dyfarniad fod o leiaf yn gyfartal â'r hyn y byddai'r aelod wedi'i gael pe bai'r penderfyniad ar eu dyfarniad afiechyd wedi'i wneud o dan Gynllun 1992 ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r Rheoliadau yn amodol ar gydsyniad y Trysorlys yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf 2013. Mae'r broses ar gyfer rhoi cydsyniad yn fater i'r Trysorlys. Yn yr achos hwn, fe'i ddynodwyd gan ddau o Arglwyddi Gomisiynwyr y Trysorlys yn llofnodi'r Rheoliadau.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.



Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 22 Mawrth 2022.

Yn benodol, nodwn y canlynol:

"Mae'r Rheoliadau yn angenrheidiol i gyd-fynd â gofynion y Ddeddf, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ar 10 Mawrth. Daeth y darpariaethau perthnasol i rym ar unwaith. Gan nad yw'n bosibl gwneud y Rheoliadau tan ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol, nid yw'n bosibl felly caniatáu ar gyfer y cyfnod confensiynol o 21 diwrnod cyn y bydd angen iddynt ddod i rym ar 30 Mawrth.

Pe na bai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud a'u dwyn i rym erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, byddai tua 200 o ddiffoddwyr tân yr effeithir arnynt na fyddent yn aelodau o unrhyw gynllun pensiwn o 1 Ebrill. Y ffaith bod y Ddeddf yn cau eu cynlluniau pensiwn presennol yw'r rheswm am hyn. Mae'r Rheoliadau yn hanfodol felly i drosglwyddo'r sawl yr effeithir arnynt i Gynllun 2015."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Er ei bod yn amlwg o'r rhagymadrodd i'r Rheoliadau a rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth a nodir yn adran 21(1) o Ddeddf 2013, nid yw'n glir a ydynt wedi cyhoeddi datganiad, a'i gadw'n gyfredol, yn unol ag adran 21(2), sy'n gwneud y canlynol yn ofynnol:

"(2) The responsible authority must publish a statement indicating the persons that the authority would normally expect to consult under subsection (1) (and keep the statement up-to-date)."

Ni fu'n bosibl, yn dilyn ymchwiliad rhesymol, i ddod o hyd i ddatganiad o'r fath. Er ein bod yn nodi nad yw unrhyw fethiant i gydymffurfio ag adran 21(2) yn annylsu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd i gyflawni'r rhwymedigaeth o dan adran 21(1), os nad oes datganiad o'r fath



wedi'i gyhoeddi mewn gwirionedd, mae'n briodol bod datganiad cydymffurfiol yn cael ei lunio a'i wneud yn hygyrch i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi'r effaith andwyol bosibl ar ddiffoddwyr tân benywaidd ac anabl fel y nodir yn y ddau faes penodol a amlygir yn rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Nodwn ymhellach na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau yn unol â rheoliad 8(1) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, i'r perwyl hwn ac yn gyffredinol.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi bod rhan 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, mewn perthynas â'r penderfyniad i beidio â chynnal asesiad effaith rheoleiddiol, bod y penderfyniad, "...yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth". Fodd bynnag, nid yw'n glir, o'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodyn Esboniadol, pa eithriad y dibynnir arno o dan baragraff 3.2 o god asesiadau effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Mae holl ymgynghoriadau ffurfiol Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar y rheoliadau hyn a rheoliadau pob cynllun arall, ar gael yn gyhoeddus ac nid ydynt yn gyfyngedig i sefydliadau penodol. Gall unrhyw sefydliad neu unigolyn eu darllen ac ymateb iddynt yn ôl eu dewis; ein nod penodol yw drafftio dogfennau ymgynghori mewn ffyrdd sy'n hygyrch i aelodau cynlluniau unigol yn ogystal â'u cyflogwyr a chyrrff cynrychioliadol.

Yn ymarferol, y personau sydd fwyaf tebygol o ymateb i ymgynghoriadau ar faterion sy'n ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân yw aelodau'r corff statudol Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae'r Bwrdd hefyd yn fforwm ar gyfer cyd-drafod manwl o ran materion sy'n ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân, gan gynnwys y rheoliadau hyn, y tynnwyd sylw'r Bwrdd atynt yn benodol, ac a drafodwyd ganddo ar sawl achlysur. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys holl gyflogwyr a chyrrff cynrychioliadol cydnabyddedig diffoddwyr tân yng Nghymru, sef:

- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub



- Undeb y Brigadau Tân
- Cymdeithas yr Arweinwyr Tân
- Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân

Cyhoeddir datganiad yn unol ag adran 21(2) yn fuan.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y rheoliadau drafft a'r polisi cyffredinol fel y'i nodwyd yn yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 25 Hydref, a chyfeiriwyd at hyn yn yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd ynghyd â'r ymgynghoriad. Nid oedd y safbwynt polisi cyffredinol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori wedi newid ar ôl ystyried y materion a godwyd yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, ac felly dyna oedd sail y Rheoliadau terfynol. Felly ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Asesiad Effaith Integredig fel y'i cyhoeddwyd yn wreiddiol. Mae'r Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad yn nodi rhagor o fanylion ynghylch yr ystyriaeth a roddwyd i'r materion cydraddoldeb a godwyd, a'r rhesymau dros beidio â newid y safbwynt polisi gwreiddiol.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:

Roedd y penderfyniad i beidio â chynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig yn bennaf ar y ffaith fod y ddeddfwriaeth yn gosod fawr ddim costau, arbedion, manteision nac anfanteision ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, elusennau a'r sector gwirfoddol neu'r gymdeithas yn gyffredinol. Yn benodol o ran cod asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth, gan fod y rheoliadau yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniadol ar Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022, mae'r esemptiad a ganlyn yn gymwys i'r rheoliadau:

"Pan fo'r is-ddeddfwriaeth yn Orchymyn Cychwyn neu Reoliadau Cychwyn neu Reoliadau sydd hefyd yn gwneud darpariaeth ganlyniadol neu arbedion (ar yr amod nad yw'r arbedion yn cael eu gwneud drwy osod cost ychwanegol ar barti arall), etc."

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4 Ebrill 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 14

Legislation, Justice and Constitution Committee

SL(6)188 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2022

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru godi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir i ymwelwyr tramor nad ydynt yn preswyl fel arfer yn y Deyrnas Unedig, oni bai bod yr ymwelydd tramor, neu'r gwasanaeth y mae'n ei gael, yn destun esemptiad rhag ffioedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau i ddarparu esemptiadau rhag codi ffioedd mewn perthynas ag ymwelwyr tramor sy'n bresennol yn gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig ond sy'n preswyl fel arfer yn Wcráin, yn ogystal ag esemptiadau ar gyfer aelodau o'u teulu, cymdeithion awdurdodedig a phlant awdurdodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, o ran ffioedd yr aed iddynt rhwng 24 Chwefror 2022 (y dyddiad y dechreuodd ymosodiad llawn Rwsia ar Wcráin) a'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, mewn cysylltiad â'r ymwelwyr tramor hynny:

- os nad ydynt wedi eu codi eto, na chaniateir eu codi,
- os ydynt wedi eu codi, na chaniateir eu hadennill, neu
- os ydynt wedi eu talu, fod rhaid eu had-dalu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn destun adolygiad gan Weinidogion Cymru cyn 1 Hydref 2022.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn [llythyr at y Llywydd, dyddiedig 30 Mawrth 2022](#).

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

"Cafodd Rheoliadau 2022 eu gwneud a'u gosod cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar ôl i ddrafft terfynol yr OS ar gyfer diwygio Rheoliadau Codi Tâl Lloegr gael ei rannu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng nghanol mis Mawrth. Mae Rheoliadau 2022 Cymru wedi'u gwneud yn ddibynnol ar reoliadau Lloegr fel bod yr un eithriadau yn berthnasol yng Nghymru ac o ganlyniad i natur frys y sefyllfa, mae'n ofynnol i Reoliadau Cymru ddod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl eu gwneud.

Os cedwir at y confensiwn 21 diwrnod, mae risg y bydd ffoaduriaid o Wcráin sy'n dod i Gymru yn gorfod talu ffioedd y GIG am driniaeth, ond y bydd y sefyllfa yn Lloegr yn fwy ffafriol gan y bydd eithriad cyfreithiol ar waith yno eisoes. Bydd hyn yn arwain at sefyllfa o anghydraddoldeb annerbyniol rhwng ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru a'r rheini dros y ffin yn Lloegr ar adeg o argyfwng dyngarol."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Ebrill 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 16

Legislation, Justice and Constitution Committee



Ein cyf/Our ref MA/EM/1301/22

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

30 Mawrth 2022

Annwyl Lywydd,

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2022

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 31 Mawrth 2022, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau yn gosod y fframwaith ar gyfer codi tâl ar bobl nad ydynt yn breswlydd fel arfer yn y DU am driniaeth frys a thriniaeth nad yw'n frys yn yr ysbyty yng Nghymru.

Mae Rheoliadau 2022 yn darparu eithriad newydd o orfod talu ffioedd gofal iechyd eilaidd y GIG ar gyfer preswylwyr o Wcráin a'u teuluoedd sydd yn y DU yn gyfreithlon ac sydd wedi dod i Gymru o 24 Chwefror 2022 ar ôl dechrau'r gwrthdaro yn Wcráin.

Cafodd Rheoliadau 2022 eu gwneud a'u gosod cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar ôl i ddrafft terfynol yr OS ar gyfer diwygio Rheoliadau Codi Tâl Lloegr gael ei rannu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng nghanol mis Mawrth. Mae Rheoliadau 2022 Cymru wedi'u gwneud yn ddibynnol ar reoliadau Lloegr fel bod yr un eithriadau yn berthnasol yng Nghymru ac o ganlyniad i natur frys y sefyllfa, mae'n ofynnol i Reoliadau Cymru ddod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl eu gwneud.

Os cedwir at y confensiwn 21 diwrnod, mae risg y bydd ffoaduriaid o Wcráin sy'n dod i Gymru yn gorfod talu ffioedd y GIG am driniaeth, ond y bydd y sefyllfa yn Lloegr yn fwy ffafriol gan y bydd eithriad cyfreithiol ar waith yno eisoes. Bydd hyn yn arwain at sefyllfa o anghydraddoldeb annerbyniol rhwng ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru a'r rheini dros y ffin yn Lloegr ar adeg o argyfwng dyngarol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted ag sy'n ymarferol, oherwydd y rhesymau dyngarol eithriadol dan sylw. Felly, mae peidio â chadw at y rheol 21 diwrnod yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn. Bydd y Rheoliadau yn cael eu hadolygu chwe mis ar ôl y dyddiad dod i rym i asesu a oes angen yr eithriadau o hyd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

SL(6)195 – Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir i ganiatáu i brawf titr gwrthgorff arall gael ei ddefnyddio ar anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sail resymegol dros ei pholisi:

"Bydd caniatáu defnyddio prawf ychwanegol yn cyflymu'n sylweddol y broses o brofi am y gynddaredd mewn anifeiliaid anwes sy'n dod i mewn i Gymru, ar adeg pan fydd y system yn ymdrin ag ôl-groniad sylweddol oherwydd bod pobl sy'n dianc o'r Wcráin yn dod â'u hanifeiliaid anwes i mewn. Bydd hyn yn lleihau'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantín ac yn galluogi pobl i gael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth hefyd ddiogelu bioddiogelwch Prydain Fawr."

Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 1 Ionawr 2022.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi (i) ei diddymu, neu (ii) yn ystod toriad o dros bedwar diwrnod) ar ôl y dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym) wedi'i thorri, a nodwn yr esboniad am dorri'r confensiwn a gynigiodd Lesley



Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, mewn [llythyr at y Llywydd, dyddiedig 8 Ebrill 2022](#).

Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y llythyr:

"Mae wedi dod yn angenrheidiol peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod oherwydd y niferoedd uchel o anifeiliaid sy'n cyrraedd mewn cyfnod byr, a fydd yn fuan yn fwy na'r nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael mewn mannau cwarantin.

Bydd defnyddio'r prawf cyflymach yn lleihau'r cyfnod mae angen i anifeiliaid anwes aros mewn cwarantin, a'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantin, gan alluogi ffoaduriaid i ddod i mewn i Gymru yn gyflymach, a chael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth warchod bioddiogelwch Cymru ar yr un pryd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ymhelaethu ar y manylion technegol

Yn ogystal, bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau cysondeb â newidiadau cyfatebol, a fydd hefyd yn cael eu gwneud ar frys yn Lloegr ac yn yr Alban."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae Rheoliad 1(2) yn y Rheoliadau hyn yn darparu y byddant yn dod i ben ar 1 Hydref 2022. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio hyn. Mae'r Nodyn Esboniadol, fodd bynnag, yn nodi y daw'r Rheoliadau i ben ar 7 Hydref 2022.

Er y derbynnir nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau, mae'n bosibl y gall hyn greu dryswch ynghylch y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i ben.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Ebrill 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 20

Legislation, Justice and Constitution Committee



Ein cyf/ Our ref MA/LG/1350/22

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Ebrill 2022

Annwyl Lywydd,

Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu bod yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 9 Ebrill, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Diben y Rheoliadau yw gwneud diwygiadau i'r Cynllun Symud Anifeiliaid Anwes, sydd wedi'i gynnwys yn Rheoliad (UE) 576/2013 a ddargedwir i ganiatáu defnyddio prawf gwaed gwrthgyrff amgen i brofi am y gynddaredd mewn anifeiliaid anwes sy'n dod gyda ffoaduriaid o Wcráin. Mae'r prawf amgen hwn yn cymryd llai o amser o lawer na'r un a ragnodir ar hyn o bryd. Bydd y prawf amgen hwn yn galluogi awdurdodau i wneud penderfyniadau ynghylch rheoli risg yn gyflymach o lawer, megis rhyddhau'r anifeiliaid anwes hynny o gwarantîn.

Mae wedi dod yn angenrheidiol peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod oherwydd y niferoedd uchel o anifeiliaid sy'n cyrraedd mewn cyfnod byr, a fydd yn fuan yn fwy na'r nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael mewn mannau cwarantîn.

Bydd defnyddio'r prawf cyflymach yn lleihau'r cyfnod mae angen i anifeiliaid anwes aros mewn cwarantîn, a'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantîn, gan alluogi ffoaduriaid i ddod i mewn i Gymru yn gyflymach, a chael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth warchod biddiogelwch Cymru ar yr un pryd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ymhelaethu ar y manylion technegol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau cysondeb â newidiadau cyfatebol, a fydd hefyd yn cael eu gwneud ar frys yn Lloegr ac yn yr Alban.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

SL(6)194 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) 2022

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”) yn darparu i ddosbarthau penodol o bersonau o dramor fod yn gymwys neu’n anghymwys i gael dyraniad o lety tai a/neu am gymorth tai.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2014 i ymestyn cymhwysra ar gyfer dyraniadau tai a chymorth tai a ddarperir gan awdurdodau lleol i bersonau yr effeithir arnynt gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin ac sy’n dod o fewn tri llwybr mewnfudo newydd:

- (i) *Cynllun Teuluoedd Wcráin*, a fydd yn caniatáu i aelodau teulu agos ac estynedig dinasyddion Prydain, personau sydd wedi sefydlu yn y DU ac eraill ddod o Wcráin i’r DU neu aros yn y DU.
- (ii) *Cynllun Nawdd Cartrefi dros Wcráin*, a fydd yn caniatáu i wladolion Wcráin a’u teulu agos ddod i’r DU gyda noddwr cymeradwy sydd wedi cytuno i ddarparu llety.
- (iii) *Cynllun Estyniad Wcráin*, a fydd yn caniatáu i wladolion Wcráin sydd, gyda chaniatâd ar 18 Mawrth 2022, â’u partner a’u plant yn y DU (gan gynnwys y rhai sydd wedi aros yn rhy hir am gyfnod byr) i aros yn y DU.

Cyfeirir at y tri llwybr mewnfudo newydd gyda’i gilydd fel “Cynlluniau Wcráin” ac fe’u nodir yn yr Atodiad Cynllun Wcráin yn y Rheolau Mewnfudo¹.

Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o’r Rheoliadau gerbron Senedd Cymru. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo’r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

¹ Gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 23 Mai 1994 (Tŷ’r Cyffredin 395), fel y’i diwygiwyd. Cafodd Atodiad Cynllun Wcráin ei gyflwyno gan y datganiad o newidiadau yn y Rheolau Mewnfudo: Tŷ’r Cyffredin 1220, a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 29 Mawrth 2022.



Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae Rheol Sefydlog 15.4 yn darparu:

"Rhaid i unrhyw ddogfen a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir gan y Llywydd, y Comisiwn, y llywodraeth, unrhyw bwyllgor neu'r Clerc gael ei gosod neu ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol."

Nodwn nad yw'r Memorandwm Esboniadol ar gael yn Gymraeg. A all Llywodraeth Cymru egluro'r rheswm dros hyn?

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

"Due to the speed at which the Ukraine Schemes have been established there has not been time to consult on this aspect of the Regulations. However, as the Ukraine Schemes are a product of reserved UK Government policy (immigration), it would not be possible to undertake a meaningful consultation on alternative approaches, as the effect of the 2022 Regulations is to ensure consistency between Welsh housing law and immigration law."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynyddu nifer y Memoranda Esboniadol a'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Offerynnau Statudol a osodir yn ddwyieithog gerbron y Senedd.

Mae Rheol Sefydlog 15.4 o'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob dogfen gael ei gosod yn ddwyieithog cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, ac mae Safon 47 o Safonau'r Gymraeg (y dyletswyddau statudol a osodir ar Lywodraeth Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg) yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried y pwnc a'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer dogfennau penodol wrth flaenoriaethu eu cyfieithu. O dan ganllawiau a ddarparwyd gan swyddfa'r Comisiynydd (yn ei Chod Ymarfer ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015), wrth flaenoriaethu'r dogfennau hyn i'w cyfieithu ar yr adeg hon fe wnaethom ystyried materion megis a oedd y Rheoliadau yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg yn uniongyrchol, a oedd y Rheoliadau o ddiddordeb mawr i grwpiau o siaradwyr Cymraeg yn benodol, ac a fyddai cyfran uchel o'r gynulleidfa ar gyfer y dogfennau yn siarad



Cymraeg. Gan fod y Rheoliadau hyn yn gymwys yn bennaf i bobl o Wcráin, ac nad ydynt yn ymwneud â'r Gymraeg a'u bod yn annhebyg o effeithio ar siaradwyr Cymraeg, nid ystyriwyd eu bod yn flaenoriaeth i'w cyfieithu ar yr adeg hon.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

13 Ebrill 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 25

Legislation, Justice and Constitution Committee

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

8 Ebrill 2022

Annwyl Huw

Rydych yn ymwybodol rwy'n siŵr bod pobl yn dod i mewn i'r Deyrnas Unedig o Wcráin ar hyn o bryd yn dilyn ymosodiad Rwsia ar 24 Chwefror. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi diwygio ei Rheolau Mewnfudo yn ddiweddar i ffurfioli mynediad at arian cyhoeddus i'r bobl hynny sydd wedi'u heffeithio gan y rhyfel. Mae hyn yn cynnwys cymorth tai a digartrefedd. Cyn hynny, roedd pŵer disgrisiwn gan y Swyddfa Gartref i roi caniatâd i aros y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo wedi caniatáu i Wcráiniad gael mynediad at arian cyhoeddus. Er hynny, ar hyn o bryd nid yw'r Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) 2014 yn rhoi unrhyw esemptiad i wladolion Prydain na'r rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i reolau mewnfudo, o'r prawf preswyllo fel arfer os ydynt hefyd yn dymuno cael mynediad at arian cyhoeddus. Gallai'r broses hon gymryd hyd at dri mis i'w chwblhau.

Mae'r Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) 2022 wedi eu drafftio at y diben o wneud pobl sydd wedi eu heffeithio gan y rhyfel yn Wcráin yn gymwys i gael mynediad at wasanaethau tai a digartrefedd yng Nghymru gan anwybyddu'r prawf preswyllo fel arfer, gan gynnwys i wladolion Prydain neu'r rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i reolau mewnfudo. Oherwydd bod angen ymdrin â'r sefyllfa ar frys, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor roi ystyriaeth gynnar i Reoliadau 2022 ac adrodd arnynt erbyn y ddadl yn y cyfarfod llawn ar 26 Ebrill 2022.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor ymlaen llaw am eu cymorth yn cefnogi trefniadau a fydd yn caniatáu i bobl sy'n dianc rhag y gyflafan yn Wcráin gael cyfle i geisio noddfa yng Nghymru ac ymgartrefu yma.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 26
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Gosod drafft o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd
(Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) 2022

DYDDIAD 8 Ebrill 2022

GAN Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin ar 24 Chwefror, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi diwygio ei Rheolau Mewnfudo er mwyn darparu hawliau ychwanegol i gael arian cyhoeddus, sy'n cynnwys mynediad at dai a chymorth ar gyfer digartrefedd, i bobl a ddaw i'r Deyrnas Unedig i ddianc rhag y gyflafan. Mae'r gwelliannau hynny hefyd yn berthnasol i bobl sydd yn y DU ar hyn o bryd nad ydynt yn gymwys neu y bydd eu caniatad yn cwblhau cyn i'r gyflafan dod i ben. I sicrhau bod y gyfraith tai yng Nghymru yn cyd-fynd â'r Rheolau Mewnfudo, er mwyn gallu gwneud y grŵp o bobl hynny yn gymwys ar gyfer tai cymdeithasol a chymorth digartrefedd, mae'n fwriad gennyf i osod drafft o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("y Rheoliadau drafft 2022") gerbron y Senedd. Bydd y rhai sy'n gymwys, gan gynnwys gwladolion Prydain neu'r rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i reolau mewnfudo, wedi'u heithrio o'r prawf preswyllo fel arfer.

Gan fod pobl eisoes yn cyrraedd Cymru o'r Wcráin, rhaid gwneud y newidiadau hyn cyn gynted â phosibl. O ganlyniad, caiff Rheoliadau drafft 2022 eu gosod ar 8 Ebrill i'w hystyried gan y Senedd ar 26 Ebrill. Sylweddolaf fod y broses garlam hon ar gyfer ystyried Rheoliadau drafft 2022 yn anarferol, ond rwyf wedi cymryd y cam hwn oherwydd yr angen ymdrin â'r sefyllfa ar frys a'r ansicrwydd posibl o ran sut i drin pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru.

Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i geisio'u cymorth ar gyfer ystyried y Rheoliadau ar frys, fel y gall Aelodau'r Senedd weld adroddiad y Pwyllgor cyn y ddadl ar 26 Ebrill 2022.

Eitem 3.6

SL(6)196 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

- yn darparu bod y prif Reoliadau yn dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 9 Mai 2022 (yn hytrach na 18 Ebrill 2022);
- yn hepgor Rhan 4 o'r prif Reoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd rheoleiddiedig gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre (ond mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar leihau'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws yn parhau i fod yn berthnasol).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a nodir uchod.

Fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, mae'r prif Reoliadau yn parhau i ddarparu nad oes unrhyw lefel rhybudd yn gymwys i Gymru. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlenni 1 i 4 i'r prif Reoliadau yn gymwys.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd



Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Er bod y prif Reoliadau, fel y’u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae’r Llywodraeth o’r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd o’r farn eu bod yn gymesur.

Mae’r prif Reoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu’n rhydd ag eraill) ac Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo), neu maent o bryd i’w gilydd wedi cyffwrdd â’r erthyglau hyn.

Mae pob un o’r rhain yn hawliau amodol, sy’n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau’r holl gyfyngiadau a gofynion ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur â’r nod hwnnw. Rhaid hefyd cydbwysu unrhyw ymyrraeth â’r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae estyn gofynion penodol o dan y prif Reoliadau drwy’r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae’n cydbwysu’r angen i gynnal ymateb priodol i’r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy’n parhau’n gymesur â’r angen i reoli cyfradd trosglwyddiadau’r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

Oherwydd y bygythiad parhaus sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd cymesur a phrydlon, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

21 Ebrill 2022





Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

13 Ebrill 2022

Annwyl Elin,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2022

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau i rym ar 18 Ebrill. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 22 Mai 2022 er mwyn iddo barhau i fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad. Gan fod y prif Rheoliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio i fod i ddod i ben erbyn 9 Mai, rwy'n bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r eitem hon o is-ddeddfwriaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ebrill 2022, sef y cyfle cynharaf sydd ar gael ar ôl Toriad y Pasg. Felly, yn anffodus, ychydig iawn o amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu gan bwyllgor.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 30
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein cyf/Our ref MA/JJ/4354/21

Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Mawrth 2022

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 28 Chwefror 2022 ynglŷn ag offerynnau statudol a wnaed o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Byddaf yn ymdrin â'r pwyntiau o sylwedd a godwyd yn eich llythyr yn eu trefn:

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

Mae eich llythyr yn mynegi pryder bod fy ymateb i sylw'r Pwyllgor bod diffyg amserlen y byddai'n rhaid i landlordiaid gadw ati wrth ymateb i sylwadau gan ddeiliaid contract ynghylch rhestrau eiddo yn gadael 'cryn dipyn o ansicrwydd'.

Fel y nodwyd yn fy ymateb, nid ydym yn ystyried y bydd hyn yn broblem yn ymarferol. Fodd bynnag, efallai y dylwn fod wedi egluro'n well yn fy ymateb gwreiddiol i bwynt adrodd y Pwyllgor nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol deddfu yn hyn o beth gan fod yr hyfforddiant o ran Rhentu Doeth Cymru y mae'n rhaid i bob landlord ei gyflawni er mwyn cael trwydded yn cael ei ddiweddarar ar hyn o bryd, er mwyn adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol newydd a fydd yn cael ei gyflwyno gan Ddeddf 2016. Mae'r hyfforddiant hwn eisoes yn cynnwys canllawiau ar ddarparu rhestrau eiddo, ac yn cynghori landlordiaid ei bod yn fanteisiol iddynt sicrhau y cytunir ar restrau eiddo gan mai'r landlord neu'r asiant fydd yn gyfrifol am brofi'r honiad os oes anghydfod dros gyflwr yr eiddo, yn gyffredinol. Wrth ddiweddarar'r canllawiau rydym wedi gofyn i Rentu Doeth Cymru gynnwys argymhelliad, fel arfer orau, sef pe derbynnir sylwadau gan ddeiliad y contract ynghylch y rhestr eiddo a ddarparwyd, y dylai'r landlord ymateb o fewn amserlen o 14 diwrnod (yr un amserlen ag a ddarperir i ddeiliad y contract i wneud sylw ar y rhestr eiddo yn y lle cyntaf).

Rydym yn hyderus y bydd ymgorffori'r amserlen hon yn hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru fel arfer orau yn ddigonol i sicrhau, pe bai anghydfod yn codi rhwng landlord a deiliad y contract, y byddai llys neu ddyfarnwr y cynllun blaendal yn gallu ystyried, wrth wneud penderfyniad, a gadwodd y landlord at yr argymhelliad hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

O safbwynt y mater o iawndal pan fo'r landlord yn hwyr yn darparu datganiad ysgrifenedig i ddeiliad y contract, nodir yn eich llythyr, mewn ymateb i fy ymrwymiad i fynd i'r afael â'r pwynt hwn y tro nesaf y bydd angen diwygio'r Rheoliadau, bod y Pwyllgor o'r farn fod hwn yn fater pwysig, ac yn pryderu na chafodd sylw hyd yma.

Ers cyflwyno fy ymateb i'r Pwyllgor ar y mater hwn, mae newidiadau wedi eu gwneud i wefan Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru er mwyn ei gwneud yn glir i ddeiliad contract, "am bob diwrnod ar ôl y dyddiad meddiannu nad yw'r datganiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu ar eu cyfer, gall y landlord fod yn atebol i dalu tâl digolledu i chi". Er fy mod yn bwriadu egluro'r pwynt hwn maes o law drwy ddiwygio'r Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022, rydw i'n fodlon bod yn rhaid dehongli'r Rheoliadau yn unol ag adran 35(6) o Ddeddf 2016 ac (yn ymarferol) fod y rhan fwyaf o landlordiaid, asiantau gosod tai a deiliaid contract, os nad pob un, yn debygol o ddibynnu ar yr wybodaeth sydd ar gael ar wefan Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru. Rydw i'n sicr, felly, mai effaith fach iawn, yn ymarferol, os o gwbl, a gaiff unrhyw ddiffyg eglurder yng nghynnwys y Rheoliadau yn y cyfamser.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

O ran diffyg lle yn y model i nodi hyd y contract, mae eich llythyr yn nodi 'Mae'r datganiad ysgrifenedig enghreifftiol yn ymdrin yn benodol â'r holl faterion allweddol heblaw hyd y contract. Rydym yn pryderu'n benodol nad ydych chi'n ymdrin â hyn fel mater o flaenoriaeth.'

Ers darparu fy ymateb i'r Pwyllgor ar y pwynt adrodd hwn, mae gwefan Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru wedi ei diweddarau er mwyn ei gwneud yn glir y dylid cofnodi diwedd y cyfnod penodedig. Gan y disgwylir i'r rhan fwyaf o landlordiaid a deiliaid contract, os nad pob un, fod â mynediad at wefan Llywodraeth Cymru, mae hynny yn lleihau yn sylweddol unrhyw ansicrwydd posib y gallai diffyg eglurder yn y Rheoliadau ei achosi. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu diwygio'r fersiwn sydd wedi ei nodi yn y Rheoliadau y tro nesaf y bydd angen diwygio'r Rheoliadau.

Oedi cyn rhoi'r rheoliadau ar waith

Yn ystod y ddadl yn y cyfarfod llawn ar gyfres gyntaf y Rheoliadau fe wnes i gadarnhau y byddwn yn cefnogi adolygiad ôl-weithredol o Ddeddf 2016. Rwy'n cydnabod y bu oedi o ran gweithredu'r rheoliadau, ond gwn y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig bod ein cyfraith yn dda, ac mae'r gwaith o ddrafftio'r Rheoliadau gweithredu wedi bod yn waith trwm a chymhleth.

Rydym yn awyddus i ddysgu gwersi a pharhau i adolygu'r rhaglen ddeddfwriaethol. Yn y cyfamser, gallaf sicrhau'r Pwyllgor mai parhau i roi'r elfennau sy'n weddill o'r Ddeddf ar waith yn llawn yw'r flaenoriaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

28 Chwefror 2022

Annwyl Julie

Offerynnau statudol a wnaed o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Yn ein cyfarfod ar 31 Ionawr 2022, trafodwyd chwe set o reoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o dan *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* (Deddf 2016) (eitemau 3.1, 4.1-4.4 a 4.6). Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a gawsom gan y Llywodraeth yn y cyswllt hwn, ac a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror (eitemau 5.1-5.5).

Rydym am wneud y sylwadau a ganlyn, o ystyried (ymhlith pethau eraill) y ddau nod isod a nodir yn Neddf 2016:

- creu fframwaith cyfreithiol cliriach a mwy rhesymegol, sy'n deg a chydadd;
- gwella dealltwriaeth landlordiaid a thenantiaid o'u hawliau a'u cyfrifoldebau eu hunain.¹

Wrth wneud hyn, rydym yn cydnabod nad ni yw'r Pwyllgor Seneddol sy'n gyfrifol am drafod polisi tai Llywodraeth Cymru.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

Nododd y Pwyllgor nad oedd y Rheoliadau hyn yn pennu amserlen y byddai'n rhaid i landlordiaid gadw ati wrth ymateb i sylwadau gan ddeiliaid contract ynghylch rhestrau eiddo. Mae'ch ymateb yn amddiffyn y polisi hwnnw drwy gyfeirio at bethau sy'n "debygol" o ddigwydd, pethau sy'n "annhebygol" o ddigwydd a phethau a "allai" ddigwydd. Ymddengys y gallai hyn arwain at gryn dipyn o ansicrwydd yn ein barn ni, ac mae'n anodd gweld sut y mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion Deddf 2016.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

Nododd y Pwyllgor nad oes digon o eglurder ynghylch y rhwymedigaeth ar y landlord i dalu iawndal os yw'n hwyr yn darparu datganiad ysgrifenedig i ddeiliad y contract. Rydych chi'n derbyn y gallai'r sefyllfa fod yn

¹ Mae'r nodau hyn, a nodau eraill, i'w gweld ym mharagraff 8 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Deddf 2016.

gliriach ond na fyddwch yn ymdrin â'r diffyg eglurder tan y tro nesaf y bydd angen diwygio'r Rheoliadau. Nid yw'n bosibl gwybod pryd fydd hynny. O gofio ein bod yn credu bod y diffyg eglurder yn fater pwysig, rydym yn pryderu nad ydych am roi sylw iddo. Unwaith eto, cyfeiriwn at nodau Deddf 2016.

Nodwyd hefyd y diffyg eglurder ynghylch y sail ddeddfwriaethol i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid gydymffurfio â chyfyngiadau penodol er mwyn cyflwyno hysbysiad o dan adran 173 o Ddeddf 2016. Roedd yn ddefnyddiol cael gwybod gennych y bydd diwygiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i *Ddeddf Tai 2004* a *Deddf Tai (Cymru) 2014*. Fodd bynnag, pa baech chi wedi cyfeirio at y diwygiadau arfaethedig hyn yn wreiddiol (er enghraifft, yn y Memorandwm Esboniadol), byddai wedi bod yn ddefnyddiol iawn inni yn ystod ein gwaith craffu.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

Nodwyd nad yw'r datganiad ysgrifenedig enghreifftiol ar gyfer contract meddiannaeth safonol cyfnod penodol am gyfnod o lai na saith mlynedd yn cynnwys lle i nodi hyd y contract. Yn eich ymateb, rydych yn dweud y gellid cynnwys hyd y contract mewn nifer o leoedd, ond rydych yn derbyn y gallai hynny fod yn gliriach.

Rydym yn eich atgoffa bod y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn dweud:

“Diben y Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol yw annog cysondeb yn y ffordd y caiff datganiadau ysgrifenedig eu drafftio, ac i ddarparu cymorth dibynadwy i greu datganiadau ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Deddf 2016.”

Byddwch hefyd yn ymwybodol o adran 32(2) o Ddeddf 2016, sy'n dweud bod yn rhaid i ddatganiadau ysgrifenedig gynnwys hyd y contract sy'n ymdrin â'r materion allweddol. Dim ond un o lond llaw o faterion allweddol yw hyd y contract. Mae'r datganiad ysgrifenedig enghreifftiol yn ymdrin yn benodol â'r holl faterion allweddol heblaw hyd y contract. Rydym yn pryderu'n benodol nad ydych chi'n ymdrin â hyn fel mater o flaenoriaeth.

Oedi cyn rhoi'r rheoliadau ar waith

Yn fwy cyffredinol, rydym yn pryderu am y ffaith ei bod wedi cymryd dros bum mlynedd ar ôl i Ddeddf 2016 gael Cydsyniad Brenhinol i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud er mwyn rhoi polisi manwl ar rentu cartrefi ar waith.

Os bydd cyfleoedd priodol yn codi yn yr amserlen, credwn y byddai'n fuddiol i Ddeddf 2016 fod yn destun craffu ar ôl y broses ddeddfu er mwyn dysgu nid yn unig am y rhesymau dros yr oedi cyn rhoi'r rheoliadau ar waith ond hefyd i ddeall effaith ymarferol yr oedi a, chan eu bod wedi'u gwneud yn awr, eu heffaith o ran sicrhau newidiadau er gwell.

Yr wyf, felly, yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, nid yn unig i dynnu ei sylw at ganlyniad ein gwaith o graffu ar y rheoliadau, ond hefyd yng ngoleuni ein sylwadau am graffu ar ôl y broses ddeddfu.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law i'r pwyntiau rydym wedi'u codi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Huw Irranca-Davies". The signature is written in a cursive style and is underlined with a single horizontal stroke.

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Ein cyf/Our ref MA/JJ/4354/21

Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Mawrth 2022

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 28 Chwefror 2022 ynglŷn ag offerynnau statudol a wnaed o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Byddaf yn ymdrin â'r pwyntiau o sylwedd a godwyd yn eich llythyr yn eu trefn:

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

Mae eich llythyr yn mynegi pryder bod fy ymateb i sylw'r Pwyllgor bod diffyg amserlen y byddai'n rhaid i landlordiaid gadw ati wrth ymateb i sylwadau gan ddeiliaid contract ynghylch rhestrau eiddo yn gadael 'cryn dipyn o ansicrwydd'.

Fel y nodwyd yn fy ymateb, nid ydym yn ystyried y bydd hyn yn broblem yn ymarferol. Fodd bynnag, efallai y dylwn fod wedi egluro'n well yn fy ymateb gwreiddiol i bwynt adrodd y Pwyllgor nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol deddfu yn hyn o beth gan fod yr hyfforddiant o ran Rhentu Doeth Cymru y mae'n rhaid i bob landlord ei gyflawni er mwyn cael trwydded yn cael ei ddiweddarar ar hyn o bryd, er mwyn adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol newydd a fydd yn cael ei gyflwyno gan Ddeddf 2016. Mae'r hyfforddiant hwn eisoes yn cynnwys canllawiau ar ddarparu rhestrau eiddo, ac yn cynghori landlordiaid ei bod yn fanteisiol iddynt sicrhau y cytunir ar restrau eiddo gan mai'r landlord neu'r asiant fydd yn gyfrifol am brofi'r honiad os oes anghydfod dros gyflwr yr eiddo, yn gyffredinol. Wrth ddiweddarar'r canllawiau rydym wedi gofyn i Rentu Doeth Cymru gynnwys argymhelliad, fel arfer orau, sef pe derbynnir sylwadau gan ddeiliad y contract ynghylch y rhestr eiddo a ddarparwyd, y dylai'r landlord ymateb o fewn amserlen o 14 diwrnod (yr un amserlen ag a ddarperir i ddeiliad y contract i wneud sylw ar y rhestr eiddo yn y lle cyntaf).

Rydym yn hyderus y bydd ymgorffori'r amserlen hon yn hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru fel arfer orau yn ddigonol i sicrhau, pe bai anghydfod yn codi rhwng landlord a deiliad y contract, y byddai llys neu ddyfarnwr y cynllun blaendal yn gallu ystyried, wrth wneud penderfyniad, a gadwodd y landlord at yr argymhelliad hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

O safbwynt y mater o iawndal pan fo'r landlord yn hwyr yn darparu datganiad ysgrifenedig i ddeiliad y contract, nodir yn eich llythyr, mewn ymateb i fy ymrwymiad i fynd i'r afael â'r pwynt hwn y tro nesaf y bydd angen diwygio'r Rheoliadau, bod y Pwyllgor o'r farn fod hwn yn fater pwysig, ac yn pryderu na chafodd sylw hyd yma.

Ers cyflwyno fy ymateb i'r Pwyllgor ar y mater hwn, mae newidiadau wedi eu gwneud i wefan Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru er mwyn ei gwneud yn glir i ddeiliad contract, "am bob diwrnod ar ôl y dyddiad meddiannu nad yw'r datganiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu ar eu cyfer, gall y landlord fod yn atebol i dalu tâl digolledu i chi". Er fy mod yn bwriadu egluro'r pwynt hwn maes o law drwy ddiwygio'r Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022, rydw i'n fodlon bod yn rhaid dehongli'r Rheoliadau yn unol ag adran 35(6) o Ddeddf 2016 ac (yn ymarferol) fod y rhan fwyaf o landlordiaid, asiantau gosod tai a deiliaid contract, os nad pob un, yn debygol o ddibynnu ar yr wybodaeth sydd ar gael ar wefan Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru. Rydw i'n sicr, felly, mai effaith fach iawn, yn ymarferol, os o gwbl, a gaiff unrhyw ddiffyg eglurder yng nghynnwys y Rheoliadau yn y cyfamser.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

O ran diffyg lle yn y model i nodi hyd y contract, mae eich llythyr yn nodi 'Mae'r datganiad ysgrifenedig enghreifftiol yn ymdrin yn benodol â'r holl faterion allweddol heblaw hyd y contract. Rydym yn pryderu'n benodol nad ydych chi'n ymdrin â hyn fel mater o flaenoriaeth.'

Ers darparu fy ymateb i'r Pwyllgor ar y pwynt adrodd hwn, mae gwefan Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru wedi ei diweddarau er mwyn ei gwneud yn glir y dylid cofnodi diwedd y cyfnod penodedig. Gan y disgwylir i'r rhan fwyaf o landlordiaid a deiliaid contract, os nad pob un, fod â mynediad at wefan Llywodraeth Cymru, mae hynny yn lleihau yn sylweddol unrhyw ansicrwydd posib y gallai diffyg eglurder yn y Rheoliadau ei achosi. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu diwygio'r fersiwn sydd wedi ei nodi yn y Rheoliadau y tro nesaf y bydd angen diwygio'r Rheoliadau.

Oedi cyn rhoi'r rheoliadau ar waith

Yn ystod y ddadl yn y cyfarfod llawn ar gyfres gyntaf y Rheoliadau fe wnes i gadarnhau y byddwn yn cefnogi adolygiad ôl-weithredol o Ddeddf 2016. Rwy'n cydnabod y bu oedi o ran gweithredu'r rheoliadau, ond gwn y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig bod ein cyfraith yn dda, ac mae'r gwaith o ddrafftio'r Rheoliadau gweithredu wedi bod yn waith trwm a chymhleth.

Rydym yn awyddus i ddysgu gwersi a pharhau i adolygu'r rhaglen ddeddfwriaethol. Yn y cyfamser, gallaf sicrhau'r Pwyllgor mai parhau i roi'r elfennau sy'n weddill o'r Ddeddf ar waith yn llawn yw'r flaenoriaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

28 Chwefror 2022

Annwyl Julie

Offerynnau statudol a wnaed o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Yn ein cyfarfod ar 31 Ionawr 2022, trafodwyd chwe set o reoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o dan *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* (Deddf 2016) (eitemau 3.1, 4.1-4.4 a 4.6). Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a gawsom gan y Llywodraeth yn y cyswllt hwn, ac a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror (eitemau 5.1-5.5).

Rydym am wneud y sylwadau a ganlyn, o ystyried (ymhlith pethau eraill) y ddau nod isod a nodir yn Neddf 2016:

- creu fframwaith cyfreithiol cliriach a mwy rhesymegol, sy'n deg a chydadd;
- gwella dealltwriaeth landlordiaid a thenantiaid o'u hawliau a'u cyfrifoldebau eu hunain.¹

Wrth wneud hyn, rydym yn cydnabod nad ni yw'r Pwyllgor Seneddol sy'n gyfrifol am drafod polisi tai Llywodraeth Cymru.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

Nododd y Pwyllgor nad oedd y Rheoliadau hyn yn pennu amserlen y byddai'n rhaid i landlordiaid gadw ati wrth ymateb i sylwadau gan ddeiliaid contract ynghylch rhestrau eiddo. Mae'ch ymateb yn amddiffyn y polisi hwnnw drwy gyfeirio at bethau sy'n "debygol" o ddigwydd, pethau sy'n "annhebygol" o ddigwydd a phethau a "allai" ddigwydd. Ymddengys y gallai hyn arwain at gryn dipyn o ansicrwydd yn ein barn ni, ac mae'n anodd gweld sut y mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion Deddf 2016.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

Nododd y Pwyllgor nad oes digon o eglurder ynghylch y rhwymedigaeth ar y landlord i dalu iawndal os yw'n hwyr yn darparu datganiad ysgrifenedig i ddeiliad y contract. Rydych chi'n derbyn y gallai'r sefyllfa fod yn

¹ Mae'r nodau hyn, a nodau eraill, i'w gweld ym mharagraff 8 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Deddf 2016.

gliriach ond na fyddwch yn ymdrin â'r diffyg eglurder tan y tro nesaf y bydd angen diwygio'r Rheoliadau. Nid yw'n bosibl gwybod pryd fydd hynny. O gofio ein bod yn credu bod y diffyg eglurder yn fater pwysig, rydym yn pryderu nad ydych am roi sylw iddo. Unwaith eto, cyfeiriwn at nodau Deddf 2016.

Nodwyd hefyd y diffyg eglurder ynghylch y sail ddeddfwriaethol i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid gydymffurfio â chyfyngiadau penodol er mwyn cyflwyno hysbysiad o dan adran 173 o Ddeddf 2016. Roedd yn ddefnyddiol cael gwybod gennych y bydd diwygiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i *Ddeddf Tai 2004* a *Deddf Tai (Cymru) 2014*. Fodd bynnag, pa baech chi wedi cyfeirio at y diwygiadau arfaethedig hyn yn wreiddiol (er enghraifft, yn y Memorandwm Esboniadol), byddai wedi bod yn ddefnyddiol iawn inni yn ystod ein gwaith craffu.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

Nodwyd nad yw'r datganiad ysgrifenedig enghreifftiol ar gyfer contract meddiannaeth safonol cyfnod penodol am gyfnod o lai na saith mlynedd yn cynnwys lle i nodi hyd y contract. Yn eich ymateb, rydych yn dweud y gellid cynnwys hyd y contract mewn nifer o leoedd, ond rydych yn derbyn y gallai hynny fod yn gliriach.

Rydym yn eich atgoffa bod y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn dweud:

“Diben y Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol yw annog cysondeb yn y ffordd y caiff datganiadau ysgrifenedig eu drafftio, ac i ddarparu cymorth dibynadwy i greu datganiadau ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Deddf 2016.”

Byddwch hefyd yn ymwybodol o adran 32(2) o Ddeddf 2016, sy'n dweud bod yn rhaid i ddatganiadau ysgrifenedig gynnwys hyd y contract sy'n ymdrin â'r materion allweddol. Dim ond un o lond llaw o faterion allweddol yw hyd y contract. Mae'r datganiad ysgrifenedig enghreifftiol yn ymdrin yn benodol â'r holl faterion allweddol heblaw hyd y contract. Rydym yn pryderu'n benodol nad ydych chi'n ymdrin â hyn fel mater o flaenoriaeth.

Oedi cyn rhoi'r rheoliadau ar waith

Yn fwy cyffredinol, rydym yn pryderu am y ffaith ei bod wedi cymryd dros bum mlynedd ar ôl i Ddeddf 2016 gael Cydsyniad Brenhinol i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud er mwyn rhoi polisi manwl ar rentu cartrefi ar waith.

Os bydd cyfleoedd priodol yn codi yn yr amserlen, credwn y byddai'n fuddiol i Ddeddf 2016 fod yn destun craffu ar ôl y broses ddeddfu er mwyn dysgu nid yn unig am y rhesymau dros yr oedi cyn rhoi'r rheoliadau ar waith ond hefyd i ddeall effaith ymarferol yr oedi a, chan eu bod wedi'u gwneud yn awr, eu heffaith o ran sicrhau newidiadau er gwell.

Yr wyf, felly, yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, nid yn unig i dynnu ei sylw at ganlyniad ein gwaith o graffu ar y rheoliadau, ond hefyd yng ngoleuni ein sylwadau am graffu ar ôl y broses ddeddfu.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law i'r pwyntiau rydym wedi'u codi.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies

Cadeirydd





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Fframweithiau Cyffredin - Crynodeb o'r Cynnydd Diweddaraf

DYDDIAD 30 Mawrth 2022

GAN Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Mae'r rhan fwyaf o Fframweithiau Cyffredin wedi bod yn weithredol ar sail dros dro ers diwedd 2020. Mae'r fframweithiau hyn wedi darparu sylfaen sy'n fwy cyfartal ar gyfer datblygu polisi ymhlith swyddogion ac maent wedi bod yn effeithiol. O'r 26 o fframweithiau sy'n berthnasol i Gymru, mae un fframwaith wedi bod drwy'r broses graffu lawn, wedi cael cymeradwyaeth Weinidogol ac wedi'i gyhoeddi'n derfynol. Mae 23 o fframweithiau yn weithredol ar sail dros dro. Mae'r ddau fframwaith sy'n weddill wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Cafodd y cynllun cyflawni ar gyfer y Fframweithiau Cyffredin ei seilio ar y disgwyliad y byddent yn cael eu cwblhau a'u rhoi ar waith cyn dechrau cyfnod cyn-etholiadol Cynulliad Gogledd Iwerddon ddiwedd mis Mawrth. Gan nad yw hyn yn ymarferol mwyach yn achos y rhan fwyaf o fframweithiau, bydd y gwaith craffu yn awr yn parhau y tu hwnt i fis Mawrth er mwyn sicrhau bod gan y deddfwrfeydd ddigon o amser i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r fframweithiau wedi'u cyhoeddi bellach er mwyn i'r deddfwrfeydd graffu arnynt. Y fersiynau presennol o'r fframweithiau sy'n weithredol dros dro tra bo'r gwaith craffu mynd rhagddo, a'r argymhellion yn cael eu hystyried, yw'r rhain. Bydd y pedair llywodraeth am ddeall barn pob deddfwrfa cyn penderfynu'n derfynol ar newidiadau i fframweithiau unigol a fydd yn deillio o unrhyw argymhellion.

Mewn perthynas â mater cysylltiedig, ar 10 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU broses, a ddatblygwyd gan bob un o'r pedair llywodraeth, ar gyfer ystyried a chytuno ar eithriadau o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU mewn meysydd y ceir Fframwaith Cyffredin mewn perthynas â hwy. Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Marchnad Fewnol y DU wedi newid ac mae ein her gyfreithiol yn parhau.

[Proses ar gyfer ystyried eithriadau i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU mewn meysydd Fframweithiau Cyffredin - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) (Saesneg yn Unig)

Ar wahân i'r mater hwnnw, ar 9 Rhagfyr, cyhoeddodd Neil O'Brien AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro, yr Undeb a'r Cyfansoddiad Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol i Senedd y DU ar ddefnyddio adran 12 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Roedd y datganiad hwn yn nodi, o ganlyniad i'r cynnydd a wnaed i sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn cydweithrediad â'r llywodraethau datganoledig, fod Llywodraeth y DU yn bwriadu diddymu adran 12 (y "pŵer rhewi") drwy ddefnyddio'r pŵer galluogi a nodir yn adran 12(9) o'r Ddeddf. Rydym yn croesawu'r diddymiad hwn a'r ffaith nad yw'r "pŵer rhewi" erioed wedi'i arfer.

[Deddf yr Undeb Ewropeaidd \(Ymadael\): Adroddiad y Fframweithiau Cyffredin - Hansard - Senedd y DU](#) (Saesneg yn Unig)

Yn olaf, cyhoeddwyd y trydydd adroddiad ar ddeg a'r pedwerydd adroddiad ar ddeg sy'n ymwneud â defnyddio adran 12 o'r Ddeddf – sy'n cwmpasu rhyngddynt y cyfnod o 26 Mehefin i 25 Rhagfyr 2021 – ar 11 Rhagfyr 2021 a 10 Mawrth 2022, yn y drefn honno.

[Deddf yr Undeb Ewropeaidd \(Ymadael\) a'r Fframweithiau Cyffredin: 26 Mehefin i 25 Medi 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) (Saesneg yn Unig)

[Deddf yr Undeb Ewropeaidd \(Ymadael\) a'r Fframweithiau Cyffredin: 26 Medi i 25 Rhagfyr 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) (Saesneg yn Unig)



HOUSE OF LORDS

Common Frameworks Scrutiny Committee

House of Lords
London

SW1A 0PW

Tel: 020 7219 8664

hlcommonframeworks@parliament.uk

6 April 2022

The Rt Hon George Eustice MP
Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs
Department for Environment Food & Rural Affairs
Seacole Building
2 Marsham St
London
SW1P 4DF

Dear George,

Thank you for your letter of 23 March replying to our questions about the Plant Health Provisional Framework. It clarified many of the issues the Committee were concerned about. We are now writing to provide our final recommendations.

We appreciate your letter provided more information about the various working groups involved in the framework. However, we remain extremely concerned that the arrangements surrounding working groups are unclear, complex, and overly bureaucratic. First, we are concerned that the Annex 3 diagram in the framework does not accurately represent how working groups relate and interact. In your Appendix I attachment, for example, you say that the Surveillance and Control sub-group is a sub-group to the Plant Health Outbreak Readiness Board, but that it also feeds “operations and recommendations ... to the field operation and diagnostics sub-group”. This relationship between sub-groups is not reflected in the diagram.

We recommend that the Annex 3 diagram is updated to accurately convey how working groups interact with one another.

We are also concerned that the information you provided in Appendix I actually provides limited information about what different working groups do. Common frameworks must be clear, concise, and transparent on the role and function of working groups. However, much of the information you supplied had unexpanded acronyms and unclear language. For example, the information about the Import Threats and Horizon Scanning sub-group claims the group has “ownership of the UKPHINS IT system”, without ever expanding this acronym or explaining what it is. The information given about the IT Preparedness sub-group says “It covers both BAU and outbreak working. This work will primarily be coordinated via the PH IT steering group which oversees the Plant Health Data System (PHDS) project.” Again, the BAU acronym is not expanded and there is no information about what the PH IT steering group or Plant Health Data System project is.

We recommend that the framework is updated to include the extended information on the framework's various working groups that you provided in your letter. We recommend that this information is revised to make it more clear about what various groups do. Acronyms should be used sparingly.

The Committee are very concerned that, as you outline in your letter, the majority of working groups were created after EU Exit. While we appreciate EU Exit has meant the UK has had to take on more functions previously conducted by the EU, having such a substantial number of working groups is overly bureaucratic and could prevent the framework from being efficient. One of the arguments the Prime Minister put forward when he campaigned in favour of EU Exit was that leaving the EU could reduce bureaucracy, but the frameworks resist this.

It is extremely important that frameworks are efficient and facilitate swift, effective decision-making. This is likely to be impeded when frameworks are overly bureaucratic. We recommend that the number of working groups needed in the framework is reviewed to ensure the processes outlined in the framework are more streamlined.

We are also concerned that working bodies can quickly become out of date or ineffective as a policy area changes and develops over time. We are concerned that there is no reference in the framework to an internal review to ensure the working groups outlined in the framework successfully meet the needs of the policy area.

We recommend that the framework is updated to include provisions for the number, remit and effectiveness working groups to be regularly reviewed.

We appreciate your response about stakeholders and how they are engaged. However, we remain unclear as to who can be engaged and when. You told us that "All groups are able to consult the Plant Health Advisory Forum and the Tree Health Policy Group ... The sub-groups to the UK PHRG, frequently engage with these groups, for example to inform options for new/amended measures against pests or to inform priorities for market access." This implies that the only stakeholders that could be consulted are the Plant Health Advisory Forum and the Tree Health Policy Group, rather than, for example, a union or charity.

Engagement with a wide range of stakeholders, including those outside Government and Whitehall, is essential for the development of effective frameworks. We recommend that the framework is updated to encourage stakeholder engagement from both the Plant Health Advisory Forum and Tree Health Policy Group, as well as external stakeholders.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at yr Arglwydd Grimstone o Boscobel Kt; Kwasi Kwarteng AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol; y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru; a'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg. Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr at Gadeiryddion Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, a Phwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.wales

11 Ebrill 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Pwyllgor Cynghori Domestig, sy'n un o ofynion y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE.

Yn ei lythyr atoch ar 10 Mawrth, ymrwymodd y Prif Weinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch Pwyllgor am aelodaeth y Pwyllgor Cynghori Domestig, a Fforwm y Gymdeithas Sifil (CSF), unwaith y byddai rhagor o wybodaeth ar gael. Ar 31 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog dros Ewrop a Gogledd America Ddatganiad Ysgrifenedig yn cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y CSF. Mae 30 o sefydliadau wedi'u dewis fel aelodau o'r Pwyllgor, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a bydd fy swyddogion yn cyfarfod â'r Cyngor cyn cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynghori Domestig. Mae'r rhestr lawn yr aelodau i'w gweld yn y Datganiad Ysgrifenedig.

[Datganiadau ysgrifenedig – Cwestiynau ysgrifenedig, atebion a datganiadau – Senedd y DU](#)

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 70
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

20 Ebrill 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth ynglŷn â'm hymddangosiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 14 Mawrth. Roeddwn yn croesawu'r cyfle i siarad â'r Pwyllgor am yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, Deddf y Farchnad Fewnol, a Chonfensiwn Sewel. Rwyf wedi ymateb yn fanwl i'ch cwestiynau pellach mewn Atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

Cysylltiadau Rhynglywodraethol

1. Gwnaethoch nodi eich bod yn gobeithio trafod y broses o weithredu'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol y mis hwn. Byddwch wedi gweld ein llythyr at y Prif Weinidog (dyddiedig 22 Mawrth) a'n cais i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn dilyn y cyfarfod cyntaf. Beth yw eich blaenoriaethau a'ch disgwyliadau o ran gwaith y Pwyllgor Sefydlog hwnnw?

Cynrychiolodd y Prif Weinidog a minnau Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 23 Mawrth. Ysgrifennodd y Prif Weinidog atoch ar 31 Mawrth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau yn y cyfarfod hwnnw. Cyhoeddodd y Prif Weinidog hefyd Ddatganiad Ysgrifenedig i Senedd Cymru ("y Senedd") ynglŷn â'r Pwyllgor Sefydlog, gan nodi bod pynciau pwysig argyfwng Wcráin, ein dull o ymdrin â deddfwriaeth y DU, a'r Papur Gwyn Codi'r Gwastad wedi'u trafod yn y cyfarfod.

O ran gweithredu'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, cytunwyd y byddai blaenraglen o gyfarfodydd yn cael ei datblygu i alluogi patrwm ymgysylltu strwythuredig a rheolaidd. Mae'n bwysig bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu hamserlennu a'u cynnal yn rheolaidd er mwyn gwireddu addewid yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Rhaid rhoi amser i'r Pwyllgor Sefydlog sefydlu ei ffyrdd o weithio, gyda chydberchnogaeth o'r peirianwaith, gan gynnwys, er enghraifft, cadeirio cyfarfodydd a gosod agendâu ar y cyd, a'r bwriad i weithio ar sail cytundeb drwy gonsensws.

Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn fforwm pwysig i Weinidogion drafod materion trawsbynciol domestig a rhyngwladol. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn darparu sylfaen gref ar gyfer cydweithio a chydweithredu ar fframweithiau cyffredin a materion rheoleiddio ac i hwyluso ymgynghori rhwng y llywodraethau ar lefel Weinidogol. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn goruchwylio ymgysylltu ar lefel portffolios ac yn darparu llwybr uwchgyfeirio ar gyfer materion o bwysigrwydd strategol.

2. Sut, yn eich barn chi, y dylai'r Pwyllgor Sefydlog fynd ati i oruchwylio marchnad fewnol y DU a fframweithiau cyffredin? Yn benodol:

- Faint o sylw y dylai'r Pwyllgor Sefydlog ei roi i adroddiadau Swyddfa'r Farchnad Fewnol?
- Sut bydd y Pwyllgor Sefydlog yn sicrhau bod trafodaethau ynghylch cydbwysio cyfleoedd a risgiau gwahaniaeth rheoleiddiol yn agored i seneddau a rhanddeiliaid?

Fel y nodir yn ei Gylch Gorchwyl, bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn ystyried materion sy'n effeithio ar safonau rheoleiddio ledled y DU ar gyfer masnach fewnol ac yn ystyried goblygiadau dulliau gwahanol o sefydlu polisïau lleol trawsbynciol sy'n effeithio ar faes cyfrifoldeb llywodraeth arall. Dylai trafodaethau â'r llywodraethau eraill drwy'r Pwyllgor Sefydlog – a thrwy Grwpiau Rhyngweinidogol perthnasol ar faterion penodol – alluogi adroddiadau gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol a datblygiadau ehangach i gael eu hystyried. Rydym yn parhau i ymrwmo i ymgysylltu â'r Senedd a rhanddeiliaid wrth ystyried polisi rheoleiddio a gwahaniaethau posibl yn y dyfodol, ac i adrodd am drafodaethau Rhyngweinidogol yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol a threfniadau sy'n ymwneud â Fframweithiau Cyffredin.

Mae gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad blynyddol (y cyntaf erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf) ac unwaith bob pum mlynedd gydag archwiliad manylach o iechyd y farchnad fewnol. Bydd yr adroddiad pum mlynedd hwn hefyd yn edrych ar sut y mae Fframweithiau Cyffredin yn cyfrannu at weithrediad effeithiol y farchnad fewnol.

Cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol [adroddiad](#) cychwynnol fis Mawrth eleni. Ymysg pethau eraill, mae'n ystyried mesurau rheoleiddio posibl y pedair gwlad yn y dyfodol, o fewn cwrpas Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, ac yn darparu dadansoddiad cychwynnol o ddata masnach o fewn y DU ynghylch maint a phwysigrwydd y farchnad hon.

▪ Beth yw eich ymateb i argymhelliad diweddar Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban fod angen cytundeb rhwng Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban na ddylid, fan lleiaf, wanhau ymgynghoriad cyhoeddus neu waith craffu seneddol o ganlyniad i fframweithiau cyffredin a gwaith rhynglywodraethol?

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad hwn; ni fwriedir i Fframweithiau Cyffredin ymyrryd â gallu'r Senedd neu unrhyw ddeddfwrfa arall i graffu.

3. Gwnaethom drafod y gwaith sy'n mynd rhagddo i sefydlu'r Ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol. A allech nodi eich disgwyliadau ynghylch maint yr ysgrifenyddiaeth a'i chyfansoddiad o ran graddau? O ystyried y rôl allweddol y bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ei chwarae yn yr haenau newydd o weithio rhynglywodraethol ac, yn anad dim, yn y prosesau ar gyfer datrys anghydfodau, byddem yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i sefydlu'r ysgrifenyddiaeth.

Fel yr amlinellwyd yn y sesiwn dystiolaeth, nid yw adnoddau'r ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol sefydlog wedi'u penderfynu'n derfynol eto. Mae gwaith ar y gweill ar y cyflenwad staff cyffredinol a'r cymysgedd o ran graddau yn ogystal ag opsiynau recriwtio i sicrhau adnoddau priodol i'r ysgrifenyddiaeth sefydlog gyflawni ei swyddogaethau. Bydd perchnogaeth yn cael ei rhannu ar draws y pedair llywodraeth, ond bydd yn gweithredu'n annibynnol ar fuddiannau unrhyw riant lywodraeth. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn atebol i'r Cyngor yn y pen draw. Bydd yn cefnogi ac yn cydlynu busnes ar y brig a haenau trawsbynciol – ond nid y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid – ac yn goruchwyllo anghydfodau, yn ôl set o ganllawiau y cytunwyd arni. Bydd yr ysgrifenyddiaeth sefydlog yn cysylltu ac yn cydweithio'n agos ag uwch swyddogion Cysylltiadau Rhynglywodraethol ar draws yr holl lywodraethau. Nodir swyddogaethau craidd yn y pecyn diwygiadau. Hyd nes y sefydlir yr ysgrifenyddiaeth sefydlog, bydd swyddogion o bob llywodraeth yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth ar y cyd. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi wrth i'r ysgrifenyddiaeth sefydlog gael ei sefydlu.

4. Fel y'i trafodwyd yn ystod y sesiwn, roedd datganiad Gweinidog yr Economi ar 10 Mawrth bod cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau'r DU a'r UE (IMG) wedi cael ei alw gyda dim ond dwy awr o rybudd yn peri pryder. Gwnaethoch fynegi'r gobaith mai trafferthion cychwynnol cynnar oedd y rhain. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod rhybudd digonol yn cael ei rhoi ar gyfer galw cyfarfodydd Grwpiau Rhyngweinidogol yn y dyfodol?

Fel y nodir uchod, mae'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn goruchwyllo ymgysylltiad ar lefel portffolios ac yn cynnig llwybr uwchgyfeirio ar gyfer materion o bwysigrwydd strategol. Bydd uwch swyddogion ym mhob un o'r pedair llywodraeth hefyd yn darparu trosolwg a

sicrwydd ar y cyd, gan gyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio'r gwaith o sefydlu Grwpiau Rhyngweinidogol, lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd, yn ogystal â darparu mecanwaith ar gyfer gwella ansawdd yr ymgysylltu. Byddwn yn parhau i weithio i ddylanwadu ar y ffocws, y gweithrediadau a'r ffyrdd o weithio drwy drefniadau cydysgrifenyddiaeth gyda'r llywodraethau eraill. Mae angen i Grwpiau Rhyngweinidogol weithredu yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol a dylai fod ganddynt gylch gorchwyl y cytunir arno; cyfarfodydd a drefnir ar y cyd gan swyddogion polisi o'r pedair llywodraeth; agendâu y cytunir arnynt rhwng y llywodraethau; trefniadau cylchdroi cadeiryddion (yn ogystal â lleoliadau, os oes angen cyfarfodydd wyneb yn wyneb) fel arferion safonol. Os daw anawsterau i'r amlwg, byddwn yn codi'r rhain ar lefel swyddogion, lefel Gweinidogion, y Pwyllgor Sefydlog ac, os oes angen, yn y Cyngor. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn unol â'n hymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â chysylltiadau rhynglywodraethol.

O ran y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau'r DU a'r UE, rydym wedi'i gwneud yn glir ein bod yn disgwyl cael hysbysiad priodol o bob cyfarfod rhynglywodraethol o'r fath, yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod bob pythefnos ag Ysgrifenyddiaeth UE Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill, a thrwy hyn byddwn yn parhau i geisio sicrhau bod cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol yn y dyfodol yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion hyn.

5. A allwch chi nodi sut y bydd Grŵp Rhyngweinidogol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn rhyngweithio â fforymau a sefydlwyd gan y Cytundeb ac yn cyfathrebu â nhw? Er enghraifft, a fydd yn trefnu ei amserlen cyfarfodydd i gyd-fynd â chyfarfodydd Cytundeb Masnach a Chydweithredu?

Nid yw Cylch Gorchwyl y Grŵp Rhyngweinidogol hwn wedi'i gwblhau na'i gymeradwyo eto, ond y bwriad ar hyn o bryd yw y dylai'r Grŵp anelu at gyfarfod yn rheolaidd, gan gynnwys cyn cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth a Chyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Datganoledig i drafod gyda gweinidogion cyfatebol Llywodraeth y DU y materion sy'n debygol o gael eu hystyried yn y cyfarfodydd hyn, a cheisio sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu cynrychioli yn safbwyntiau'r DU mewn cyfarfodydd Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Gellir trafod materion perthnasol hefyd mewn cyfarfodydd Grŵp Rhyngweinidogol sy'n benodol i bortffolio neu gyfarfodydd lefel swyddogion.

6. Gwnaethom drafod a yw'r strwythurau rhynglywodraethol newydd yn darparu ar gyfer cyfranogiad digonol gan Lywodraeth Cymru mewn polisi rhyngwladol. A allwch chi nodi eich dealltwriaeth o sut y bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a'r grwpiau rhyngweinidogol amrywiol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu arolygiaeth pedair llywodraeth ar bolisi rhyngwladol?

Mae'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu ar faterion rhyngwladol yn sgil yr effaith ar gyfrifoldebau datganoledig.

Mae yna ddau Grŵp Rhyngweinidogol sy'n canolbwyntio ar faterion rhyngwladol – y Grŵp Rhyngweinidogol Masnach i drafod cytundebau â phartneriaid masnachu newydd y DU, a Grŵp Rhyngweinidogol Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE. Gall y Grwpiau Rhyngweinidogol adrannol hefyd ystyried ymgysylltu a chytundebau rhyngwladol lle mae cyfrifoldebau datganoledig dan sylw.

Bydd y Grŵp Rhyngweinidogol newydd ar Gysylltiadau'r DU a'r UE yn fforwm ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael, ond mae Llywodraeth y DU wedi nodi bod materion diplomyddol ehangach sy'n ymwneud â materion rhyngwladol y DU y tu allan i gwmpas y Grŵp Rhyngweinidogol hwn.

O ran ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar negodi Cytundebau Masnach Rydd newydd, roedd strwythurau eisoes wedi'u sefydlu a oedd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymgysylltu, ar lefel swyddogion a lefel Gweinidogion. Er bod lle i wneud gwelliannau o hyd mewn rhai elfennau o'r broses ymgysylltu hon, mae'r rhain yn ymwneud â natur yr wybodaeth a rennir â ni, yn hytrach na'r strwythurau ymgysylltu eu hunain. Mae'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i Weinidogion y Llywodraethau Datganoledig ymgysylltu ar Bolisi Masnach y DU. Fodd bynnag, nid yw Cylch Gorchwyl y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach erioed wedi cael ei gytuno'n ffurfiol. Gan fod yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol bellach wedi'i gwblhau, bydd Cylch Gorchwyl y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach yn cael ei ailystyried ac mae trafodaethau wedi dechrau gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill ynghylch y ffordd orau o gysoni Cylch Gorchwyl y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach â'r egwyddorion ar gyfer Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

Gall y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ystyried materion rhyngwladol trawsbynciol a strategol ehangach. Gall hefyd gynnig llwybr uwchgyfeirio ar gyfer materion rhyngwladol na ellir mynd i'r afael â nhw'n ddigonol yn y Grŵp Rhyngweinidogol perthnasol, neu gyfarfodydd dwyochrog, neu sy'n gofyn am drosolwg strategol pellach ar draws sawl maes polisi.

Mae'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol hefyd yn nodi y gall y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu arwain, yn uniongyrchol, ymgysylltiad a chytundebau rhyngwladol sydd y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor Sefydlog neu Grŵp Rhyngweinidogol perthnasol, naill ai'n ddwyochrog neu'n amlochrog yn ôl yr angen. I gefnogi hyn, mae cyfarfodydd rheolaidd ar lefel uwch swyddogion rhwng y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r llywodraethau datganoledig wedi'u sefydlu.

7. Gwnaethom drafod y broses rynglywodraethol newydd ar gyfer datrys anghydfodau. A allech gadarnhau a oes gan Lywodraeth Cymru, neu a fydd ganddi, feini prawf mewnol ar gyfer penderfynu sut a phryd y dylid ceisio uwchgyfeirio materion drwy'r broses rynglywodraethol newydd ar gyfer datrys anghydfodau? Os oes meini prawf o'r fath yn bodoli, a allwch roi'r manylion i ni?

Mae'r mecanwaith arfaethedig ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau yn amlinellu hawl pob llywodraeth i atgyfeirio ac uwchgyfeirio anghydfod, ac mae'n gofyn am drefniadau ar gyfer cadeirio ac ysgrifenyddiaeth annibynnol. Mae'n cynnwys rhagdybiaeth o fewnbwn annibynnol, naill ai trwy gyngor neu gyfryngu, a gwell tryloywder i helpu gwaith craffu deddfwrfeydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae sbarduno anghydfod ffurfiol yn gam sylweddol i'w gymryd ac fel arfer dylid ei ystyried fel y dewis olaf, ar ôl gwneud pob ymdrech bosibl arall i ddatrys yn foddhaol fater neu anghytundeb sy'n dod i'r amlwg. O'r herwydd, byddai ein dull gweithredu cyn sbarduno anghydfod ffurfiol fel arfer yn cynnwys nifer o gamau pwysig, gan gynnwys:

- Defnyddio'r holl fecanweithiau rhynglywodraethol ar lefel portffolios sydd ar gael i osgoi a datrys anghydfodau, gan gynnwys Grwpiau Rhynglywodraethol ac unrhyw drefniadau o ran Fframwaith Cyffredin;

- Adolygiad mewnol gan uwch swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried y camau a gymerwyd hyd at y pwynt hwnnw i ddatrys y materion, ac ystyried y sefyllfa yng nghyd-destun y broses Cysylltiadau Rhynglywodraethol ar gyfer datrys anghydfodau, ac unrhyw feini prawf neu ganllawiau gan yr ysgrifenyddiaeth sefydlog, gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd a nodir yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol;
- Sicrhau cytundeb Gweinidog y portffolio, y Cwnsler Cyffredinol, y Gweinidog Cyllid (ar gyfer anghydfodau cyllid) a'r Prif Weinidog a fydd yn ystyried rhinweddau'r achos yng nghyd-destun y mater penodol a'r cysylltiadau rhynglywodraethol cyffredinol.

8. Gwnaethom drafod yn fyr furiad Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r Bil Cymwysterau Proffesiynol, er na roddwyd cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd na chan Senedd yr Alban. Fel y'i nodwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr atom dyddiedig 8 Mawrth, ac fel y gwnaethoch gydnabod yn ystod y cyfarfod, mae hyn yn torri confensiwn cydsyniad deddfwriaethol. Nid oedd yn glir o'r sesiwn a ydych o'r farn y byddai'r mater hwn, neu unrhyw fater tebyg yn y dyfodol, yn cael ei ddwyn gan Lywodraeth Cymru drwy'r prosesau newydd ar gyfer datrys anghydfodau. Byddem yn croesawu eglurhad ar y pwynt hwn.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 23 Mawrth, pwysleisiodd y Prif Weinidog a minnau fod yn rhaid i Lywodraeth y DU barchu Confensiwn Sewel yn briodol. O ganlyniad, cytunwyd y byddai swyddogion yn gwneud gwaith ar y cyd ar egwyddorion i leihau, os nad dileu, wahaniaethau yn yr ymagwedd at Gonfensiwn Sewel. Rwy'n cynnig ein bod yn gweld sut y mae'r gwaith ar y cyd hwn yn mynd rhagddo yn y lle cyntaf, ond mae pob opsiwn yn parhau dan ystyriaeth.

9. Gwnaethoch alw'r broses datrys anghydfod ddiwygiedig yn welliant aruthrol ac yn arloesol. Sut y byddwch yn monitro pa mor dda y mae prosesau rhynglywodraethol newydd yn gweithio, a pha gamau y byddwch yn eu cymryd os teimlwch nad ydynt yn cael eu dilyn?

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol yn gyfrifol am sicrhau tryloywder gweithrediadau Cysylltiadau Rhynglywodraethol megis rhannu cyfathrebiadau ar y cyd ar gyfer y Cyngor a'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Mae hefyd yn ofynnol i'r Ysgrifenyddiaeth lunio adroddiad blynyddol o weithgarwch rhynglywodraethol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw faterion sy'n mynd drwy'r mecanwaith osgoi a datrys anghydfodau a, chan barchu natur gyfrinachol rhai materion, bydd pob llywodraeth yn rhannu hyn â'u deddfwrfa. Byddwn yn ategu hyn drwy ein gwaith monitro ac adrodd ein hunain fel sy'n ofynnol gan ein Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol â'r Senedd. Pan fo gennym unrhyw bryderon ynghylch y prosesau a'r gweithdrefnau rhynglywodraethol, byddwn yn codi'r rhain yn uniongyrchol gyda'r Ysgrifenyddiaeth ac ar lefel uwch swyddogion, neu drwy'r strwythurau Gweinidogol Cysylltiadau Rhynglywodraethol gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, neu'r Cyngor.

Deddfu ar gyfer Cymru

10. Mewn llythyr atom dyddiedig 17 Ionawr 2022, dywedsoch fod angen cydbwysu “amddiffyn y setliad datganoli sydd ohoni, hyd y gellir, a’r egwyddor y dylem ddeddfu ein hunain yma yng Nghymru, â’r cyfleoedd a all godi i wella’r gyfraith ar gyfer dinasyddion Cymru.” Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i bwysu a mesur gwrthdaro rhwng y ffactorau hyn?

Mae'r penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid argymell cydsyniad y Senedd i Fil y DU fel arfer yn golygu ystyried amrywiaeth o ffactorau cyfansoddiadol a gwleidyddol, ffactorau o ran polisi a ffactorau eraill, a gall y rhain wrthdaro weithiau.

O ganlyniad, er y bydd yr egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y Cabinet ym mis Hydref 2021 yn darparu'r sail ar gyfer penderfyniadau o'r fath, rhaid inni gydnabod y byddant yn cael eu rhoi ar waith yng nghyd-destun trafodaethau sy'n aml yn gymhleth ac yn hylifol, ac weithiau bydd angen ystyried y posibilrwydd o gyfaddawdu er mwyn sicrhau ein hamcanion polisi cyffredinol.

Sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru, yn unol â'n blaenoriaethau, yw ein nod wrth ystyried deddfwriaeth. Felly, rydym yn penderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hynny drwy ddeddfwriaeth y Senedd a Senedd y DU, gan ystyried blaenoriaethau a chapasiti ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain a hefyd y cyfleoedd a'r risgiau posibl sy'n deillio o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

Pe na baem ond yn cyflawni ein blaenoriaethau drwy ddeddfwriaeth y Senedd, yn hytrach na mynd ar drywydd set ehangach o flaenoriaethau drwy'r ddwy raglen ddeddfwriaethol, byddem yn cyflawni llai ar gyfer pobl Cymru. Fodd bynnag, pan fyddwn yn ystyried derbyn neu ddefnyddio'n rhagweithiol ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU i gyflawni ein hamcanion polisi, bydd ein hymrwymiad i amddiffyn y setliad datganoli a'n hegwyddorion yn parhau i lywio ein dull gweithredu.

11. Sut mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i geisio cydsyniad ar gyfer Biliau'r DU mewn meysydd datganoledig fel diwygio cyfraith lesddaliad a diogelwch adeiladau'n gydnaws ag egwyddor Llywodraeth Cymru y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd?

Ein man cychwyn o hyd yw y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd. Fodd bynnag, mae amgylchiadau lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol ceisio darpariaeth, a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ar gyfer Cymru ym Miliâu Senedd y DU, gyda chydsyniad y Senedd, a bydd amgylchiadau o'r fath yn parhau i ddigwydd.

Ym mis Hydref 2021, ysgrifennais at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn nodi ein meini prawf ar gyfer pennu o dan ba amgylchiadau y byddem yn ystyried defnyddio Bil y DU i arfer pwerau ar gyfer Cymru. Yn gryno, byddem yn ystyried defnyddio Bil y DU pan ellir newid y gyfraith yn gyflymach nag y gallem ni ei newid yn ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain a phan fo'n synhwyrol i'r gyfundrefn reoleiddio fod yn debyg ar draws Cymru a Lloegr. Fel y nodwyd eisoes, mae'r penderfyniad terfynol ynghylch argymell cydsyniad ar gyfer Bil y DU fel arfer yn golygu ystyried amrywiaeth o ffactorau, a all wrthdaro weithiau.

Rhodddwyd ein hegwyddorion ar waith yn gyson mewn perthynas â'n penderfyniadau ar ddiwygio lesddaliadau a diogelwch adeiladau. Mewn perthynas â'r ddau Fil yn y meysydd hynny, roedd manteision sylweddol ar gael drwy gadw cyfraith gyffredin, gan ddefnyddio cyfleoedd deddfwriaethol amserol Senedd y DU yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth gan y Senedd (a fyddai wedi cael effaith ar y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol gerbron y Senedd), a chyfraniad sylweddol gan Lywodraeth Cymru tuag at ddatblygu cynigion (er enghraifft, y cydweithio â phrosiectau diwygio lesddaliadau Comisiwn y Gyfraith).

12. A allwch egluro'r pwynt yn eich datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror nad yw nifer y memoranda cydsyniad deddfwriaethol "o fewn dewis Llywodraeth Cymru"?

Er y bydd yna Filiau'r DU yr ydym yn gofyn am ddarpariaeth ynddynt, bydd yna Filiau hefyd lle rydym o'r farn bod yna ddarpariaethau o fewn cymhwysedd y Senedd nad ydynt wedi bod yn destun ceisiadau o'r fath.

Yn y Chweched Senedd hon, ac ers dechrau sesiwn newydd Senedd y DU ym mis Mai, rydym wedi gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol, gan gynnwys memoranda atodol, ar 19 o Filiau'r DU. Mae'r nifer mawr o femoranda cydsyniad deddfwriaethol cychwynnol ac atodol sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru yn dangos faint o ddeddfwriaeth sy'n dod gan Lywodraeth y DU, a hefyd gymaint y mae Llywodraeth y DU neu Senedd y DU yn diwygio'r ddeddfwriaeth yn ystod ei hynt drwy Senedd y DU.

13. Gofynnodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg am ddiwygiad i'r Bil Cymwysterau Proffesiynol i'r perwyl na fydd Gweinidogion y DU yn gallu defnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar y llaw arall, nid yw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynd ar drywydd diwygiad tebyg i bŵer galluogi tebyg yn y Bil Iechyd a Gofal. Beth yw eich barn am y ddau ddull gwahanol, a pha un o'r dulliau hyn sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU?

Nid wyf o'r farn bod gwrthdaro yma; mae pob Bil gan y DU yr ydym yn ymdrin ag ef yn wahanol a rhaid ei ystyried yn unigol. Anelir at ddull cyson o ymdrin â chymalau tebyg ar draws Biliau, ond ar gyfer pob Bil mae angen cydbwysio materion gwahanol a dod i gytundebau y cytunir arnynt.

Mae'r Bil Cymwysterau Proffesiynol yn parhau i roi'r pŵer i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ofod polisi yn y dyfodol, rheoleiddwyr Cymru a'r proffesiynau y maent yn eu rheoleiddio. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar y dull a fabwysiadwyd gennym, ac rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i bwysleisio ein pryderon ynghylch y pwerau cydredol yn y Bil, ac wedi egluro droeon fod yn rhaid eu diwygio i adlewyrchu pwerau Gweinidogion Cymru mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Gwnaed y penderfyniad i argymhell cydsyniad y Senedd i'r darpariaethau diwygio canlyniadol ym Mil Iechyd a Gofal y DU yn dilyn llawer o ystyriaeth. Roedd y penderfyniad yn seiliedig ar sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r defnydd arfaethedig o'r pwerau, enghreifftiau a welwyd o'r defnydd tebygol o'r pwerau (er enghraifft, newid enwau sefydliadau yn Lloegr y cyfeirir atynt yn neddfwriaeth Cymru lle mae swyddogaethau wedi'u trosglwyddo) a'r datganiad gerbron y blwch dogfennau a wnaed yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Chwefror gan yr Arglwydd Kamall. Nodwyd hyn yn y Memorandwm Cydsyniad

Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) a llythyrau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor ar 14 a 28 Chwefror.

Nid yw Llywodraeth y DU yn ystyried bod y cymalau diwygio canlyniadol o fewn cymhwysedd y Senedd (nid oeddem ni'n rhannu'r farn hon) a gwnaeth Llywodraeth y DU hi'n glir mewn trafodaethau nad oedd yn barod i ddileu na diwygio'r cymalau. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau'n benodol nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau, sy'n ganlyniadol i'r Bil, i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cawsom gonsesiynau sylweddol ar gyfer Cymru yn y Bil hwn ac roedd yn amlwg, o ystyried y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU a'r ymrwymiad a wnaed gerbron y blwch dogfennau, fod peidio â chael y consesiynau mewn rhannau eraill o'r Bil yn peri mwy o risg i Gymru na'r risg yn sgil y cymalau diwygio canlyniadol.

14. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i symud ymlaen â diwygio'r broses cydsyniad deddfwriaethol fel y'i nodir yng Nghynnig 5 o Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU?

Amlygodd y Prif Weinidog a minnau yr achosion annerbyniol o dorri Confensiwn Sewel yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Fel y nodwyd yn Natganiad Ysgrifenedig y Prif Weinidog i Aelodau ar ôl y cyfarfod, tynnodd y Prif Weinidog sylw'r Cadeirydd at lythyr diweddar gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynglŷn â'r defnydd o ddeddfwriaeth y DU. Yn ogystal, anogodd ystyriaeth o ddifrif o adroddiad ac argymhellion Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar y Confensiwn. Yn gysylltiedig â hyn, galwom am i Gonfensiwn Sewel gael ei godeiddio, ac i fecanweithiau adrodd i'r Seneddau unigol gael eu cryfhau. Tanlinellais bwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar ar Filiau'r DU yn y dyfodol. Fel y nodir uchod, o ganlyniad i'r drafodaeth yn y Pwyllgor Sefydlog, gofynnwyd i swyddogion gymryd camau dilynol ar hyn a gweithio ar egwyddorion i leihau, os nad dileu, wahaniaethau mewn dulliau gweithredu. Rydym yn dal i gredu mai rhoi sail statudol a thraddodadwy i Gonfensiwn Sewel yw'r ffordd fwyaf priodol o hyd o ddiogelu'r setliad datganoli a diogelu'r Deyrnas Unedig a byddwn yn parhau i bwysleisio'r pwynt hwn.

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

25 Mawrth 2022

Annwyl Mick,

Canlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, ymateb Llywodraeth Cymru i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, a gallu Llywodraeth Cymru i ddeddfu: cais am ragor o wybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 14 Mawrth 2022

Hoffem ddiolch i chi a'ch swyddogion am roi tystiolaeth i ni ar 14 Mawrth 2022.

Soniais ar ddiwedd y sesiwn fod nifer o gwestiynau nad oedd modd eu gofyn yn ystod yr amser a gawsom gyda chi. Ar ben hynny, hoffem fynd ymhellach ar drywydd rhai o'r materion y gwnaethom eu trafod yn y sesiwn.

Gweler yr Atodiad am restr lawn o'r cwestiynau. Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn dydd lau 19 Ebrill.

Yn ogystal, diolch i chi am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ymateb Llywodraeth Cymru hyd yma i ddyfarniad y Llys Apêl ar yr her gyfreithiol i *Ddeddf Marchnad Fewnol 2020* y Deyrnas Unedig. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn parhau i'n hysbysu am unrhyw ddatblygiadau.

Yn fwy cyffredinol, yn unol â'n Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol, edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o weithredu'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Cysylltiadau rhynglywodraethol

1. Gwnaethoch nodi eich bod yn gobeithio trafod y broses o weithredu'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a'r sefyllfa o ran deddfwriaeth y DU yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol y mis hwn. Byddwch wedi gweld ein llythyr at y Prif Weinidog (dyddiedig 22 Mawrth) a'n cais i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn dilyn y cyfarfod cyntaf. Beth yw eich blaenoriaethau a'ch disgwyliadau o ran gwaith y Pwyllgor Sefydlog hwnnw?
2. Sut, yn eich barn chi, y dylai'r Pwyllgor Sefydlog fynd ati i oruchwylio marchnad fewnol y DU a fframweithiau cyffredin? Yn benodol:
 - Faint o sylw y dylai'r Pwyllgor Sefydlog ei roi i adroddiadau Swyddfa'r Farchnad Fewnol?
 - Sut bydd y Pwyllgor Sefydlog yn sicrhau bod trafodaethau ynghylch cydbwysio cyfleoedd a risgiau gwahaniaeth rheoleiddiol yn agored i seneddau a rhanddeiliaid?
 - Beth yw eich ymateb i argymhelliad diweddar Pwyllgor Cyfansoddiad Ewrop Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban fod angen cytundeb rhwng Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban na ddylid, fan lleiaf, wanhau ymgynghoriad cyhoeddus neu waith craffu seneddol o ganlyniad i fframweithiau cyffredin a gwaith rhynglywodraethol?
3. Gwnaethom drafod y gwaith sy'n mynd rhagddo i sefydlu'r Ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol. A allech nodi eich disgwyliadau ynghylch maint yr ysgrifenyddiaeth a'i chyfansoddiad o ran graddau? O ystyried y rôl allweddol y bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ei chwarae yn yr haenau newydd o weithio rhynglywodraethol ac, yn anad dim, yn y prosesau ar gyfer datrys anghydfodau, byddem yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i sefydlu'r ysgrifenyddiaeth.
4. Fel y'i trafodwyd yn ystod y sesiwn, roedd datganiad Gweinidog yr Economi ar 10 Mawrth bod cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau'r DU a'r UE (IMG) wedi cael ei alw gyda dim ond dwy awr o rybudd yn peri pryder. Gwnaethoch fynegi'r gobaith mai trafferthion cychwynnol cynnar oedd y rhain. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod rhybudd digonol yn cael ei rhoi ar gyfer galw cyfarfodydd Grwpiau Rhyngweinidogol yn y dyfodol?
5. A allwch chi nodi sut y bydd Grŵp Rhyngweinidogol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn rhyngweithio â fforymau a sefydlwyd gan y Cytundeb ac yn cyfathrebu â nhw? Er enghraifft, a fydd yn trefnu ei amserlen cyfarfodydd i gyd-fynd â chyfarfodydd Cytundeb Masnach a Chydweithredu?

6. Gwnaethom drafod a yw'r strwythurau rhynglywodraethol newydd yn darparu ar gyfer cyfranogiad digonol gan Lywodraeth Cymru mewn polisi rhyngwladol. A allwch chi nodi eich dealltwriaeth o sut y bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a'r grwpiau rhyngweinidogol amrywiol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu arolygiaeth pedair llywodraeth ar bolisi rhyngwladol?
7. Gwnaethom drafod y broses rynglywodraethol newydd ar gyfer datrys anghydfodau. A allech gadarnhau a oes gan Lywodraeth Cymru, neu a fydd ganddi, feini prawf mewnol ar gyfer penderfynu sut a phryd y dylid ceisio uwchgyfeirio materion drwy'r broses rynglywodraethol newydd ar gyfer datrys anghydfodau? Os oes meini prawf o'r fath yn bodoli, a allwch roi'r manylion i ni?
8. Gwnaethom drafod yn fyr fwriad Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r Bil Cymwysterau Proffesiynol, er na roddwyd cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd na chan Senedd yr Alban. Fel y'i nodwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr atom dyddiedig 8 Mawrth, ac fel y gwnaethoch gydnabod yn ystod y cyfarfod, mae hyn yn torri confensiwn cydsyniad deddfwriaethol. Nid oedd yn glir o'r sesiwn a ydych o'r farn y byddai'r mater hwn, neu unrhyw fater tebyg yn y dyfodol, yn cael ei ddwyn gan Lywodraeth Cymru drwy'r prosesau newydd ar gyfer datrys anghydfodau. Byddem yn croesawu eglurhad ar y pwynt hwn.
9. Gwnaethoch alw'r broses datrys anghydfod ddiwygiedig yn welliant aruthrol ac yn arloesol. Sut y byddwch yn monitro pa mor dda y mae prosesau rhynglywodraethol newydd yn gweithio, a pha gamau y byddwch yn eu cymryd os teimlwch nad ydynt yn cael eu dilyn?

Deddfu ar gyfer Cymru

10. Mewn **lythyr** atom dyddiedig 17 Ionawr 2022, dywedsoch fod angen cydbwysu "amddiffyn y setliad datganoli sydd ohoni, hyd y gellir, a'r egwyddor y dylem ddeddfu ein hunain yma yng Nghymru, â'r cyfleoedd a all godi i wella'r gyfraith ar gyfer dinasyddion Cymru." Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i bwysu a mesur gwrthdaro rhwng y ffactorau hyn?
11. Sut mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i geisio cydsyniad ar gyfer Biliau'r DU mewn meysydd datganoledig fel diwygio cyfraith lesddaliad a diogelwch adeiladau'n gydnaws ag egwyddor Llywodraeth Cymru y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd?
12. A allwch egluro'r pwynt yn eich **datganiad** yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror nad yw nifer y memoranda cydsyniad deddfwriaethol "o fewn dewis Llywodraeth Cymru".

13. Gofynnodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg am ddiwygiad i'r Bil Cymwysterau Proffesiynol i'r perwyl na fydd Gweinidogion y DU yn gallu defnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Ar y llaw arall, nid yw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynd ar drywydd diwygiad tebyg i bŵer galluogi tebyg yn y Bil Iechyd a Gofal. Beth yw eich barn am y ddau ddull gwahanol, a pha un o'r dulliau hyn sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU?

14. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i symud ymlaen â diwygio'r broses cydsyniad deddfwriaethol fel y'i nodir yng Nghynnig 5 o Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU?

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref 2022/03/08 IGR

Huw Irranca-Davies MS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

21 Ebrill 2022

Annwyl Huw

Ysgrifennaf atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol. Yn fy llythyr blaenorol, fe'ch hysbysais y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 8 Mawrth ac mai fi fyddai'n cynrychioli Llywodraeth Cymru. Rwy'n ysgrifennu nawr er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig sy'n cynnwys Cyd-hysbysiad y cytunwyd arno o'r cyfarfod, sydd ar gael yma <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-grwp-rhyngweinidogol-ar-etholiadau-chofrestru>

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru

DYDDIAD 21 Ebrill 2022

GAN Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, gallaf gadarnhau wrth Aelodau'r Senedd fy mod wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru ar 8 Mawrth.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn rhithwir ac fe'i gadeiriwyd gan George Adam, Aelod o Senedd yr Alban a Gweinidog Llywodraeth yr Alban dros Fusnes Seneddol. Roedd Kemi Badenoch, Aelod o Senedd y DU a'r Gweinidog dros Gymunedau Ffyniant Bro, a'r Gwir Anrhydeddus Conor Burns, Aelod o Senedd y DU a'r Gweinidog Gwladol dros Ogledd Iwerddon hefyd yn bresennol yn y cyfarfod.

Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i drafod Bil Etholiadau y DU a materion cymhwysedd a drafodwyd yn ddiweddar yn ein Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Yn ogystal, trafodwyd y paratodau ar gyfer yr etholiadau sydd ar y gweill ym mis Mai, gan gynnwys ein cynlluniau peilot ynglŷn â phleidleisio hyblyg.

Cyhoeddwyd Datganiad ar y cyd ynghylch y cyfarfod ar 21 Ebrill Mae'r Datganiad hwn ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/communiques-from-the-interministerial-group-for-elections-and-registration>

Rydym yn parhau i gydweithio a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter gyda threfniadau cadeirio sy'n cylchdroi. Byddaf yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2022
DYDDIAD	31 Mawrth 2022
GAN	Lesley Griffiths, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi rhoi ei chydysniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer gwneud Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2022 yn Senedd y DU. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig ar ran Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Rheoliadau yn ofynnol ar gyfer dau rhanddirymiad ar gyfer defnyddio cynhyrchion anorganig ym maes cynhyrchu organig. Mae'r rhain ar gyfer cywennod a gwm gellan.

O dan Reoliad (EC) Rhif 889/2008 yr UE a gadwyd, caniatawyd rhanddirymiad i ganiatáu defnyddio cywennod anorganig tan 31 Rhagfyr 2020 ac ar gyfer gwm gellan anorganig tan 31 Rhagfyr 2021. Mae'r ddau rhanddirymiad bellach wedi dod i ben, ond nid oes digon o gyflenwadau o'r ddau gynnyrch hyn o hyd. Mae hyn wedi golygu bod angen ailgyflwyno rhanddirymiad.

Er bod y Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig o ran cymhwysedd, mae'r rheoliadau hyn yn fach ac yn dechnegol eu natur. Felly, mae'n hwylus cyflwyno Offeryn Statudol ar gyfer Prydain gyfan y tro hwn.

WS-30C(6)-007 – Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2022

Cefndir

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU o dan Erthyglau 22(3) a 38b(8) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig.

Crynodeb

Diben y Rheoliadau hyn yw ymestyn y cyfnod y caniateir rannirymidiadau ar gyfer defnyddio cywennod anorganig (ieir ifanc) a gwm gellan anorganig ym maes cynhyrchu organig.

Daeth y rhanddirymiad ar gyfer cywennod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, a daeth y rhanddirymiad ar gyfer gwm gellan i ben ar 31 Rhagfyr 2021. Gan nad oes cyflenwad digonol o gywennod organig a gwm gellan ar gael ar hyn o bryd yn y farchnad ym Mhrydain Fawr, mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y ddau rannirymiad tan 31 Rhagfyr 2022. Bydd hyn yn caniatáu i gynhyrchu organig barhau yn ddi-dor tra bod y farchnad yn datblygu.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 31 Mawrth 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Ebrill 2022





Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.irranca-davies@senedd.wales

31 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Rheoliadau Mewnforio Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid a Gwledydd Cymeradwy (Diwygio) 2022

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fy mod wedi rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y rheoliadau uchod mewn perthynas â Chymru.

Mae'r rheoliadau'n gwneud diwygiadau technegol i sawl darn o gyfraith yr UE a ddargedwir i gywiro diffygion sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r UE. Yn benodol, maent yn gwneud newidiadau i'r prosesau a ddefnyddir i restru trydydd gwledydd gan y DU, mewn perthynas â ag amodau iechyd a osodir ar wledydd eraill sy'n ymwneud â mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid.

Rhaid i bartneriaid masnachu sydd wedi'u cymeradwyo i allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid i'r DU gydymffurfio ag amodau mewnforio sy'n benodol i wlad a geir yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. Mae diwygiadau rheolaidd i'r amodau hyn yn ofynnol er mwyn ymateb i newidiadau mewn risg, gan gynnwys rheoli masnach yn ddiogel o wledydd sy'n profi brigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid (er enghraifft, Ffliw Adar a Chlwy Affricanaidd y Moch) neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch bwyd.

Mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn darparu bod mewnforion o'r fath yn gyffredinol ddim ond yn cael eu cymeradwyo o wledydd (neu rannau ohonynt) sydd wedi'u rhestru mewn Atodiadau i wahanol ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir ("rhestrau gwledydd cymeradwy"). Mae'r rhestrau gwledydd cymeradwy hyn yn nodi manylion mewn tablau ynghylch pa anifeiliaid/cynhyrchion a ganiateir o ba drydydd gwledydd (neu rannau ohonynt) a'r amodau penodol sy'n gymwys i fewnforion o'r fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn ymadael â'r UE, rhoddwyd y pŵer i ddiwygio'r 'rhestrau gwledydd cymeradwy' i'r Comisiwn Ewropeaidd gan ddefnyddio ei bwerau dirprwyedig. Roedd hyn yn galluogi'r Comisiwn Ewropeaidd i wneud newidiadau'n gyflym ac yn aml drwy ddeddfwriaeth drydyddol, i adlewyrchu newidiadau sy'n berthnasol i fewnforio anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid a allai achosi risgiau bioddiogelwch neu ddiogelwch bwyd. Er enghraifft, brigiad o achosion o glefyd mewn gwlad neu ardal benodol (neu yn yr un modd i adlewyrchu newidiadau i ddileu cyfyngiadau lle mae'r risgiau'n lleihau).

Mae'r diwygiadau a wneir gan y rheoliadau yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud newidiadau yn y dyfodol mewn 'rhestrau gwledydd cymeradwy', gan nodi newidiadau o'r fath mewn dogfen a gyhoeddir at y diben penodol hwnnw, yn hytrach na gwneud newidiadau o'r fath yng nghyfraith yr UE a ddargedwir drwy offeryn statudol bob tro y bydd angen newid.

Mae hyn yn golygu y bydd y broses ar gyfer diwygio rhestrau gwledydd cymeradwy yn y dyfodol yn llai beichus ac yn gyflymach, gyda manteision i fioggiogelwch (fel y gallwn ddelio â digwyddiadau'n gyflymach) ac i'n gallu i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol (pan fydd yn ofynnol i wledydd godi rhwystrau i fasnach yn gyflym unwaith y bydd digwyddiadau wedi'u datrys).

Mae'r pwerau i ddiwygio rhestrau gwledydd cymeradwy yn bwerau datganoledig a dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol all eu harfer, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru (a Gweinidogion yr Alban, mewn perthynas â'r Alban). Mae'r rheoliadau'n caniatáu arfer pwerau o'r fath pan fo hynny'n angenrheidiol neu'n briodol yn amodol ar asesiad o'r risgiau i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd ym Mhrydain Fawr, gan ystyried meini prawf penodol. Bydd yn rhaid i asesiadau risg o'r fath hefyd gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Mae Fframwaith Cyffredin y DU ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid yn gweithredu lle mae fy swyddogion yn dod i benderfyniadau polisi drwy gonsensws â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU ar y materion hyn. Rheolir y swyddogaethau technegol mewn perthynas â rhestrau trydydd gwledydd cymeradwy gan Swyddfa newydd y DU ar gyfer Sicrwydd Masnach Iechydol a Ffytioiechydol.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu ar gyfer Cymru ar faterion lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli; fodd bynnag, yn yr achos hwn rwyf wedi penderfynu rhoi fy nghaniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y rheoliadau hyn mewn perthynas â Chymru.

Y rhesymau dros fy nghaniatâd yw'r angen am gysondeb ledled Prydain Fawr mewn perthynas â rheolaethau fewnforio ar gyfer rheoli ein bioddiogelwch ar y cyd, wrth i nwyddau symud yn rhydd o fewn Prydain Fawr ar ôl eu fewnforio. Yn ogystal, bydd y dull hwn yn galluogi rheoli adnoddau cyffredin, sy'n un o egwyddorion allweddol Fframwaith Cyffredin y DU ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Pe na bawn yn rhoi caniatâd, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth gyfatebol i Gymru. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi; dim ond y broses o gyhoeddi newidiadau i restrau gwledydd cymeradwy sy'n wahanol. Felly, yn yr achos hwn, nid wyf o'r farn y byddai gwneud deddfwriaeth ar wahân i Gymru yn ddefnydd da o amser y Senedd ac adnoddau llywodraeth, sydd wedi etifeddu llawer o swyddogaethau newydd gan yr UE ac sy'n delio ag argyfyngau fel Covid-19, Ffliw Adar ac – yn awr – y rhyfel yn Wcráin.

Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft ar gyfer OS, ac mae'n cael ei osod gerbron y Senedd ar 30 Mawrth 2022. Disgwylir i ddyddiad cychwyn fod ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf, gan ddibynnu ar ba bryd y bydd dadleuon yn cael eu trefnu yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end.

Lesley Griffiths AS/MS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Mewnforio Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid a Gwledydd Cymeradwy (Diwygio) 2022

DYDDIAD 29 Mawrth 2022

GAN Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bydd Aelodau'r Senedd am fod yn ymwybodol fy mod yn rhoi caniatâd i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer i wneud rheoliadau mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Bydd yr Offeryn Statudol (OS) uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 8(1) a (6) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r OS yn gwneud diwygiadau technegol i sawl darn o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gadwyd i gywiro diffygion sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, maent yn gwneud newidiadau i'r prosesau a ddefnyddir i restru trydydd gwledydd gan y DU, mewn perthynas â chyflyrau iechyd a osodir ar wledydd eraill mewn perthynas â mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid.

Bydd yr Offeryn Statudol yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud newidiadau yn yr amodau mewnforio ar gyfer anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid sy'n dod i Brydain Fawr yn y dyfodol, gyda chydysniad Gweinidogion Cymru i bennu newidiadau o'r fath mewn dogfen a gyhoeddir at y diben penodol hwnnw, yn hytrach na gwneud newidiadau o'r fath yng nghyfraith yr UE a ddargedwir drwy offeryn statudol bob tro y bydd angen newid.

Disgwylir i'r rheoliadau gael eu gosod ar ffurf drafft gerbron y Senedd ar 30 Mawrth 2022 i ddod i rym ar 01 Gorffennaf 2022.

WS-30C(6)008 - Rheoliadau Mewnforio Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid a Gwledydd Cymeradwy (Diwygio) 2022

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Crynodeb

Rhaid i bartneriaid masnachu sydd wedi'u cymeradwyo i allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid i Brydain Fawr gydymffurfio ag amodau mewnforio gwledydd penodol sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. Mae angen diwygio'r amodau hyn yn rheolaidd er mwyn ymateb i newidiadau mewn risg, gan gynnwys rheoli masnach yn ddiogel o wledydd lle mae achosion o glefydau anifeiliaid yn codi (er enghraifft, Ffliw Adar a Chlwy Affricanaidd y Moch) neu ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch bwyd.

Ar hyn o bryd, caiff cyfraith yr UE a ddargedwir ei diwygio drwy gyfrwng Offerynnau Statudol. Gan hynny, hyd yn oed pan ddefnyddir gweithdrefn negyddol a phan gaiff y rheol 21 diwrnod ei thorri, mae bwch sylweddol rhwng cael gwybod am risg a rhoi amodau mewnforio ar waith yn gyfreithiol. Mae cyrff masnach a phartneriaid masnachu yn pryderu nad yw'r system ddeddfwriaethol bresennol yn gallu ymateb yn ddigonol.

Mae'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydysyniad Gweinidogion yr Alban (mewn perthynas â'r Alban) a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru), newid amodau mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid sy'n dod i Brydain Fawr, drwy bennu'r newid mewn dogfen a gyhoeddir at y diben penodol hwnnw yn hytrach nag mewn deddfwriaeth. Felly, mae'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenrol gan y Comisiwn Ewropeaidd i ddiogelu iechyd pobl ac anifeiliaid yn cael eu trosglwyddo mewn modd sy'n caniatáu iddynt gael eu harfer yn brydlon ac yn effeithiol.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 31 Mawrth 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.



Nid yw'r Cyngorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Cyngorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Ebrill 2022



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 94

Legislation, Justice and Constitution Committee

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

29 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)


Hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniadau adeiladol i'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil") yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 eich Pwyllgor ar y Bil ar 2 Mawrth 2022.

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 14 Mawrth, rwyf wedi nodi ymatebion i weddill argymhellion y Pwyllgor yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Ni fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi cyflawni'r egwyddorion a'r rhesymu sylfaenol cyn belled ag y bo modd.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i nodi'r ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i gadarnhau i'r Senedd p'un a gafwyd y cydsyniad gofynnol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag adran 128.

Cafwyd cydsyniad gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag adran 128. Ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd yn cadarnhau hyn ar 1 Mawrth.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ddarparu fersiynau drafft i'r Senedd o unrhyw reoliadau sydd i'w gwneud neu eu gosod gerbron y Senedd ar gychwyn y ddarpariaeth berthnasol, neu'n fuan ar ôl hynny, cyn gynted â phosibl a thra bo'r Bil yn cael ei ystyried gan y Senedd yn ystod y Cyfnod 2 o'r Bil er mwyn galluogi craffu mwy llawn ar y pwerau perthnasol.

Ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn. Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael digon o gyfleoedd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau angenrheidiol, ac i sicrhau bod y rheoliadau hynny'n adlewyrchu unrhyw fireinio i'r Bil ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor, nid wyf yn rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i rannu rheoliadau drafft gyda'r Pwyllgor tra bo'r Bil yn destun craffu.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y nodiadau esboniadol i'r Bil yn ei gwneud yn glir, lle defnyddir rhestrau o enghreifftiau mewn adrannau penodol, nad yw rhestrau o'r fath yn hollgynhwysfawr ac na ddylid eu dehongli felly.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r nodiadau esboniadol pan gânt eu hailgyhoeddi ar ôl Cyfnod 2. Byddaf hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw welliannau i'r Bil er mwyn sicrhau eglurder i'r darllenydd.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil i ymrwymo na fydd y pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael ag anghysondebau rhwng deddfwriaeth Cymru a Biliau'r DU; materion gyda Biliau'r DU sy'n gwneud darpariaeth o fewn meysydd datganoledig; neu unrhyw bryderon eraill ynghylch deddfwriaeth y DU sy'n ymdrin ag addysg drydyddol.

Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn. nid bwriad y pwerau i wneud rheoliadau yw cyflawni'r senarios a ddisgrifir.

Argymhelliad 7. Dylid diwygio'r Bil fel bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol cyn cyhoeddi datganiad o dan adran 11.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Ni fydd natur strategol, lefel uchel y blaenoriaethau yr ydym yn bwriadu eu nodi yn y datganiad a gyhoeddir o dan adran 11, yn addas i ymgynghori arnynt yn fy marn i.

Argymhelliad 8. Dylid diwygio'r Bil i'r perwyl bod cyfarwyddydau a wneir o dan adran 19 o'r Bil yn cael eu gwneud drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol,

Argymhelliad 18. Dylid diwygio'r Bil i'r perwyl bod cyfarwyddydau a wneir o dan adran 106 o'r Bil yn cael eu gwneud drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol.

Nid wyf yn derbyn yr argymhellion hyn. Mae'r holl bwerau yn y Bil wedi cael eu hystyried yn drylwyr o ran y modd y mae'r pŵer i gael ei arfer a gweithdrefn briodol y Senedd. Wrth wneud hynny, ystyriwyd natur unrhyw ddarpariaeth bresennol y deilliodd y pŵer ohoni, ond nid yw'r dull hanesyddol o ymdrin â'r pŵer gwreiddiol wedi'i ddwyn ymlaen yn awtomatig os nad ystyriwyd bod gwneud hynny o reidrwydd yn briodol.

Mae'r pŵer yn adrannau 19 a 106 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn mewn perthynas â materion penodol, fel y nodir ar wyneb y Bil. Mae'r cyfarwyddydau hyn yn ymwneud ag un corff a materion penodol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer deddfu cyffredinol o natur ehangach.

Ystyrir bod y gofynion a nodir yn y Bil mewn perthynas â'r gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r cyfarwyddyd, adrodd i'r Senedd bod cyfarwyddyd wedi'i roi a gosod copi o'r cyfarwyddiadau gerbron y Senedd yn ddigonol i sicrhau hygyrchedd a thryloywder y cyfarwyddiadau a roddir i'r Comisiwn o dan adrannau 19 a 106.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol i egluro pam bod cofrestru'n angenrheidiol a pham, os yw'n bosibl rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol eraill drwy delerau ac amodau ariannu, nad yw'n bosibl rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn yr un modd.

Mae'r gofrestr yn angenrheidiol mewn perthynas â darparwyr addysg uwch, sydd nawr yn derbyn cyfran fach yn unig o'u cyllid ar ffurf grantiau rheolaidd y gellir cymhwyso telerau ac amodau iddynt, a'r rhan fwyaf o'u harian cyhoeddus o gymorth i fyfyrwyr.

Pe bai'r gofrestr yn cael ei dileu o'r Bil yna ni fyddai'r Comisiwn yn gallu rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn effeithiol oherwydd y ddibyniaeth hon ar gymorth i fyfyrwyr yn bennaf, yn hytrach na grantiau'r Comisiwn, a byddai'r Bil yn methu â chyflawni nifer o'i amcanion allweddol.

Mae'r gofrestr hefyd yn galluogi darparwyr i gael eu rheoleiddio'n briodol ac yn gymesur waeth beth fo ffynonellau eu cyllid a chydbwysedd cymharol y gwahanol ffynonellau cyllid hyn.

Yn ogystal, mae'r gofrestr yn creu'r opsiwn o ddod â phob darparwr addysg drydyddol ynghyd mewn system reoleiddio gyffredin a chydlynol yn y tymor hir. Nid yw hyn yn flaenoriaeth ar unwaith yng nghyd-destun sefydlu'r Comisiwn a sicrhau bod darparwyr sy'n cael cymorth i fyfyrwyr yn cael eu rheoleiddio'n briodol, ac felly nid yw'n bolisi cyfredol gan y llywodraeth. Fodd bynnag, mae hwn yn fater yr ydym yn agored i'w archwilio ymhellach gyda'r sector drwy ymgynghori ac ymgysylltu.

Argymhelliad 10. Pe bai adran 23 yn parhau yn y Bil, dylid diwygio'r Bil i'r perwyl y dylai'r categorïau cofrestru y cyfeirir atynt gan y Gweinidog at ddiben adran 23 gael eu nodi ar wyneb y Bil. Dylid diwygio'r Bil hefyd i ddarparu ar gyfer pŵer gwneud rheoliadau i alluogi categorïau pellach (neu newidiadau i gategorïau) i gael eu pennu mewn rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 3, fy mwriad yw sicrhau ein bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyd-lunio'r rheoliadau angenrheidiol i gefnogi gweithredu'r Bil. Er fy mod yn glir o ran fy mwriad polisi, fel y nodir yn y datganiad o fwriad polisi, hoffwn weld hynny'n cael ei adolygu a'i fireinio drwy ymgysylltu a thrafod â rhanddeiliaid.

Argymhelliad 12. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adrannau 39 a 41 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Ar ôl ystyried y darpariaethau hyn ymhellach, rwy'n cytuno ei bod yn briodol iddynt fod yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd a byddaf yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

Argymhelliad 13. O ystyried esboniad y Gweinidog ynghylch lefel y manylion y gellir eu cynnwys mewn datganiad a wneir o dan adran 70 o'r Bil, credwn y dylid diwygio'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau o'r fath gael eu gosod gerbron y Senedd.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant i ddarparu ar gyfer gosod y datganiad gerbron y Senedd. Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i'r datganiad fod yn ddarostyngedig i weithdrefn y Senedd.

Argymhelliad 15. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adrannau 78(1)(c) a 78(2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Ar ôl ystyried y darpariaethau hyn ymhellach, rwy'n cytuno ei bod yn briodol iddynt fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd a byddaf yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

Argymhelliad 16. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 105(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol.

Nodaf yr argymhelliad hwn, er fy mod yn archwilio gwelliant mewn ymateb i argymhelliad 30 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.

Argymhelliad 19. Dylid diwygio'r Bil fel bod gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy, at ddiben Rhan 4 o'r Bil, yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. O ran y fanyleb prentisiaethau, mae wedi bod yn fwriad ers rhai blynyddoedd i ddefnyddio'r cyfle deddfwriaethol sylfaenol cynharaf i gywiro'r ddarpariaeth yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, sy'n ymdrin â phennu safonau prentisiaeth.

Roedd y Ddeddf hon yn efelychu'r gweithdrefnau ar gyfer Lloegr ar gyfer Cymru (diddymwyd y darpariaethau hynny ar gyfer Lloegr yn 2015) er bod strwythur rheoleiddio gwahanol yng

Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod yna swyddogaeth gwneud gorchmynion nad oedd ei hangen yng nghyd-destun Cymru gan ei bod yn ymwneud â chymeradwyo gweithredoedd corff anllywodraethol nad oedd yn bodoli yng Nghymru.

Mae'r fanyleb, i bob pwrpas, yn rhestr hir o gymwysterau manwl iawn a meini prawf gradd. Mae o natur dechnegol ac mae ei ddatblygiad yn dibynnu ar wybodaeth arbenigol am y sector. Mae cymwysterau'n symud yn gyflym a gall yr hyn y dylid ei gynnwys yn y rhestr newid yn aml.

Mae hwn yn weithred weinyddol dechnegol a manwl gan y Bwrdd Gweithredol y mae angen ei diweddarau'n gyflym yn aml er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn gyfredol. Mae beichiau gweithdrefnol ychwanegol yn arwain at oedi i'r broses gwblhau/diweddarau. Nid yw hynny er budd gorau prentisiaid.

Nid wyf o'r farn ei bod arfer gweinyddu da i gynnal proses ddiangen o feichus sy'n atal ystwythder ac sy'n gosod rhwystrau i sicrhau bod y system brentisiaethau yn ymateb i anghenion Cymru, yn cael ei chadw'n gyfoes ac yn addas i'r diben bob amser.

Argymhelliad 22. Os yw'n cadw'r pŵer presennol yn adran 128(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 drwy adran 135 o'r Bil yn rhywbeth dymunol ac nid yn hanfodol i weithrediad y Bil, dylid diwygio'r Bil i'r perwyl bod y pŵer yn adran 128(2) o Ddeddf 1998 yn cael ei ddiddymu, yn hytrach na'i ehangu.

Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn, er fy mod yn archwilio gwelliant mewn ymateb i argymhelliad 34 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

29 Mawrth 2022

Annwyl Peredur,

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 04 Mawrth 2022.

Croesawaf y casgliad bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil. Sylwaf fod y Pwyllgor yn teimlo na all ddod i gasgliad ynghylch a yw'r adnoddau'n ddigonol ac yn rhesymol i gyflawni'r ddeddfwriaeth oherwydd nad yw'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn gallu mesur y costau i gyrrff eraill.

Os rhoddir costau ychwanegol ar gyrrff eraill, rhagwelir y byddai hyn o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth. Roeddwn am sicrhau'r Pwyllgor, yn unol â'r arfer safonol, y byddai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn yn cael ei hategu gan Aseiad Effaith Rheoleiddiol lle bo'n berthnasol. Byddai hyn yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau, gan gynnwys y costau i gyrrff eraill.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn yr Atodiad ac er na fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn, rwy'n gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 100
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

Argymhelliad 1. Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi nodi bod angen rhagor o wybodaeth ariannol. Pe bai newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor i ystyried y newidiadau hynny'n fwy manwl.

Nodaf yr argymhelliad hwn. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddarau yn unol â'r weithdrefn safonol ar ôl Cam 2. Caiff ei ddiweddarau gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ac yng ngoleuni argymhellion y Pwyllgor. Bydd yr amcangyfrifon cost hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf. Ar hyn o bryd, nid wyf yn rhagweld y bydd hyn yn arwain at newidiadau sylweddol i'r ffigurau cyffredinol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan nad yw niferoedd staff disgwylidig y Comisiwn, prif elfen y gost gyffredinol, wedi newid ers mis Tachwedd. Rwy'n cydnabod awydd y Pwyllgor i archwilio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau, ac felly byddaf yn rhannu copi gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl Cyfnod 2 er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried y wybodaeth ddiweddaraf a gofyn unrhyw gwestiynau dilynol cyn Cyfnod 3.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach yn dadansoddi ac yn amcangyfrif buddion cost y Bil. Dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y buddion hyn, sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni.

Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Nodir amrywiaeth o fanteision heb eu meintoli yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd y manteision a fydd yn deillio o'r diwygiadau yn arwain at ganlyniadau go iawn, fel gwell canlyniadau addysgol i ystod ehangach o ddysgwyr ac, yn fwy cyffredinol, gweithlu mwy medrus sy'n sicrhau mwy o gynhyrchiant yn yr economi.

Mae manteision unrhyw ddiwygiadau addysg yn heriol i'w mesur ac nid yw llawer o'r costau, yn enwedig y rhai a allai gael eu hysgwyddo gan gyrff eraill, yn hysbys ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl nodi manteision cost manwl ar ffurf feintiol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd y manteision yn cael eu tracio a'u dadansoddi ar ôl gweithredu a bydd y Comisiwn yn cael ei asesu ar ei gyfraniad i'r nodau hyn a'r cerrig milltir cenedlaethol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymaint o eglurder â phosibl am debygolrwydd y risg y gallai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol aiddosbarthu sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach o ganlyniad i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, difrifoldeb ei effaith ariannol os caiff ei wireddu a goblygiadau ymarferol aiddosbarthu ar Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn newydd.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y risg o aiddosbarthu yn isel gan nad yw'r newidiadau a gynigir yn y Bil yn newid graddau'r 'rheolaeth' dros ddarparwyr addysg drydyddol unigol a fydd, fel ar hyn o bryd, yn parhau'n gyrff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu eu polisi cyffredinol eu hunain. Mae'r Bil yn ymwneud â rheoleiddio darparwyr cofrestredig yn gymesur yn hytrach na rheoli sefydliadau.

Mae'r Bil yn ceisio sefydlu corff newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwyllo a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Mae dau brif newid a fydd yn effeithio ar ddarparwyr addysg drydyddol mewn cysylltiad ag arian cyhoeddus yng Nghymru:

Newid yn y fframwaith rheoleiddio – mae'r Bil yn cynnig cyflwyno system gofrestru. Mae hyn yn debyg i newidiadau a wnaed yn Lloegr ar ôl sefydlu'r Swyddfa Myfyrwyr. Mae'r corff hwn eisoes wedi'i ddsbarthu i'r sector llywodraeth ganolog gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a bydd yn caniatáu i'r Comisiwn sicrhau goruchwyliaeth reoleiddiol o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n elwa ar ddynodi eu cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Newid yn y berthynas gyllido – mae'r Bil yn cynnig cyflwyno Cytundebau Canlyniadau. Dyma'r modd y bydd y Comisiwn yn trafod gyda darparwyr a gyllidir y gweithgareddau y byddant yn ymgymryd â hwy wrth gyflawni amcanion y Comisiwn yn ei Gynllun Strategol cymeradwy.

Bwriedir i'r Bil sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cynnal annibyniaeth sefydliadau addysg bellach ac uwch a diogelu'r swm sylweddol o arian cyhoeddus a fuddsoddir yn y sector addysg drydyddol.

O ran effaith ailddosbarthu, pe bai'r trefniadau rhwng y Comisiwn a'r sefydliadau hyn yn newid i'r graddau y gallai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol benderfynu bod y 'rheolaeth' o fewn y sector cyhoeddus h.y. bod gan y sector cyhoeddus y gallu i bennu diben neu raglen gyffredinol y sefydliadau hyn, byddent yn cael eu hailddosbarthu fel sefydliadau sy'n perthyn i'r sector cyhoeddus a byddai o leiaf rhyw elfen o'u trafodion a'u balansau yn cael ei chynnwys ym Mantolen Gyfunol Llywodraeth Cymru. Byddai hynny'n dibynnu a ydynt yn cael eu hystyried yn gyrff marchnad ai peidio, h.y. yn ariannu 50% neu fwy o'u costau gweithredol o 'werthiannau':

Os nad yw'r sefydliadau'n bodloni'r meini prawf i fod yn gyrff marchnad, byddai holl asedau a rhwymedigaethau'r sefydliadau hyn "ar" fantolen gyfunol Llywodraeth Cymru, byddai'n rhaid cynllunio, rheoli ac adrodd ar gyllidebau ar gyfer y sefydliadau ar sail adnoddau net a dim ond pan fydd y sefydliadau'n mynd i'r gwariant ac nid wrth dalu y byddai cyllid yn sgorio yn erbyn y gyllideb.

Os yw'r sefydliadau'n bodloni'r meini prawf i fod yn gyrff marchnad, byddant yn Gorfforaethau Anariannol Cyhoeddus a bydd y gyllideb yn cael ei hadrodd ar sail cyllid allanol h.y. mae'r gyllideb yn dangos yr holl drafodion gyda'r sefydliadau wrth dalu ac, os byddant cymryd unrhyw fenthyciadau, bydd y cyllid yn cael ei adrodd yn y gyllideb.

Os nad yw'r sefydliadau'n gyrff marchnad, byddent yn dod o fewn sector y llywodraeth ganolog ac ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol i Lywodraeth Cymru ei hun at ddibenion cyllidebu a chyfrifyddu. Byddai angen cysoni'r sefydliadau, eu dynodi yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig), h.y. byddai adnoddau llawn y sefydliadau hyn yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y cynigion cyllidebol ac yn cael eu pleidleisio gan y Senedd a'u cydgrynhoi yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru os ydynt yn bodloni'r trothwy perthnasedd blynyddol.

Os yw'r sefydliadau'n gyrff marchnad, byddent yn cael eu dosbarthu fel Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol. Ni fyddent yn cael eu cysoni, h.y. ni chânt eu dynodi, er y byddai angen iddynt ddarparu rhywfaint o wybodaeth ariannol ar gyfer Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu'r Comisiwn unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Byddwn yn ymgysylltu â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i'w hysbysu pryd y bydd hynny'n

digwydd fel y gallant gynnwys y Comisiwn yn eu blaengynllun, a fydd yn dangos i ni yr amserlen ar gyfer y dosbarthu ffurfiol.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil ac yn diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ddangos, er eglurder, i ba gostau y mae'r amrywiad +/- 30 y cant yn gymwys.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn ceisio cynnwys yr wybodaeth hon pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn nodi pa gostau sy'n destun amrywiad o hyd at 30 y cant a pham. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud hefyd i weld ai'r ganran hon ar gyfer yr amrywiad posibl yw'r mwyaf priodol i'w defnyddio ac, os na, pa ganran y dylid ei defnyddio.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu gwybodaeth fanwl am yr aelodaeth, y cynllun gwaith a'r canlyniadau a fwriedir yn sgil y grŵp gweithredu a strategaeth. Gan gynnwys lle bydd gwaith y grŵp hwn yn arwain at wneud gwelliannau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a beth allai cwmpas y gwelliannau hynny fod.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Sefydlaeth y Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) i weithio gyda mi, Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen a swyddogion Llywodraeth Cymru i ddarparu goruchwyliaeth strategol a chynghor arbenigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni diwygiadau AHO a datblygu polisi cysylltiedig, trefniadau gweithredu a sefydlu'r Comisiwn. Defnyddir y Bwrdd hefyd fel llwyfan i godi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau polisi ym maes addysg drydyddol ac ymchwil y bwriedir eu cyflwyno mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol ac i ystyried y potensial iddynt effeithio ar ddysgu ôl-16 yng Nghymru.

Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cynrychioli rhanddeiliaid allanol yr effeithir arnynt gan y newidiadau deddfwriaethol a diwylliannol arfaethedig ac mae gan bob un ohonynt ddiddordeb personol mewn cyflawni'r diwygiadau'n llwyddiannus. Mae'n ofynnol i'r aelodau ymgymryd â rôl ragweithiol a chyfranogol gan ddarparu cynghor, arweiniad a her adeiladol ar y gwaith arfaethedig sydd ei angen i gyflawni'r diwygiadau a chefnogi'r broses o drosglwyddo'n ddidrafferth i'r Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys cyfleu ein gweledigaeth ar gyfer newid, cynghori ar y dyletswyddau a'r amcanion strategol hirdymor, a thynnu sylw at risgiau posibl i gyflwyno'r Comisiwn yn llwyddiannus ac i'r sector ôl-16 ehangach wrth ei weithredu.

Hyd yma, mae'r grŵp wedi cydweithio i ystyried meysydd sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau strategol yn y Bil gan gynnwys yr egwyddorion ansawdd lefel uchel, y posibilrwydd o fwy o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, a dyletswydd i gefnogi Dysgu Gydol Oes. Mae'r blaengynllun gwaith yn parhau i fod yn hyblyg ac yn cael ei flaenoriaethu yn ôl yr angen. Bydd trafodaethau yn y dyfodol yn cynnwys y Cynllun Cyflogadwyedd, egwyddorion ymgysylltu â dysgwyr, cyflwyno a datblygu darpariaeth Gymraeg a gwelliannau arfaethedig i'r Bil yng Nghyfnod 2 maes o law. Ceir rhestr o aelodau allanol y Bwrdd yn Atodiad B.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am ystyriaethau'r grŵp gweithredu a strategaeth ynghylch lleoliad y Comisiwn a nifer y staff, gan gynnwys unrhyw effeithiau ariannol sy'n codi yn sgil gwaith y grŵp.

Nodaf yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, mae Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth AHO yn darparu goruchwyliaeth strategol a chynngor arbenigol, ac nid yw'n fwiad i'r Bwrdd gymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau gweithredol. Fel sy'n arferol, mae Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu i oruchwyllo ochr weithredol y broses o sefydlu'r Comisiwn. Mae aelodaeth Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CCAUC ac Ochr yr Undebau Llafur. O dan Fwrdd y Rhaglen, ceir nifer o ffrydiau gwaith sy'n ystyried gwahanol elfennau ar sefydlu'r Comisiwn. Y ffrydiau gwaith hyn yw Deddfwriaeth, TG, Adnoddau Dynol, Lleoliad a Chyllid a Llywodraethu. Wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg ar leoliad a niferoedd staffio a'r effaith ariannol ddilynol, bydd unrhyw wybodaeth wedi'i diweddarau yn cael ei chynnwys pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio yn dilyn Cam 2.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwaith pellach ar strategaeth leoli, yn enwedig effaith COVID-19 ar unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hynny, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n ymwneud â lleoliad y Comisiwn newydd. Mae'n un o ffrydiau gwaith allweddol y rhaglen weithredu. Wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg, bydd unrhyw wybodaeth wedi'i diweddarau yn cael ei chynnwys pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr effaith ariannol sy'n gysylltiedig â defnyddio ymgynghorwyr TG i drosglwyddo systemau a data Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'r Comisiwn newydd, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn ceisio cynnwys yr wybodaeth hon pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2. Fel y dywedais yn y Pwyllgor, bydd unrhyw ddefnydd o ymgynghorwyr yn cael ei adolygu'n barhaus ac nid yw'r rhaglen wedi diystyru cyflogi staff TG parhaol os yw hynny'n opsiwn gwell o ran gwerth am arian. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn egluro, cyn belled ag y bo modd, effaith ariannol a rhesymeg seilio costau a ragwelir ar ddefnyddio ymgynghorwyr TG.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau sy'n gysylltiedig â chyrrff eraill yn sgil y ddeddfwriaeth hon. Dylid creu'r costau ac unrhyw oblygiadau ariannol drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt a dylid cynnwys y manylion mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Ni fu'n bosibl mesur unrhyw gostau ychwanegol posibl i gyrff eraill gan y bydd hyn yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn unwaith y caiff ei sefydlu. Byddai unrhyw ragdybiaethau neu amcangyfrifon a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn achub y blaen ar y penderfyniadau hyn ac ni fyddent yn darparu ar gyfer amcangyfrifon cywir o unrhyw gostau posibl. Fel y dywedais yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 22 Rhagfyr 2021, rwy'n cydnabod bod risg posibl y gallai'r bil osod costau ychwanegol ar

y darparwyr yn y sector. Rheolir y risg hon drwy fonitro gofalus ac ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy Fwrdd Gweithredu'r Strategaeth, er mwyn sicrhau bod unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir oherwydd y Bil yn gwbl angenrheidiol ac yn cael eu cadw i'r lleiafswm. Os gosodir costau ychwanegol ar gyrff eraill, rhagwelir y byddai hyn o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth a fyddai, lle bo'n berthnasol, yn cael ei hategu gan Aseiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau, gan gynnwys y costau i gyrff eraill.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnwys adolygiad ôl-weithredu o'r holl Filiau sydd gerbron y Senedd fel arfer safonol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y caiff gwerth am arian ei asesu.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae adolygiadau ôl-weithredu yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar gyfer meysydd gwaith yn y dyfodol o ran cynnal arfer da a lle y gellid gwneud gwelliannau.

Aelodau allanol Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth AHO

Sefydliad	Sector a Gynrychiolir
Addysg Oedolion Cymru	Dysgu Oedolion
Gyrfa Cymru	Pawb
CBI Cymru	Diwydiant
Cadeiryddion Prifysgolion Cymru	Addysg Uwch
Colegau Cymru	Addysg Bellach
Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Addysg Uwch
CYDAG	Chweched Dosbarth
Cyngor y Gweithlu Addysg	Rheoleiddiwr
Estyn	Rheoleiddiwr
Y Ffederasiwn Busnesau Bach	Diwydiant
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Addysg Uwch
Sefydliad y Cyfarwyddwyr	Diwydiant
Sefydliad Dysgu a Gwaith	Dysgu Seiliedig ar Waith
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Pawb
Cenhadaeth ein Cenedl: Bwrdd Newid	Chweched Dosbarth
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru	Dysgu Seiliedig ar Waith
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr	Partner Cymdeithasol
Cymwysterau Cymru	Rheoleiddiwr
Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd	Rheoleiddiwr
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru	Dysgu Gydol Oes Chweched Dosbarth
Undeb Prifysgolion a Cholegau	Partner Cymdeithasol
Prifysgolion Cymru	Addysg Uwch
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Dysgu Gydol Oes Chweched Dosbarth

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

29 Mawrth 2022

Annwyl Jayne,

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniadau adeiladol i'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil") yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 eich pwyllgor ar y Bil ar 4 Mawrth 2022.

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 14 Mawrth, rwyf wedi nodi ymatebion i weddill argymhellion y Pwyllgor yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Ni fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y pwyllgor yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi cyflawni'r egwyddorion a'r rhesymu sylfaenol cyn belled ag y bo modd.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i nodi'r ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 1. Bod y Senedd yn derbyn egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

Rwy'n nodi ac yn croesawu'r argymhelliad hwn a chefnogaeth y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Bil. Hoffwn ddiolch i bob aelod o'r Pwyllgor am graffu'n fanwl ac yn drylwyr ar y Bil.

Argymhelliad 2. Bod y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddarau i restru'r amcanion polisi ar gyfer y Bil a sut y mae darpariaethau'r Bil yn ceisio eu bodloni.

Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn a byddaf yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o ehangu'r Memorandwm Esboniadol, pan gaiff ei ddiweddarau ar ôl Cyfnod 2, i roi mwy o eglurder ar y mater hwn.

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir i'r Pwyllgor, y Comisiwn a'r sector ehangach sut y mae'n diffinio parch cydradd, sut olwg fyddai ar gyflawni parch cydradd, a sut y mae'n disgwyl i'r sector ôl-16 gyflawni hyn.

Bydd y diwygiadau a ddaw yn sgil y Bil yn fodd i gyflawni parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol ac academiaidd mewn nifer o ffyrdd:

- Yn gyntaf, bydd dod â phrifysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith at ei gilydd o dan un cyllidwr a rheoleidiwr yn sicrhau bod prif ddarparwyr llwybrau galwedigaethol ac academiaidd yn cael eu hystyried o dan un ymbarél polisi. Drwy hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant, bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn eu hannog i beidio â bod yn gystadleuol a all greu argraff o ddiffyg parch cydradd rhwng gwahanol lwybrau cymwysterau.
- Yn ail, bydd gan y Comisiwn ddyletswydd strategol i hyrwyddo "amrywiaeth o lefelau astudio a mathau o gymhwyster", "amrywiaeth o leoliadau addysgol a dulliau astudio" a "hwyluso symudiadau dysgwyr" rhwng gwahanol rannau o'r system. Bydd angen i'r Comisiwn ystyried yr un parch at yr holl ddarpariaeth a llwybrau cymwysterau y mae'n eu cyllido.
- Yn drydydd, rydym yn bwriadu i unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm 16-19 ddilyn ymlaen o'r diwygiadau i'r Cwricwlwm i Gymru drwy sicrhau bod gan fyfyrwyr a dysgwyr ystod eang o opsiynau ar gyfer dilyniant o 16 oed ymlaen o ran gwybodaeth, profiadau a sgiliau academiaidd a galwedigaethol sy'n datblygu dinasyddion brwdfrydig, cyflogadwy ac entrepreneuraid.

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ystyried y materion a godir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol cyn trafodion Cyfnod 2.

Derbyniaf yr argymhelliad hwn a byddaf yn cyhoeddi Asesiad Diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Argymhelliad 5. Bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor a Phrifysgolion Cymru ynghylch pam mae'n credu nad oes gan Ddeddf y Farchnad Fewnol oblygiadau i'r Bil hwn.

Rwyf wedi ystyried darpariaethau'r Bil yng ngoleuni Deddf y Farchnad Fewnol, ac nid wyf o'r farn bod yna oblygiadau i'r Bil hwn.

Argymhelliad 6. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau i Atodlen 1 yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru bod yn rhaid iddynt roi sylw i'r angen i sicrhau bod y Bwrdd (yn ei gyfanrwydd) yn adlewyrchu ehangder y ddarpariaeth addysg ac ymchwil, ac amrywiaeth Cymru. Dylai hyn gwmpasu penodi pob aelod i'r Comisiwn, gan gynnwys aelodau cyswllt.

Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn bod angen gwelliant i'r Bil. Yn gyntaf, fel penodiadau cyhoeddus bydd y rhain yn bodloni'r amddiffyniadau presennol mewn perthynas â chydreddoldeb ac amrywiaeth a Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y llywodraeth ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ail, mae Atodlen 1 (paragraff 2(2)) yn darparu ar gyfer rhestr o sgiliau a phrofiadau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth benodi aelodau'r Bwrdd. Ar hyn o bryd, rwy'n ystyried gwelliannau i ehangu'r rhestr o brofiadau a nodir.

Yn drydydd, wrth fabwysiadu dull gweithredu ar draws y wlad a'r system drwy'r bil a sefydlu'r comisiwn, rydym yn symud oddi wrth (risgiau) dull seilo. Mae'r dull a nodir yn Atodlen 1 yn adlewyrchu hyn, a'r bwriad yw darparu ar gyfer Bwrdd sy'n cynrychioli anghenion y sector cyfan. Ni fwriedir i aelodau'r Bwrdd gael eu penodi'n gynrychiolwyr ar gyfer y sectorau, sefydliadau neu ddarparwyr unigol traddodiadol. Er fy mod yn cydnabod y bwriad sy'n sail i'r argymhelliad hwn, rwy'n pryderu bod y dull y mae'n ei argymhell yn peryglu atgyfnerthu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gynrychiolwyr unigol ar gyfer pob un o'r sectorau traddodiadol.

Argymhelliad 7. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynyddu cynrychiolaeth gweithwyr a dysgwyr ar y Comisiwn, ac egluro disgwyliad y Llywodraeth yn y Memorandwm Esboniadol y dylai'r Comisiwn geisio mwy na'r isafswm a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i'r argymhelliad hwn ond nid wyf yn derbyn yr angen i gyflwyno gwelliant. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer lefel aelodaeth sylfaenol o ran aelodau cyswllt, ac mae'r opsiwn yno o hyd i ddarparu ar gyfer nifer uwch o aelodau o'r fath.

Fel rhan o'r broses o ddiweddarau'r Memorandwm Esboniadol yn dilyn Cyfnod 2, fe ystyriaf opsiynau ynghylch amlinellu'r disgwyliadau gan y Comisiwn o ran mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn unig.

Argymhelliad 8. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi hawliau pleidleisio i'r aelodau cyswllt dysgwyr a gweithwyr ar y Comisiwn.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd cynnwys aelodau cynghori ar y Bwrdd ('aelodau cyswllt') o blith dysgwyr, undebau llafur staff ac undebau llafur y gweithlu addysg drydyddol yn ehangach, yn golygu bod cyfle i'r sawl y mae sefydlu'r Comisiwn yn effeithio fwyaf arnynt gael dylanwadu ar y Bwrdd a'i gynghori.

Un o brif fanteision peidio â rhoi hawliau pleidleisio i aelodau cyswllt ar y Comisiwn yw ei fod yn osgoi gwrthdaro buddiannau drwy wahaniaethu rhwng y gweithgareddau sy'n ofynnol gan yr unigolion hynny fel aelod o'r Comisiwn a gweithgareddau ehangach undeb llafur, yr NUS neu gorff sy'n cynrychioli dysgwyr. Gallai rhoi pleidlais i aelodau cynghori'r Bwrdd greu gwrthdaro buddiannau.

Er na allant bleidleisio'n ffurfiol, eu rôl werthfawr fydd dylanwadu ar y Bwrdd a'i gynghori, gan gynrychioli safbwyntiau'r gweithlu a dysgwyr. Er mwyn sicrhau cydbwysedd sgiliau a chynrychiolaeth o fewn y Bwrdd, ar hyn o bryd mae'r aelodau cyswllt yn ychwanegol at nifer sylfaenol y Bwrdd.

Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y broses benodi ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn cynnwys proses cyn penodi gan bwyllgor perthnasol y Senedd.

Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn a byddaf yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argymhelliad. Nid wyf o'r farn bod angen gwneud unrhyw ddarpariaeth ar wyneb y Bil i ddarparu ar gyfer y mater hwn.

Argymhelliad 10. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd strategol i hyrwyddo cydweithio a chystadleurwydd ym maes gwaith ymchwil ac arloesi.

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad hwn ac rwyf eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant yn y maes hwn ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid.

Argymhelliad 11. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys ymchwilwyr yn adran 5(2) ynghylch gallu'r gweithlu addysg drydyddol ac ymchwil.

Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn ac rwyf wrthi'n ystyried y mater ymhellach.

Argymhelliad 12. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd gyffredinol i ddiogelu ymreolaeth sefydliadol darparwyr addysg drydyddol.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Er bod y Bil eisoes yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n glir ynghylch ymreolaeth darparwyr addysg drydyddol o ran eu trefniadau llywodraethu a'u rheolaeth, rwy'n nodi barn rhanddeiliaid a'r Pwyllgor ac rwyf eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant yn y maes hwn.

Argymhelliad 13. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu rhyddid academiaidd y tu hwnt i ddarpariaeth addysg uwch i gynnwys gwaith ymchwil ac arloesi, ac, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol yn briodol, ehangu darpariaeth ym mhob lleoliad addysg drydyddol arall.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r mesurau diogelu a ddisgrifir fel 'rhyddid academiaidd' o dan yr adran hon yn ymwneud â materion penodol, gan gynnwys rhyddid darparwyr i benderfynu ar gynnwys cyrsiau addysg uwch, y dulliau addysgu ac asesu, a phwy gaiff eu derbyn, ynghyd â pha staff academiaidd a benodir. Byddai'r pwynt olaf hwn yn cynnwys staff a benodir at ddiben ymchwil ac arloesi.

Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau penodol eraill yn briodol i ymchwil ac arloesi nac i fathau eraill o addysg drydyddol. Er enghraifft, yn achos llawer o gyrsiau addysg bellach, nid oes 'rhyddid academaidd' mewn perthynas â'u hasesiadau, gan mai cyrff dyfarnu cymwysterau sy'n penderfynu arnynt, a bod cynnwys llawer o gyrsiau addysg bellach yn ddibynnol ar ofynion cwricwla lleol, ac mae'r ddwy elfen hon yn anghyson ag adran 15(2)(a).

Caiff penderfyniadau ynghylch pwy i'w derbyn ar gyfer cyrsiau addysg bellach neu brentisiaethau eu gwneud weithiau ar sail penderfyniadau polisi a wneir gan y llywodraeth (a'r Comisiwn yn y dyfodol), yn dibynnu ar gyllid neu gynnydd, a byddai hyn yn anghyson ag adran 15(2)(b).

Yn ogystal, caiff staff addysgu yn y sector addysg bellach eu rheoleiddio gan Gyngor y Gweithlu Addysg, sy'n anghyson ag adran 15(2)(c).

Argymhelliad 14. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod rhyddid academaidd yn cwmpasu academyddion unigol, o ran eu haddysgu a'u gwaith ymchwil.

Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i'r argymhelliad hwn ond nid wyf yn ystyried bod angen gwelliant. Mae adran 16 yn darparu ar gyfer rhyddid academaidd academyddion unigol ar safleoedd darparwyr addysg drydyddol sy'n darparu addysg uwch i gwestiynu a phrofi gwybodaeth a ddaw i law ac i gyflwyno syniadau dadleuol ym mha weithgaredd bynnag yr ymgwymerir ag ef.

Argymhelliad 15. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r ddyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol Gymraeg i adlewyrchu uchelgais Cymraeg 2050 a rôl bwysig y Comisiwn wrth helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr. Mae'n rhaid i'r ddyletswydd ar y Comisiwn fod yn gryfach a mynd ymhellach nag "ateb galw rhesymol".

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn ac yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor, rwyf eisoes yn ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant i'r ddyletswydd strategol hon, yn amodol ar nodi dim canlyniadau anfwriadol.

Argymhelliad 16. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 fel bod y ddyletswydd strategol i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hehangu i gynnwys hyrwyddo gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor, rwyf eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer gwelliant.

Argymhelliad 17. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi sut y bydd y Comisiwn yn gweithio ar y cyd ac yn strategol â'r Coleg Cymraeg ar gynllunio a chyflwyno darpariaeth Gymraeg, er mwyn osgoi posibilrwydd dyblygu.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac rwyf, yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor, eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer gwelliant.

Argymhelliad 18. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo llais y dysgwr.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac rwyf eisoes, yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid, ac adroddiad y Pwyllgor, yn ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau bod pwysigrwydd barn dysgwyr yn cael ei gynnwys yn y dyletswyddau strategol.

Argymhelliad 19. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd strategol partneriaeth gymdeithasol ar y Comisiwn.

Rwy'n cydnabod, ac yn cytuno â'r bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, a byddaf yn ystyried a ellir cyflwyno gwelliant priodol sy'n gosod dyletswydd ar y Comisiwn mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol gan roi ystyriaeth lawn i'r cynigion ar gyfer y Bil Partneriaeth Gymdeithasol sydd ar y gweill.

Argymhelliad 20. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddiwygio adran 13 o'r Bil er mwyn sicrhau na ellir newid cynllun strategol y Comisiwn heb gytundeb y Comisiwn.

Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn a byddaf yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Argymhelliad 21. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddiwygio adran 19 o'r Bil i sicrhau bod cyfarwyddydau cyffredinol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud drwy Orchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r holl bwerau yn y Bil wedi cael eu hystyried yn drylwyr o ran y modd y mae'r pŵer i gael ei arfer a gweithdrefn briodol y Senedd. Wrth wneud hynny, ystyriwyd natur unrhyw ddarpariaeth bresennol y deilliodd y pŵer ohoni, ond nid yw'r dull hanesyddol o ymdrin â'r pŵer gwreiddiol wedi'i ddwyn ymlaen yn awtomatig os nad ystyriwyd bod gwneud hynny o reidrwydd yn briodol.

Mae'r pŵer yn adran 19 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn mewn perthynas â materion penodol, fel y nodir yn adran 19. Mae'r cyfarwyddyd hyn yn ymwneud ag un corff a materion penodol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer deddfu cyffredinol o natur ehangach.

Ystyrir bod y gofynion a nodir yn y Bil mewn perthynas â'r gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r cyfarwyddyd, adrodd i'r Senedd bod cyfarwyddyd wedi'i roi a gosod copi gerbron y Senedd yn ddigonol i sicrhau hygyrchedd a thryloywder y cyfarwyddydau a roddir i'r Comisiwn o dan adran 19.

Argymhelliad 22. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu dull mwy cyson ac eang o ymdrin â'r dyletswyddau cyfle cyfartal ac ehangu mynediad ar gyfer pob rhan o'r sector ôl-16, ac nid dim ond y darparwyr hynny sy'n gorfod cofrestru.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliannau mewn perthynas â chyfle cyfartal.

Argymhelliad 24. Bod y Gweinidog yn rhoi eglurder llwyr ynghylch a fydd corff cenedlaethol yn cael ei sefydlu ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.

Fy mwriad yw symud oddi wrth Gorff Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Oedolion yng Nghymru. Mae'r holl ddarparwyr dysgu oedolion a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Prif Weithredwr a Chadeirydd Dysgu Oedolion Cymru, wedi cael gwybod am fy mhenderfyniad.

Mae pob un ohonynt yn cydnabod bod ystyriaethau polisi wedi symud ymlaen ers i gorff cenedlaethol gael ei ystyried yn 2019 drwy gyflwyno'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Rwyf wedi cymeradwyo £2m o gyllid, a chylch gorchwyl ar gyfer grŵp allanol i ddatblygu'r adolygiad o addysg oedolion, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen 2 flynedd o gydgyssylltu cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 15 Mawrth dan gadeiryddiaeth Sue Pember o Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, awdur yr adroddiad System Dysgu Gydol Oes Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd. Bydd rôl y Cadeirydd yn cael ei chylchdroi wedi hynny er mwyn sicrhau cynwysoldeb ar draws y sector.

Rwy'n falch bod rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Dysgu Oedolion Cymru, y Rhwydwaith Partneriaeth Dysgu Oedolion, Addysg Bellach, Addysg Uwch a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, ymhlith eraill, yn dod at ei gilydd i groesawu'r cyfeiriad hwn.

Argymhelliad 25. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd gyllido gytbwys ar wyneb y Bil.

Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn, er fy mod o'r farn y bydd y gwelliant rwyf yn ymchwilio iddo mewn ymateb i argymhelliad 26 yn darparu'r sicrwydd a geisir yn yr argymhelliad hwn, ond fe ystyriaf y mater ymhellach.

2.	09/09/2021	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (cyfeirnod: WG21-77)	Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Mangre Cylchol yn ystod y Pandemig COVID-19) (Cymru) (Dirymu) 2021	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
3.	14/09/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1042 (Cy. 244)	Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Atal Dros Dro: Cludo, Storio a Gwaredu Cyrff Meirw etc.) (Cymru) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
4.	19/09/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1063 (Cy. 250)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
5.	20/09/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1064 (Cy. 251)	Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 3) (Cymru) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020

<i>Dyddiad gwnaed</i>	<i>Math</i>	<i>Teitl</i>	<i>Deddf(au) galluogi</i>	
6.	01/10/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1109 (Cy. 265)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
7.	06/10/2021	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1119 (Cy. 271)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
8.	08/10/2021	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1126 (Cy. 273)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
9.	08/10/2021	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1131 (Cy. 274)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
10.	20/10/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (cyfeirnod: WG21-88)	Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) (Rhif 3) 2021	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
11.	29/10/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1212 (Cy. 303)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
12.	09/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1247 (Cy. 319)	Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021	Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000
13.	09/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1248 (Cy. 320)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

<i>Dyddiad gwnaed</i>	<i>Math</i>	<i>Teitl</i>	<i>Deddf(au) galluogi</i>	
14.	19/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1291 (Cy. 326)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
15.	23/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1306 (Cy. 335)	Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
16.	26/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1321 (Cy. 336)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
17.	26/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1327 (Cy. 340)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
18.	26/11/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (cyfeirnod: WG21-95)	Cyfarwyddyd o dan baragraff 29 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 – mangre Cinema&Co. Swansea Ltd	Deddf y Coronafeirws 2020
19.	26/11/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (cyfeirnod: WG21-96)	Dynodiadau o dan baragraff 34 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 – mangre Cinema&Co. Swansea Ltd	Deddf y Coronafeirws 2020
20.	26/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1329 (Cy. 342)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
21.	27/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1330 (Cy. 343)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
22.	29/11/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1342 (Cy. 346)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
23.	01/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1354 (Cy. 352)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

<i>Dyddiad gwnaed</i>	<i>Math</i>	<i>Teitl</i>	<i>Deddf(au) galluogi</i>	
24.	02/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1363 (Cy. 358)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
25.	03/12/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (cyfeirnod: WG21-97)	Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau wedi'u Contractio: Imiwneiddio) (Diwygio) 2021	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
26.	05/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1366 (Cy. 361)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
27.	06/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1369 (Cy. 362)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
28.	10/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1407 (Cy. 366)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
29.	14/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1433 (Cy. 371)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 5) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
30.	15/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1456 (Cy. 372)	Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 4) (Cymru) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
31.	17/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1468 (Cy. 376)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

<i>Dyddiad gwnaed</i>	<i>Math</i>	<i>Teitl</i>	<i>Deddf(au) galluogi</i>	
32.	21/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1476 (Cy. 378)	Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021	Deddf Addysg 1996
33.	21/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1477 (Cy. 379)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 24) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
34.	21/12/21	Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (cyfeirnod: WG21-100)	Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) (Rhif 7) 2021	Deddf y Coronafeirws 2020
35.	22/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1485 (Cy. 386)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 25) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
36.	30/12/21	Offeryn Statudol 2021 Rhif 1490 (Cy. 390)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 26) 2021	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
37.	06/01/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 16 (Cy. 8)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
38.	14/01/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 39 (Cy. 16)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
39.	20/01/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 55 (Cy. 21)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
40.	26/01/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 75 (Cy. 27)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

Dyddiad gwnaed	Math	Teitl	Deddf(au) galluogi	
41.	27/01/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 83 (Cy. 29)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
42.	28/01/22	Offeryn Anstatudol 2022 (cyfeirnod: WG22-03)	Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2022	Deddf y Coronafeirws 2020
43.	10/02/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 126 (Cy. 41)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
44.	16/02/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 142 (Cy. 45)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
45.	16/02/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 150 (Cy. 48)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
46.	23/02/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 178 (Cy. 58)	Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2022	Deddf Addysg 1996
47.	24/02/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 180 (Cy. 59)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
48.	16/03/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 315 (Cy. 83)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr etc.) (Cymru) (Dirymu) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

<i>Dyddiad gwnaed</i>	<i>Math</i>	<i>Teitl</i>	<i>Deddf(au) galluogi</i>	
49.	21/03/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 348 (Cy. 86)	Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022	Deddf y Coronafeirws 2020
50.	25/03/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 378 (Cy. 95)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
51.	25/03/22	Offeryn Statudol 2022 Rhif 388 (Cy. 97)	Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2022	Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

Huw Irranca-Davies
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay,
Cardiff,
CF99 1SN

The Right Honourable
Dominic Raab MP
Deputy Prime Minister
Lord Chancellor & Secretary of
State for Justice

MoJ ref: 96020

12 April 2022

Dear Huw,

INVITATION TO ATTEND THE LEGISLATION, JUSTICE AND CONSTITUTION COMMITTEE

Thank you for your letter of 17 March inviting me to attend the Legislation, Justice and Constitution Committee to discuss the key issues facing me in my role as Lord Chancellor.

Unfortunately, my existing diary commitments mean that I will not be able to attend the Committee around the date you propose. However, I think it is important that the Ministry of Justice engages the Committee on key justice issues and I have asked Lord Wolfson to attend in my place.

Lord Wolfson's office will be in touch with your clerks to make the arrangements.

Yours sincerely



RT HON DOMINIC RAAB MP

Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS
Yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol
dros Gyfiawnder

17 Mawrth 2022

Annwyl Dominic,

Gwahoddiad i roi tystiolaeth

Mae fy **Mhwyllgor** wedi cael y cylch gorchwyl gan y Senedd i ystyried materion sy'n ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru. Ym mis Tachwedd, clywsom **dystiolaeth lafar** gan yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd ar adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, ac ym mis Ionawr cymerwyd **tystiolaeth lafar** gan y Cwnsler Cyffredinol ar faterion cyfiawnder o fewn ei bortffolio. Mae'r dystiolaeth a glywsom yn ystod y sesiynau hyn wedi bod yn werthfawr iawn i lywio ein hystyriaeth gychwynnol o'r materion hyn.

Yn y cyfamser, rydym wedi ystyried ein dull o gymryd tystiolaeth yn y dyfodol. O ganlyniad, hoffem eich gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar faterion allweddol sy'n eich wynebu yn eich rôl fel Arglwydd Ganghellor. Nodwn y sesiwn ddefnyddiol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd gyda eich rhagflaenydd **yn 2021**, a'r gobaith yw y bydd yr ymgysylltu hwnnw'n parhau. Efallai y bydd o ddiddordeb i chi ein bod hefyd wedi gwahodd cynrychiolwyr o Gyngor y Gyfraith Cymru a'r Arglwydd Brif Ustus i roi tystiolaeth mewn cyfarfodydd ar wahân.

Rydym yn bwriadu cynnal y sesiwn dystiolaeth yn ystod prynhawn dydd Llun, **13 Mehefin 2022**. Er mai cyfarfod yn bersonol fyddai orau gennym, byddem yn gallu cyfarfod mewn fformat rhithwir neu hybrid pe bai hynny'n hwyluso eich presenoldeb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau eich presenoldeb â'n clercod, drwy gysylltu â
SeneddLJC@senedd.cymru.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

11 Ebrill 2022


Annwyl Gadeirydd,

Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: adroddiad diweddar

Cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei sesiwn graffu flynyddol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 7 Chwefror 2022. Yn dilyn y sesiwn, cytunwyd i gyhoeddi adroddiad byr yn tynnu sylw at rai o'r themâu allweddol a gododd yn ystod ein gwaith craffu, sydd ar gael ar-lein.

Rydym wedi gosod yr amcan i'n hunain hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar draws y Senedd, gan gynnwys ei phwyllgorau. Ein bwriad yw gwneud cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y materion a godwyd yn ein hadroddiad, ond yn y cyfamser hoffem dynnu eich sylw ato gan fod rhai o'r materion a godwyd yn haeddu ystyriaeth bellach gan yr Aelodau yn eu gwaith craffu.

Yn gywir



Jenny Rathbone
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

DYDDIAD 13 Ebrill 2022

GAN Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi

Yn gynharach heddiw, cyhoeddwyd cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), sy'n disodli cyllid strwythurol yr UE. Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ein trafodaethau diweddar gyda Llywodraeth y DU, a'r hyn y bydd y Gronfa hon yn ei olygu i Gymru.

Ers 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n ddwys i greu'r model cryfaf posibl ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ar ôl yr UE yng Nghymru, o'r enw ein Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol. Mae hyn wedi cynnwys cyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid, ymgynghoriad cyhoeddus, a phrosiect i integreiddio arfer gorau rhyngwladol gyda'r OECD.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymdrechion mynych hefyd i ymgysylltu â Gweinidogion y DU ar y cynlluniau hyn. Fodd bynnag, ni gynigiodd Llywodraeth y DU drafodaeth ystyrlon tan y mis hwn, er mwyn i brospectws y Fframwaith gael ei gyhoeddi cyn dechrau ar y cyfnod cyn etholiadau llywodraeth leol.

Er gwaethaf yr amserlen anymarferol hon, ceisiwyd creu dull partneriaeth o ymdrin â'r Gronfa hon sy'n parchu'r setliad datganoli ac sy'n cyd-fynd â dymuniadau pobl a sefydliadau yng Nghymru o ran sut y dylid buddsoddi a darparu cyllid ar ôl yr UE.

Er bod rhywfaint o newid wedi bod, nid yw'r cynlluniau ariannu a nodwyd gan Lywodraeth y DU heddiw yn adlewyrchu anghenion penodol cymunedau Cymru. Rydym yn pryderu na fydd digon yn cyrraedd y cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf. Cynigiodd Llywodraeth Cymru fformiwla amgen a fyddai'n dosbarthu cyllid yn decach ledled Cymru yn ôl yr angen economaidd, ond gwrthodwyd hyn gan Lywodraeth y DU.

Nid yw rôl arfaethedig Llywodraeth Cymru chwaith yn cynnwys swyddogaeth gwneud penderfyniadau gwirioneddol sy'n hanfodol er mwyn sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl a pharchu datganoli yng Nghymru.

Ar y sail hon, ni fu'n bosibl cymeradwyo'r dull y mae Llywodraeth y DU yn ei fabwysiadu ar y Gronfa hon ac ni allwn gefnogi eu penderfyniad i ailgyfeirio cronfeydd datblygu economaidd

i ffwrdd o'r ardaloedd hynny yn benodol lle mae'r tlodi gwaethaf. Mae'r penderfyniad anflaengar hwn yn cael ei ddwysáu gan y gostyngiad dramatig yn yr arian y byddai Cymru wedi'i gael pe bai Llywodraeth y DU wedi cyflawni ei haddewid i ddisodli arian yr UE ar gyfer Cymru yn llawn.

Rydym wedi trafod y materion hyn gyda CLILC drwy gydol y trafodaethau hyn ac maent yn pwysleisio y dylai'r Fframwaith gael mwy o bwyslais ar angen.

Rydym wedi ei gwneud yn glir i Lywodraeth y DU fod gan hyn oblygiadau i'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae yn y camau nesaf o ran cyflawni a gweithredu ac ymrwymiad ein hadnoddau.

O ganlyniad i'r trafodaethau dwys y gwnaethom gymryd rhan ynddynt, gwnaed consesiynau a fydd yn gweld dyraniadau rhanbarthol i awdurdodau lleol gyda chynlluniau sy'n gofyn am alinio â'n Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol. Mae hyn yn dangos cryfder y dull partneriaeth sy'n bodoli yng Nghymru a'r sicrwydd y mae'n ei roi er gwaethaf cyd-destun cyfnewidiol y DU, a'u hawydd i ganoli.

Dros y tair blynedd ariannol nesaf, bydd y Fframwaith yn darparu £585 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dyraniad o £101 miliwn i Gymru i ddarparu rhaglen rhifedd ar gyfer oedolion yn y DU o'r enw Lluosi. Rydym yn dal i bryderu bod perygl i'r cynllun hwn ddyblygu cwricwlwm cenedlaethol Cymru a'i ddulliau dysgu.

Er bod y pecyn ariannu cyffredinol hwn yn cymharu'n gymharol ffafriol â gwledydd eraill y DU, nid yw'n bodloni ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyfateb o leiaf i faint cronfeydd strwythurol yr UE y bu i Gymru gymhwyso ar eu cyfer yn flaenorol ac y byddai wedi parhau i fod yn gymwys ar eu cyfer.

Yn syml, rydym yn wynebu colled o dros £1bn mewn cyllid heb ei ddisodli dros y tair blynedd nesaf. O ganlyniad, bydd penderfyniadau anodd i'w gwneud gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ar draws busnesau, addysg uwch ac addysg bellach, a'r trydydd sector sydd wedi elwa o Gronfeydd Strwythurol yr UE yn y gorffennol.

Byddwn yn awr yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid llywodraeth leol i ystyried y ffordd orau o fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gyfer rhaglenni a fydd yn cefnogi ein cenhadaeth i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiadau pellach.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Senedd Cymru

SeneddTai@senedd.cymru

19 Ebrill 2022

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth 2022 ynghylch amseriad gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Etholiadau. Rwy'n nodi eich pryderon ac mae'n destun gofid na chafodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ddigon o amser i ystyried y memorandwm cyn y ddatl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 29 Mawrth 2022. Fel y soniais yn ystod y ddatl, yr oedd hyn yn ganlyniad anffodus i natur yr ymgysylltu â Llywodraeth San Steffan, a pha mor gyflym yr ydym yn gorfod delio â materion, gwelliannau a newidiadau.

Ni osodwyd memorandwm atodol o fewn pythefnos i gyflwyno'r gwelliannau ar 11 Ionawr gan na fyddai wedi bod yn bosibl adlewyrchu canlyniad negodiadau a thrafodaethau hirfaith Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â nifer o ddarpariaethau'r Bil. O ganlyniad i lawer o ymgysylltu cadarnhaol â Llywodraeth y DU, llwyddwyd i sicrhau'r gwelliannau eithrio i'r Bil a rhoddodd Llywodraeth y DU sylw i'm pryderon blaenorol, a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, ynghylch dylanwad gormodol, y Comisiwn Etholiadol, gwariant tybiannol a mesurau cyllid gwleidyddol eraill.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 172
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn ymddiheuro eto am yr amser byr rhwng gosod y memorandwm atodol a'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Gwn fod hyn wedi achosi anhawster mawr i'r pwyllgorau o ran peidio â rhoi digon o amser i ystyried y memorandwm cyn y ddadl ac mae'n ddrwg gennyf ichi gael eich rhoi yn y sefyllfa honno. Rwy'n gwerthfawrogi'r holl waith y mae'r ddau bwyllgor wedi'i wneud yn y maes hwn ac yn croesawu eich ymgysylltiad adeiladol ar y Bil hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, reading "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

25 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Etholiadau ar 22 Mawrth. Trafododd y Pwyllgor hyn yn fyr yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth. Cawsom ddiweddariad llafar ar y Memorandwm Atodol gan Wasanaethau Cyfreithiol y Senedd, ond ni allwn ystyried nodyn cyngor cyfreithiol na chytuno ar adroddiad gan nad oes gennym unrhyw gyfle pellach i gyfarfod cyn y ddadl ar y Memorandwm Atodol, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 29 Mawrth.

Rydym yn rhwystredig iawn gan y diffyg amser sydd ar gael inni graffu ar y Memorandwm Atodol oherwydd iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru mor agos at ddyddiad y ddadl, yn enwedig gan fod y Memorandwm Atodol yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd ar 11 Ionawr a 28 Chwefror. Fel y gwyddoch, mae Rheol Sefydlog 29.2(iii) yn darparu y dylai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol neu Femorandwm atodol gael ei osod "dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno neu eu derbyn." Mae'n siomedig y bu oedi y tro hwn o ddau fis rhwng cyflwyno'r gwelliannau a gosod y Memorandwm Atodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan yn y Memorandwm atodol ei sail resymegol dros yr oedi wrth osod y Memorandwm atodol:

"Er bod y cyfnod arferol o bythefnos ar gyfer gosod wedi mynd heibio ers i welliannau 11 Ionawr gael eu cyflwyno, mae'r memorandwm atodol hwn yn cael ei osod ar hyn o bryd er mwyn iddo allu adlewyrchu canlyniad ein negodiadau a'n trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â nifer o ddarpariaethau'r Bil, gan gynnwys y gwelliannau hynny a gyflwynwyd ar 11 Ionawr ac y cytunwyd i'w cynnwys yn y Bil ar 17 Ionawr."

Rydym yn bryderus iawn ynglŷn â dull Llywodraeth Cymru, gan nad yw'r oedi o ran gosod y Memorandwm Atodol wedi gadael dim amser ar gyfer craffu gan ein Pwyllgor cyn iddo gael ei drafod gan y Senedd. Mae'r sefyllfa hon yn amlygu pa mor bwysig yw gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn modd amserol. Yn yr achos hwn, nid yw pwyllgorau'r Senedd wedi gallu gwneud unrhyw waith craffu ystyrllon ar Fil sy'n bwysig ac sy'n berthnasol yn uniongyrchol i etholiadau datganoledig yng Nghymru. Rydym yn pryderu felly y bydd y Senedd yn trafod rhinweddau'r ddeddfwriaeth heb y fantais o allu ystyried adroddiad pwyllgor perthnasol i lywio ei barn.

Barn ein Pwyllgor yw y byddai wedi bod yn well pe byddai Llywodraeth Cymru wedi gosod Memoranda atodol cyn gynted â phosibl ar ôl gosod y gwelliannau ym mis Ionawr a mis Chwefror, gan y byddai hyn wedi ein galluogi i graffu ar y darpariaethau.

Rydym yn cydnabod nad yw'r Rheolau Sefydlog wedi'u torri, gan fod geiriad Rheol Sefydlog 29.2 yn darparu y caiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei osod "fel rheol" ddim hwyrach na phythefnos ar ôl i welliannau gael eu cyflwyno neu eu derbyn. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod oedi o'r fath o ran gosod y Memorandwm atodol yn mynd yn groes i ysbryd Rheol Sefydlog 29.2, y bwriedir iddo sicrhau bod gan y Senedd amser i ystyried darpariaethau perthnasol Bil diwygiedig cyn y cyfnod diwygio nesaf yn Senedd y DU, a thrwy hynny yn rhoi cyfle i'r Senedd o bosibl ddylanwadu ar welliannau i'r Bil yn y dyfodol.

Nodwyd pryderon tebyg gennym yn ein hadroddiad ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), gan fod oedi o ran gosod Memorandwm atodol hefyd wedi amharu ar ein gwaith craffu ar y memorandwm hwnnw. Gobeithiwn y bydd rhannu ein barn yn ddefnyddiol i'ch gwaith ar y broses cydsyniad deddfwriaethol.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

seneddDCC@senedd.cymru

20 Ebrill 2022

Anwyl Huw,

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi am newidiadau pellach i Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ("y Bil"), ac i amlinellu ein hymateb ninnau.

Ar 28 Mawrth 2022, cynhaliwyd dadl unwaith eto ar y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 24 Mawrth. Cynhaliwyd dadl arall ar y gwelliannau hyn yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 31 Mawrth.

Gwelliannau a dderbyniwyd gan Dŷ'r Arglwyddi ar 31 Mawrth

Troseddau Bwyd

Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau a oedd yn golygu bod modd rhoi pwerau plismona penodol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i swyddogion troseddau bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd a phersonau awdurdodedig eraill er mwyn mynd i'r afael â throseddau bwyd.

Troseddau Casineb

Cyflwynodd Llywodraeth y DU gymal newydd yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i lunio ymateb i'r argymhelliad perthnasol yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfreithiau troseddau casineb, ac i gyhoeddi'r ymateb hwnnw.

Mae hyn yn dilyn 'gwelliant Newlove' fel y'i gelwir mewn perthynas â gwneud casineb at fenywod yn drosedd gasineb. Pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin o blaid gwrthod gwelliant Newlove ar 22 Chwefror, ond, mewn ymateb, cyflwynodd Llywodraeth y DU y gwelliant newydd hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymalau sy'n destun dadl bellach

Ceisiodd Llywodraeth y DU wneud gwelliannau pellach i'r cymalau 'Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus', 'Gosod amodau ar gynulladau cyhoeddus' a 'Gosod amodau ar brotestiadau un person' yn y Bil. Mae'r newidiadau hyn yn golygu bod y trothwy i'r heddlu ymyrryd mewn protest bellach wedi cynyddu, fel bod yn rhaid i'r heddlu yn awr, er mwyn gweithredu, ddangos y gall y brotest achosi dychryn neu ofid i berson, yn hytrach nag anesmwythyd difrifol, dychryn neu ofid.

Bydd y gwelliannau yn mynd yn ôl i Dŷ'r Cyffredin lle y byddant yn destun dadl ar 25 Ebrill, cyn iddynt gael eu hystyried ymhellach yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 26 Ebrill.

Ymagwedd Llywodraeth Cymru at y gwelliannau diweddaraf

Fel y gwyddoch, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod "fel arfer" o fewn pythefnos i gyflwyno gwelliannau gan Lywodraeth y DU, sef erbyn 7 Ebrill yn yr achos hwn.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cydnabod nad yw'r gwelliannau hyn yn cael eu codi o dan amgylchiadau 'arferol'. Mae'n hynod anarferol i gael diwygiadau o sylwedd mor hwyr â hyn yn y broses ddeddfwriaethol. Mae'r Senedd eisoes wedi pleidleisio ar bedwar cynnig mewn perthynas â'r Bil hwn, gan egluro ei safbwynt ynghylch y materion polisi o dan ystyriaeth.

Er ein bod yn parhau i roi gwybod i Lywodraeth y DU am farn y Senedd, o ganlyniad i amseriad toriad y Pasg, nid oes rhagor o gyfle i'r Senedd gynnal dadl ystyrlon arall i nodi ei barn ynghylch y Bil hwn mewn pryd i ddylanwadu ar ei ganlyniad.

O ystyried arwyddocâd y Bil, rwyf heddiw wedi gosod [datganiad ysgrifenedig](#) yn nodi'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud. Mae'r datganiad ysgrifenedig hwn yn ailddatgan safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y gwelliannau, ond mae hefyd yn tynnu sylw unwaith eto at sut y pleidleisiodd y Senedd mewn perthynas â'r gwelliannau sy'n dod o fewn cymhwysedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at holl Aelodau'r Senedd ac at Jenny Rathbone AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd
DYDDIAD 20 Ebrill 2022
GAN Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Bydd Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd gan Senedd y DU yn effeithio ar fywydau pobl ym mhob rhan o Gymru, ac rydym wedi brwydro i sicrhau bod llais y Senedd wedi cael ei glywed drwy gydol y broses deddfwriaethol. Mae'r Bil yn eang ei gwmpas ac mae'n cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym wedi darparu gwybodaeth am y darpariaethau hynny sy'n dod o fewn cymhwysedd drwy Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd ar: 22 Mawrth 2021, 28 Mai 2021, 5 Tachwedd 2021, 20 Rhagfyr 2021, 7 Ionawr 2022 a 28 Chwefror 2022. Mae nifer y Memoranda a osodwyd yn adlewyrchu cymhlethdod y Bil.

Bu'n broses hir gyda dadleuon yn cael eu cynnal yn y Senedd ar ddau Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, ar 18 Ionawr a 1 Mawrth 2022. Yn y dadleuon hyn, pleidleisiodd yr aelodau yn unol â'n hargymhellion yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol fel y nodir uchod, gan roi cydsyniad ar gyfer rhai darpariaethau yn y Bil sydd o fewn cymhwysedd y Senedd (megis y Ddyletswydd Trais Difrifol), a gwrthod cydsyniad ar gyfer cymalau eraill o fewn cymhwysedd. Cafodd y cymalau sy'n ymwneud â phrotestio a gwerysilloedd diawdurdod eu gwrthod gan y Senedd, gan bwysleisio'r ymrwymiad i'r hawl i ymgynnull yn heddychlon a phrotestio, ac i sicrhau bod pobl o gefndiroedd Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn cael eu trin yn deg ac yn ystyriol.

Mae'n amserol yn awr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnydd ehangach y Bil, ac am ein hymateb ninnau.

Ar 31 Mawrth 2022, dychwelodd y Bil i Dŷ'r Arglwyddi ar gyfer ystyried y gwelliannau y cytunwyd arnynt yn Nhŷ'r Cyffredin ar 28 Mawrth. Hwn oedd ail gam cyfnod ystyried gwelliannau terfynol y Bil, proses sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel 'Ping Pong'. Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi o blaid derbyn rhai o welliannau Llywodraeth y DU, ond gwrthododd rai gwelliannau hefyd. Bydd y gwelliannau hynny a wrthodwyd yn destun dadl bellach yn awr.

Gwelliannau a dderbyniwyd gan Dŷ'r Arglwyddi ar 31 Mawrth 2022

Troseddau Bwyd

Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau a oedd yn golygu y byddai modd rhoi pwerau plismona penodol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i swyddogion troseddau bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd a phersonau awdurdodedig eraill er mwyn mynd i'r afael â throseddau bwyd.

Yn sgil y gwelliannau hyn, bydd rhagor o orfodi mewn perthynas â throseddau sy'n gysylltiedig â bwyd ac maent yn cael eu croesawu.

Troseddau Casineb

Cyflwynodd Llywodraeth y DU gymal newydd yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i lunio ymateb i'r argymhelliad perthnasol yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfreithiau troseddau casineb, ac i gyhoeddi'r ymateb hwnnw.

Mae hyn yn dilyn 'gwelliant Newlove' fel y'i gelwir mewn perthynas â gwneud casineb at fenywod yn drosedd gasineb. Pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin o blaid gwrthod gwelliant Newlove ar 22 Chwefror, ond, mewn ymateb, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r gwelliant newydd hwn. Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi o blaid derbyn y gwelliant hwn ar 31 Mawrth.

Rwy'n siomedig â'r canlyniad o ran y gwelliant newydd hwn. Rwyf wedi dweud eisoes fod rhaid trin casineb at fenywod fel trosedd gasineb ac mae hyn yn gyson â'n hymagwedd at Drais yn Erbyn Menywod a Merched. Croesewir cynnal adolygiad o argymhelliad Comisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell i ymateb i fater hynod ddifrifol, sydd angen mynd i'r afael ag ef ar unwaith. Pe bai casineb at fenywod wedi cael ei wneud yn drosedd gasineb fel rhan o'r Bil, byddai cyfle wedi codi i ategu'r gwaith yr ydym eisoes yn ei wneud i ddileu trais yn erbyn menywod a merched ac i fynd i'r afael â diwylliant gwrth-fenywod sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn.

Cymalau sy'n destun dadl bellach

Ceisiodd Llywodraeth y DU wneud gwelliannau pellach i'r cymalau 'Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus', 'Gosod amodau ar gynulladau cyhoeddus' a 'Gosod amodau ar brotestiadau un person' yn y Bil. Mae'r newidiadau hyn yn golygu bod y trothwy i'r heddlu ymyrryd mewn protest bellach wedi cynyddu, fel bod yn rhaid i'r heddlu yn awr, er mwyn gweithredu, ddangos y gall y brotest achosi dychryn neu ofid i berson, yn hytrach nag anesmwythyd difrifol, dychryn neu ofid. Bydd y gwelliannau yn mynd yn ôl i Dŷ'r Cyffredin lle y byddant yn destun dadl ar 25 Ebrill, cyn iddynt gael eu hystyried ymhellach yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 26 Ebrill.

Mae fy marn i am y cymalau hyn yn gwbl glir ac nid yw wedi newid. Mae'n hanfodol bod gan bobl yr hawl o hyd i leisio eu barn a mynegi eu pryderon yn rhydd, mewn ffordd ddiogel a heddychlon. Cafodd fy marn i ei hadleisio'n glir pan gynhaliwyd dadl ar y Bil ar 18 Ionawr a

1 Mawrth 2022 a phleidleisiodd y Senedd yn unol â'm hargymhelliad i wrthod y cymalau hyn.

Mae'r Senedd eisoes wedi cynnal dadl ar y Bil a phleidleisio arno ddwywaith, gan bleidleisio ar bedwar cynnig. O ganlyniad i amseriad toriad y Senedd ar gyfer y Pasg ac amserlen Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil, nid oes rhagor o gyfle i gynnal dadl ystyrlon arall mewn pryd i ddylanwadu ar ganlyniad y Bil cyn iddo gael y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r materion a'r pryderon a fynegwyd gennym mewn perthynas â'r Bil wedi eu codi a'u trafod gyda Llywodraeth y DU ac mae fy safbwynt i ynghylch y Bil yn parhau'r un fath. Rwy'n fodlon bod safbwynt y Senedd ynghylch y Bil hwn wedi'i fynegi, yn enwedig yn y dadleuon a gynhaliwyd ar 18 Ionawr a 1 Mawrth 2022. Byddaf yn parhau i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed a'i ystyried wrth i'r Bil symud tuag at gael y Cydsyniad Brenhinol, ac ymlaen i gael ei weithredu.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau. Os bydd yr aelodau am imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ar hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn falch o wneud hynny.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 11

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)

Y BIL IECHYD A GOFAL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Iechyd a Gofal (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Mae'r Bil wedi cwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd ar Adroddiad gan Dŷ'r Arglwyddi i'w weld yma:

<https://bills.parliament.uk/publications/45813/documents/1627>

3. Ar 28 Mawrth, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant mewn perthynas â 'thwristiaeth organau' i Dŷ'r Cyffredin sy'n gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nodir hyn isod.

Amcan(ion) Polisi

4. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcan yw gweithredu polisiau a amlinellir yn argymhellion y GIG mewn perthynas â diwygio deddfwriaethol, gan ddilyn Cynllun Hirdymor y GIG, a'r Papur Gwyn ar Integreiddio ac Arloesi: cydweithio i wella iechyd a gofal cymdeithasol i bawb. Dywed Llywodraeth y DU fod y Bil yn adeiladu ar gynigion y GIG ei hun ar gyfer diwygio, gyda'r nod o'i wneud yn llai biwrocraataidd, yn fwy atebol, ac yn fwy integredig, gan ymgorffori gwersi a ddysgwyd o'r pandemig.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
6. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn ymdrin â nifer o feysydd, a nodir yn fyr isod.
 - a) Mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan GIG Lloegr, megis sefydlu'r Systemau Gofal Integredig (ICSs) presennol ar sail statudol, uno NHS England a NHS Improvement yn ffurfiol, a gwneud newidiadau i reolau caffael a chystadleuaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cynigion i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfarwyddo NHS England a phenderfynu sut y mae rhai gwasanaethau iechyd eraill yn cael eu trefnu. Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo swyddogaethau rhwng rhai o'r 'Cyrff Hyd Braich' sy'n arwain, yn

cefnogi ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr a phweras i ddirprwyo swyddogaethau eraill yr Ysgrifennydd Gwladol i'r cyrff hynny mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr, a hefyd i ymyrryd mewn newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu darparu.

- b) Nid yw'r Bil yn ymdrin â diwygiadau ehangach i'r systemau gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd, er ei fod yn darparu ar gyfer rhai newidiadau yn y meysydd hynny; bwriedir i Systemau Gofal Integredig wella'r cydgysylltu rhwng y GIG a gwasanaethau'r awdurdodau lleol. O ran gofal cymdeithasol, mae'r Bil yn darparu i'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) asesu sut mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn cyflawni eu swyddogaethau gofal cymdeithasol i oedolion, a'i nod yw gwella'r broses o rannu data. Mae mesurau hefyd i symleiddio'r ffordd y mae pobl ag anghenion gofal parhaus yn cael eu rhyddhau o ysbytai.
- c) Mae mesurau iechyd y cyhoedd yn y Bil yn ymwneud â hysbysebu bwyd, gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr a fflworideiddio dŵr.
- d) Mae'r Bil hefyd yn mynd i'r afael ag ymchwiliadau diogelwch ac yn sefydlu Corff Ymchwiliadau Diogelwch y Gwasanaethau Iechyd yn gorff statudol, ac yn gwneud newidiadau i'r system archwilwyr meddygol.
- e) Ymhlith y materion eraill yr ymdrinnir â nhw yn y Bil y mae rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, casglu a rhannu data (gan gynnwys mesurau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cofrestrfa meddyginiaethau newydd), gofal iechyd rhyngwladol, safonau bwyd mewn ysbytai a, thrwy gyflwyno gwelliannau, gwneud profion gwryfyddod yn drosedd.

Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r trydydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

- 7. Gosodais drydydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm Rhif 3") ar 28 Ionawr 2022, ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau pellach a oedd yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cytunwyd ar welliannau Llywodraeth y DU yng ngham Pwyllgor yr Arglwyddi ac maent bellach yn rhan o'r Bil.
- 8. Yn dilyn hyn, ar 15 Chwefror, roedd y darpariaethau yn y Bil sy'n dod o fewn cymhwysedd y Senedd yn ddarostyngedig i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd. Pleidleisiodd y Senedd o blaid cydsynio'r Bil.
- 9. Dychwelodd y Bil i Dŷ'r Cyffredin ar 28 Mawrth er mwyn ystyried y gwelliannau.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r trydydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gofyn am gael cydsyniad

10. Ar 28 Mawrth, cafodd gwelliant yn ymwneud â 'thwristiaeth organau' ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliant, sy'n ei gwneud yn drosedd i dalu, neu i gynnig talu am organ i'w drawsblannu dramor, yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, a daw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
11. Pleidleisiwyd o blaid y gwelliant yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Mawrth. Gellir gweld y gwelliant yma: [health day ccla 0330.fm \(parliament.uk\)](http://health_day_ccla_0330.fm(parliament.uk))
12. Mae'r gwelliant yn welliant gan Lywodraeth y DU i gymal newydd, cymal 181, i'r Bil. Cafodd y cymal hwn ei ychwanegu gan welliant na ddaeth gan y Llywodraeth, gwelliant yr Arglwyddi rhif 89, a gyflwynwyd yng ngham Adrodd yr Arglwyddi gan yr Arglwydd Hunt o King's Heath, ac a basiwyd gan yr Arglwyddi ar 16 Mawrth. Roedd Llywodraeth y DU o'r farn bod y cymal yn anymarferol ac y gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol. Felly, cynigiodd Llywodraeth y DU welliant yn lle gwelliant yr Arglwydd Hunt, a fyddai'n cael yr un effaith â gwelliant yr Arglwydd Hunt o ran rhwystro pobl rhag ceisio cael organau dramor mewn modd anfoesegol, ond a fyddai'n gwella'r meysydd sy'n peri pryder i Lywodraeth y DU yn y Bil ar hyn o bryd.
13. Caiff manylion gwelliant Llywodraeth y DU a gyflwynwyd yn lle gwelliant yr Arglwydd Hunt eu nodi isod.

Cymal 181 – Masnachu mewn organau i'w trawsblannu: troseddau alldiriogaethol

14. Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 ("Deddf 2004") yn ei gwneud yn drosedd i dynnu neu storio, at ddibenion trawsblannu, neu drawsblannu organ heb gydsyniad (adran 5, i'w darllen gydag adran 1 ac Atodlen 1). Mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd i dalu, neu i gynnig talu, am organ a gwneud trefniadau i brynu organau (adran 32(1)). Mae adran 33 yn gwahardd tynnu a defnyddio deunydd y gellid ei drawsblannu o roddwr byw oni bai bod gofynion y rheoliadau a wneir o dan yr adran honno'n cael eu bodloni. Mae'r troseddau hyn yn berthnasol i'r rheini sy'n cynnal y gwaith anghyfreithlon o dynnu a thrawsblannu organau (adran 5) a'r rheini sy'n gwneud y trefniadau ar gyfer taliadau (adran 32). Nid ydynt yn targedu'r person sy'n derbyn y deunydd i'w drawsblannu fel y cyfryw.
15. Mae Deddf 2004 yn gymwys i Gymru, i Loegr ac i Ogledd Iwerddon, ac mae'n cwmpasu trawsblaniadau anghyfreithlon a'r trefniadau ar eu cyfer sy'n digwydd o fewn yr awdurdodaeth hon. Mae hefyd yn cwmpasu achosion lle mae rhan sylweddol o elfennau, neu'r trefniadau, ar gyfer prynu organ yn digwydd yn yr awdurdodaeth hon, hyd yn oed os yw'r trefniadau yn cael eu cwblhau dramor. Yn yr Alban, ceir darpariaethau tebyg yn adrannau 3 (cydsyniad), 17 (rhoddwyr byw) a 20(1) (masnachu) o Ddeddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006.
16. Mae cymal 181 yn canolbwyntio ar y broblem o fasnachu mewn organau ac yn ei gwneud yn drosedd i dalu, neu i gynnig talu am organ dramor. Mae'r gwelliant yn gosod adran newydd 32A i Ddeddf 2004 ac adran newydd 20A

i Ddeddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006 er mwyn ymestyn, i bob pwrpas, yr hyn sydd eisoes yn drosedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i weithredoedd o'r natur hwn a gynhelir y tu allan i'r DU.

17. Roedd gwelliant yr Arglwydd Hunt yn ceisio ei gwneud yn drosedd i ddinasyddion y DU drefnu trawsblaniadau dramor heb gydsyniad. Fodd bynnag, byddai hynny llawer yn fwy cymhleth i'w gyflawni gan bod troseddau presennol mewn perthynas â chydsyniad yn gymwys i'r rheini sy'n cynnal y trawsblaniad, ac nid y rheini sy'n eu trefnu neu'n eu derbyn. Ychydig iawn o sefyllfaoedd, os o gwbl, fydd yn bodoli lle na fydd unrhyw un yn elwa'n ariannol, ac felly mae gwelliant Llywodraeth y DU yn cael yr un effaith ag yr oedd yr Arglwydd Hunt yn dymuno ei chael drwy ei welliant ef, h.y. rhwystro pobl rhag teithio dramor i dalu am drawsblannu organ, ond heb y cymhlethdodau o orfod profi cydsyniad. Mae hefyd yn sicrhau bod rhai agweddau beichus ar welliant yr Arglwydd Hunt sy'n effeithio ar weithwyr iechyd proffesiynol, gweinyddwyr a'r rheini sy'n derbyn organ dramor yn gyfreithlon, yn cael eu dileu.
18. Rydym yn cefnogi bod y ddarpariaeth hon yn ymestyn i Gymru ac yn gymwys yng Nghymru. Er bod nifer yr achosion o bobl yn ceisio talu am organ dramor yn isel, mae'r gwelliant hwn yn anfon neges bwysig bod hyn yn annerbyniol. Byddai peidio â chefnogi ymestyn y gwelliant i Gymru yn golygu na fyddai'r mesur hwn yn gymwys i drigolion Cymru sy'n ceisio talu am organau i'w trawsblannu dramor, ac yn ein gadael mewn sefyllfa lle y byddai angen chwilio am gyfle deddfwriaethol arall er mwyn cyflawni'r un mesur. Felly, ar yr achlysur hwn, rwy'n credu ei bod yn iawn i gytuno bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ran Cymru.

19. Mae'r gwelliant yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

20. Fel y nodir uchod, rydym yn cytuno gyda gwelliant Llywodraeth y DU ynghylch talu am organau i'w trawsblannu dramor.
21. Felly, fy safbwynt i yw y byddaf yn gallu argymhell bod cydsyniad y Senedd yn cael ei roi i gymal 181 mewn perthynas â'r mater hwn.

Goblygiadau ariannol

22. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u nodi ar gyfer Cymru o ran y gwelliant hwn. Diben y gwelliant yw rhwystro pobl rhag teithio dramor i gael trawsblaniadau organau mewn modd anfoesegol, heb ei reoli. Oherwydd y gallai cael trawsblaniadau yn y ffordd hon arwain at gostau heb eu cynllunio i'r GIG, mae'n bosibl y byddai ceisio lleihau gweithgaredd o'r fath o fudd ariannol i'r GIG.

Casgliad

23. Rwy'n croesawu'r gwelliant y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i'r Bil mewn perthynas â 'thwristiaeth' organau ac ymestyn y ddarpariaeth i Gymru.

24. Gallaf felly argymhell cydsyniad i'r cymal hwn.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
5 Ebrill 2022

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon